Wales Office
Swyddfa Cymru

# Swyddfa Cymru

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014-15

Wales Office
Swyddfa Cymru

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014–15

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015)

Cyflwynwyd y Cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin
yn unol ag Adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau
a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i Dŷ'r Cyffredindrwy
Drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon
i Dŷ'r Arglwyddi Drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

**Gorchmynnwyd eu hargraffu gan Dŷ'r Arglwyddi**

29 Mehefin 2015

HC 74

Rhan o gyfres o gyhoeddiadau Adrannol yw hon sydd, ynghyd â'r Prif Amcangyfrifon 2014-15, y ddogfen 'Public Expenditure: Statistical Analyses 2015', a'r 'Supply Estimates 2014-15: Supplementary Budgetary Information', yn cyflwyno alldro'r Llywodraeth ar gyfer 2014-15 a'r gwariant a gynlluniwyd ar gyfer 2015-16.

**© Hawlfraint y Goron 2015**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heblaw am y logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu anfonwch ebost at PSI@
nationalarchives.gsi.gov.uk Lle y nodir bod deunydd yn ddeunydd trydydd parti, rhaid ceisio caniatâd deilydd perthnasol yr hawlfraint.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylech anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn wales.office@walesoffice.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk ac ar ein gwefan yn www.walesoffice.gov.uk

ISBN Print 9781474122535
ISBN y We 9781474122542

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Grŵp Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 23061501 06/15

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 1** | **Rhagair y Gweinidog** | **1** |
| **Pennod 2** | **Cyflwyniad y Cyfarwyddwr** | **3** |
| **Pennod 3** | **Adroddiad Strategol** | **4** |
| **Pennod 4** | **Adroddiad y Cyfarwyddwyr** | **19** |
| **Pennod 5** | **Adroddiad ynghylch Taliadau** | **28** |
| **Pennod 6** | **Datganiad Llywodraethu** | **38** |
| **Pennod 7** | **Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu** | **50** |
| **Pennod 8** | **Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol tŷ'r Cyffredin** | **51** |
| **Pennod 9** | **Cyfrifon** | **54** |
| | Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol | |
| | Datganiad ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr | |
| | Datganiad ynghylch y Sefyllfa Ariannol | |
| | Datganiad ynghylch Llif Arian | |
| | Datganiad ynghylch Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr | |
| | Nodiadau am y Cyfrifon | |
| **Atodiad 1** | **Tablau Ariannol Craidd Gwariant Cyhoeddus** | **90** |

# 1 Rhagair y Gweinidog

Aeth blwyddyn heibio bellach ers i'r Prif Weinidog fy mhenodi'n Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i fod yn llais cryf dros Gymru wrth fwrdd y Cabinet. Fe'i teimlaf yn fraint bod wedi cael dal y swydd ar adeg o lwyddiant na bu ei debyg i Swyddfa Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi llawer o'r llwyddiannau hynny, a phenderfynais dynnu sylw at ambell un yn unig.

Ym mis Medi yr oeddwn yn sefyll ochr yn ochr â'r Prif Weinidog a Phrif Weinidog Cymru wrth i ni groesawu amrediad eang o arweinyddion byd i uwchgynhadledd NATO yn y Celtic Manor. Drwy'r uwchgynhadledd gosodwyd Cymru ar lwyfan y byd a bu i ni ddisgleirio, gan lwyddo i gael proffil byd-eang na all rhai gwledydd ond breuddwydio amdano. Adeiladwyd ar y llwyddiant hwnnw ddeufis yn ddiweddarach pan gynhaliwyd Cynhadledd Fuddsoddi'r DU yng Nghasnewydd. Cymerodd busnesau Cymreig y cyfle i ddangos i fuddsoddwyr o bob rhan o'r byd ein bod yn gartref i gwmnïau o safon fyd-eang, sydd ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygiadau rhyngwladol. Dangoswyd i arweinwyr busnes heb amheuaeth fod Cymru yn genedl uchelgeisiol, yn awyddus i lwyddo a chydag economi ddeinamig a blaengar.

Agorwyd y Gynhadledd Fuddsoddi gan y Prif Weinidog drwy gyhoeddi ein bod wedi cyrraedd cytundeb gyda Llywodraeth Cymru i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Rwyf wedi bod yn annog trydaneiddio rheilffyrdd De Cymru ers tro byd, ac rwy'n hynod falch y bu gan Swyddfa Cymru rôl allweddol o ran trefnu'r cytundeb pwysig hwn. Mae ganddo'r potensial i fod yn brosiect a fydd yn gweddnewid.

Mae bron yn amhosibl trafod 2014-15 heb grybwyll datblygiadau cyfansoddiadol. Ym mis Rhagfyr, cwblhaodd Deddf Cymru 2014 ei thaith drwy'r senedd, gan gyflwyno set o bwerau i Lywodraeth Cymru a fydd yn darparu atebolrwydd ariannol gwirioneddol iddi am y tro cyntaf yn ei hanes. Yna euthum ati i arwain proses Dydd Gŵyl Dewi, gan gadeirio trafodaethau gydag arweinyddion y pleidiau yn San Steffan a Chaerdydd a arweiniodd at Gytundeb Dydd Gŵyl Dewi – pecyn cadarn o bwerau newydd i Gymru a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog. Mae'r Cytundeb yn gosod y sylfeini ar gyfer setliad datganoli cliriach, tecach a chryfach i Gymru.

Fel rhan o'r Cytundeb bu i ni ymrwymo i gyflwyno cyllid gwaelodol i amddiffyn cyllid perthnasol Cymru. Bydd hyn yn fodd o gryfhau setliad datganoli Cymru ac yn cael gwared â'r rhwystr terfynol a godwyd gan Lywodraeth Cymru rhag galw refferendwm ar ddatganoli treth incwm.

Efallai ein bod yn genedl fechan, ond mae eleni wedi dangos bod modd i ni lwyddo pa fo Llywodraeth y DU yn gweithio gyda busnesau yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i gyflawni ar gyfer ein gwlad. Mae

Swyddfa Cymru wrth galon hyn oll, gan wneud i berthnasoedd weithio a cheisio cyfleoedd newydd i wella bywydau pobl yng Nghymru.

Fel Ysgrifennydd Gwladol, yr wyf wedi derbyn cymorth abl gan dîm gweinidogol cryf ac fe hoffwn ddiolch i Alun Cairns AS a'r Farwnes Randerson am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Yn yr un modd, hoffwn ddiolch i staff Swyddfa Cymru, a gynhaliodd lefelau rhagorol o ran perfformiad, tra'n torri costau ar yr un pryd. Dylent fod yn falch o bopeth a gyflawnwyd ganddynt dros Gymru.

**Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS**
**Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

# 2 Cyflwyniad y Cyfarwyddwr

Mae 2014–15 wedi bod yn flwyddyn o lwyddiant sylweddol i Swyddfa Cymru sut bynnag yr edrychwch arni. Ar draws ystod eang o feysydd uchel eu proffil – o Uwchgynhadledd NATO i Uwchgynhadledd Fuddsoddi'r Deyrnas Unedig; i Ddeddf Cymru 2014 i gyhoeddi'r Papur Gorchymyn 'Pwerau at Bwrpas: Tuag at Setliad Datganoli sy'n Para i Gymru'; o sicrhau cytundeb i ariannu trydaneiddio rhwydwaith rheilffyrdd De Cymru i ddechrau negodi Cytundeb Dinesig Caerdydd – mae'r Adran wedi dangos ei bod yn gallu camu i'r adwy a sicrhau'r hyn sydd ei angen, beth bynnag yw'r rhwystrau a'r pwysau.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn gorff sylweddol o waith i unrhyw Adran, ac yn fwy felly i adran sy'n llai na hanner cant o ran nifer, ac mae'n deyrnged haeddiannol i ymrwymiad ac ymdrechion staff Swyddfa Cymru drwy gydol y flwyddyn.

**Glynne Jones**
**Cyfarwyddwr**

# 3 Adroddiad Strategol

Yn 2014–15 mae Swyddfa Cymru wedi parhau i gyflawni dros Gymru mewn amrywiaeth o feysydd pwysig. Y Deyrnas Unedig yn awr yw'r economi ddatblygedig sy'n tyfu gyflymaf ac mae economi Cymru'n tyfu'n gyflymach nag unman yn y Deyrnas Unedig. Mae Swyddfa Cymru wedi chwarae ei rhan i gryfhau economi Cymru ac i ysgogi twf sy'n creu cyfleoedd gwaith i bawb.

Chwaraeodd Swyddfa Cymru ran hollbwysig yn dod ag Uwchgynhadledd Fuddsoddi'r Deyrnas Unedig i Gymru ym mis Tachwedd, gan adeiladu ar lwyddiant Uwchgynhadledd NATO ym mis Medi. Codwyd proffil rhyngwladol Cymru drwy'r uwchgynadleddau hynny, gan dynnu sylw ati fel lle gwych i ymweld â hi, ac i astudio a buddsoddi ynddi.

Yn Uwchgynhadledd Fuddsoddi'r Deyrnas Unedig, cyhoeddodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig fod y trafodaethau manwl rhwng Swyddfa Cymru, yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ac y byddai rhwydwaith rheilffyrdd De Cymru'n cael eu trydaneiddio. Buddsoddir £230 miliwn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i redeg trenau trydan ar y brif reilffordd drwodd i Abertawe ac ar holl rwydwaith Rheilffyrdd y Cymoedd. Bydd y buddsoddiad hwn yn cwtogi amserau teithio ac yn help i gysylltu cymunedau Cymoedd y De â chyfleoedd gwaith yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe.

Bu Swyddfa Cymru'n cydweithio'n glos â Thrysorlys EM ac adrannau eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau canlyniadau llwyddiannus i Gymru yng Nghyllideb 2015. Roedd y rhain yn cynnwys gostwng y tollau ar Bontydd Hafren ar ôl 2018, a dechrau trafodaethau am y Contractau Gwahaniaeth ar gyfer prosiect llanw Abertawe ac am Gytundeb Dinesig i Gaerdydd gyda Chyngor Caerdydd.

Rydym wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â busnesau drwy Gymru i sicrhau bod polisi economaidd y Deyrnas Unedig yn dal i gyflawni pethau dros fusnesau yng Nghymru. Mae Bwrdd Cynghori Economaidd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnig cyfrwng uniongyrchol i safbwyntiau a chyngor lywio penderfyniadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion sy'n bwysig i fyd busnes yng Nghymru. Mae gweinidogion Swyddfa Cymru hefyd wedi cyfarfod â nifer fawr o bobl fusnes yng Nghymru i glywed o lygad y ffynnon y camau y maent am i'r Llywodraeth eu cymryd i gefnogi twf economaidd.

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi sicrhau newidiadau cyfansoddiadol pwysig i gryfhau rôl Cymru yn y Deyrnas Unedig ac i wneud y Cynulliad a Llywodraeth Cymru'n fwy atebol.

Llywiodd Gweinidogion Swyddfa Cymru Fil Cymru drwy'r Senedd i'w droi'n Ddeddf Cymru 2014. Mae'r darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth, y Ddeddfwriaeth

gyntaf i Gymru'n unig ers wyth mlynedd, yn rhoi bron holl argymhellion adroddiad cyntaf y Comisiwn annibynnol ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) ar waith. Mae'n datganoli pwerau trethu a benthyca i'r Cynulliad ac i Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn arfau pwysig newydd y gellir eu defnyddio i helpu i ddatblygu economi Cymru ac i fwrw ymlaen â buddsoddi pwysig yn y seilwaith yng Nghymru.

Arweiniwyd proses Dydd Gŵyl Dewi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae honno'n dangos ymhle mae consensws gwleidyddol ynghylch argymhellion ail adroddiad Comisiwn Silk ar ddatganoli i Gymru er mwyn eu rhoi ar waith. Edrychodd y broses hefyd ar Gytundeb Comisiwn Smith i'r Alban er mwyn gweld pa argymhellion a oedd yn denu cefnogaeth wleidyddol gref ac y gellid eu rhoi ar waith yng Nghymru.

Daeth y gwaith hwn i ben drwy gyhoeddi ym mis Chwefror 2015 y Papur Gorchymyn *Pwerau at Bwrpas: Tuag at Setliad Datganoli sy'n Para i Gymru.* Roedd y Papur Gorchymyn yn gosod glasbrint ar gyfer rhagor o ddatganoli i Gymru sy'n adlewyrchu'r consensws y llwyddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei sicrhau gyda'r pedair prif blaid wleidyddol yng Nghymru. Mae'n cynnwys ymrwymiad i newid sylfaen datganoli yng Nghymru gan sefydlu model cadw pwerau yn ôl a chytundeb i gyflwyno lefel gyllido waelodol i Gymru gan ddisgwyl y bydd Llywodraeth Cymru'n galw refferendwm ar bwerau treth incwm yn y Senedd newydd. Caiff llawer o ymrwymiadau'r Papur Gorchymyn eu rhoi ar waith mewn Bil Cymru newydd yn y Senedd newydd.

Roedd gan nifer o filiau yn rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth oblygiadau i Gymru. Rydym wedi parhau i fynd ati'n frwd i sicrhau bod deddfwriaeth y Deyrnas Unedig yn adlewyrchu anghenion Cymru a hefyd yn gyson â'r setliad datganoli; er enghraifft, cyfrannwyd yn sylweddol at ddatblygu deddfwriaeth megis Deddf Seilwaith 2015, Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 a Deddf Dadreoleiddio 2015.

# Mae Cynllun Busnes Swyddfa Cymru'n disgrifio ein gwaith o dan dri amcan.

## *Amcan 1: Hybu economi Cymru a buddiannau economaidd Cymru*

***Gweithio gyda busnesau Cymru***

Roedd 2014 yn flwyddyn ddigynsail o ran hyrwyddo Cymru ym mhob cwr o'r byd. Uwchgynhadledd NATO yn Celtic Manor, Casnewydd oedd y cynulliad mwyaf erioed o arweinyddion rhyngwladol i ymweld â'r Deyrnas Unedig a dyma'r tro cyntaf i rywun a oedd yn gwasanaethu ar y pryd fel Arlywydd yr Unol Daleithiau ymweld â Chymru. Roedd yn gyfle unigryw i dynnu sylw at Gymru a helpu i greu gwaddol economaidd a fydd yn para yn sgil yr Uwchgynhadledd.

Bu Swyddfa Cymru'n cydweithio â Llywodraeth Cymru ac â Masnach a Buddsoddi'r Deyrnas Unedig i ddod ag Uwchgynhadledd Fuddsoddi'r Deyrnas Unedig i Gymru ym mis Tachwedd. Croesawodd yr Uwchgynhadledd 150 o fuddsoddwyr, arweinwyr busnes ac uwch weinidogion y llywodraeth, gan gynnwys Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, i ddangos pam mae Cymru'n lle gwych i astudio a buddsoddi ynddo. Llwyddodd y digwyddiad i ddangos cyd-flaenoriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i ddod â mewnfuddsoddi newydd i Gymru.

Arweiniodd Swyddfa Cymru drafodaethau â busnesau yng Nghymru am sut y gall polisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig gefnogi twf economaidd. Archwiliodd Bwrdd Cynghori Economaidd yr Ysgrifennydd Gwladol rôl y sector technoleg i hybu arloesi a thwf economaidd, gan edrych ar y cyfleoedd a'r heriau i'r sector aerofod yng Nghymru.

Ymgymerodd Gweinidogion Swyddfa Cymru hefyd â rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau i weld drostynt eu hunain sut yr oedd busnesau yng Nghymru'n gweithio'n galed i gynyddu cynhyrchiant, creu swyddi a hybu twf economaidd ehangach.

Mae mentrau bach a chanolig yn chwarae rhan hollbwysig yn economi Cymru ac, i gydnabod hyn, bu gweinidogion Swyddfa Cymru'n cadeirio cyfres o ddigwyddiadau bwrdd crwn (ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Llanrwst a'r Drenewydd) i ddangos bod y Llywodraeth yn cefnogi ymdrechion Mentrau Bach a Chanolig Cymru i fidio am gontractau'r sector cyhoeddus a'u hennill. Bu Swyddfa Cymru hefyd yn gweithio gyda Thrysorlys EM i ddatganoli'n llawn ardrethi annomestig (busnes) i Lywodraeth Cymru, gan drin Cymru yr un fath â Gogledd Iwerddon a'r Alban. Drwy ddatganoli ardrethi busnes yn llwyr, bydd Llywodraeth Cymru'n fwy atebol a bydd hyn yn cynnig mwy o gyfle iddi hybu twf economaidd yng Nghymru.

Parhaodd y sector technoleg yng Nghymru i fynd o nerth i nerth a rhagwelir y gwelir dwywaith gymaint o dwf o ran cyflogi gweithwyr proffesiynol TG yng Nghymru o'i gymharu â'r cyfartaledd drwy'r Deyrnas Unedig hyd at 2020. Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio i gefnogi'r sector ar ôl arddangos cwmnïau megis Blizzard Protections, Surechill a Concrete Canvas yn yr Uwchgynhadledd

Fuddsoddi. Ymwelodd Gweinidogion Swyddfa Cymru â TechHub Abertawe, cymuned fach ond cymuned fyd-eang sydd â phartneriaid mor amrywiol â Google a'r DVLA – sy'n creu mannau go iawn a mannau rhithiol i entrepreneuriaid technegol gyfarfod, gweithio, dysgu a chydweithio.

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi ymgysylltu rhagor â sector y diwydiannau creadigol eleni, gan gydnabod ei gyfraniad cynyddol bwysig i economi Cymru. Ym mis Hydref, bu Gweinidogion Swyddfa Cymru'n annerch TAC, corff undeb cynhyrchwyr teledu annibynnol Cymru, gan bwysleisio bod angen i'r sector gynhyrchu rhaglenni ar gyfer set amrywiol o ddarlledwyr.

Ym mis Ionawr, cynhaliodd Swyddfa Cymru gyfarfod bwrdd crwn i fusnesau bach yng Nghymru ar y cyd â Chydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) ac UK Export Finance. Yn y cyfarfod, canolbwyntiwyd ar bwysigrwydd allforion i economi Cymru a rôl y Llywodraeth yn hwyluso'r llwybrau at gyllid i gwmnïau sy'n gobeithio ehangu i farchnadoedd dramor.

Bydd twristiaid yn gwario oddeutu £5.1 biliwn y flwyddyn yng Nghymru ac yn cynnal mwy na 120,000 o swyddi. Ym mis Mawrth cynhaliodd Swyddfa Cymru dderbyniad Cynghrair Twristiaeth Cymru i ddathlu dechrau Wythnos Twristiaeth Cymru. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol oedd cynrychiolwyr y British Hospitality Association, Cymdeithas Asiantau Cymru a'r Camping and Caravanning Club.

Ym mis Mawrth, fel rhan o weithgareddau Diwrnod Rhyngwladol Menywod, cynhaliodd Gweinidogion Swyddfa Cymru ddigwyddiad ym Mragdy Tomos Watkin yn Abertawe i roi sylw i fenywod yng Nghymru sy'n llwyddo mewn diwydiannau lle mae dynion yn draddodiadol wedi bod amlycaf megis diogelwch, bragu ac adeiladu.

### *Gwella'r seilwaith*

Mae'n hanfodol gwella seilwaith Cymru er mwyn sicrhau ei ffyniant economaidd yn y dyfodol. Ym mis Mehefin, cyhoeddwyd adroddiad Gweithgor Seilwaith Swyddfa Cymru. Bu unigolion allweddol o fyd diwydiant yng Nghymru'n gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r seilwaith i hybu economi Cymru.

Yn Uwchgynhadledd Fuddsoddi'r Deyrnas Unedig, cyhoeddodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig gytundeb ariannu ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd De Cymru. Bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n arwain trafodaethau drwy Whitehall a chyda Llywodraeth Cymru i sicrhau'r cytundeb. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn talu costau llawn trydaneiddio prif reilffordd y Great Western i Abertawe a bydd yn cyfrannu £125 miliwn at gynllun Trydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am wireddu Trydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd a bydd yn rhydd i benderfynu beth fydd cwmpas ac amseru'r cynllun.

Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y bydd yn datganoli swyddogaethau gweithredol masnachfreinio'r rheilffyrdd i Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r fasnachfraint nesaf yn 2018. Bu Swyddfa Cymru'n gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer y cyhoeddiad hwn. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar fanylion datganoli'r fasnachfraint.

Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru hefyd wedi cefnogi buddsoddi yn seilwaith y rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru. Cynhaliodd yr adran uwchgynhadledd drafnidiaeth ar Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy ym mis Ionawr mewn partneriaeth â'r CBI. Daeth y cyfarfod â busnesau, grwpiau trafnidiaeth ac arweinyddion awdurdodau lleol ynghyd o bob ochr i'r ffin i drafod blaenoriaethu buddsoddi mewn trafnidiaeth. Roedd hyn yn canolbwyntio ar wella cysylltiadau rheilffyrdd rhwng Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr, a sut y byddai hyn yn hwb i dwf economaidd yn y rhanbarth. Roedd yn gyfle i awdurdodau lleol Cymru greu cysylltiadau newydd ac ystyried rôl byd busnes wrth iddynt baratoi'r ddadl o blaid trydaneiddio yng Ngogledd Cymru.

Bu Swyddfa Cymru'n ymgysylltu â Thasglu Trydaneiddio Gogledd Lloegr ac ystyried goblygiadau ei gylch gorchwyl (argymell i'r Llywodraeth gam nesaf blaenoriaethau trydaneiddio Gogledd Lloegr) ar gyfer Cymru. Roedd adroddiad y tasglu, a gyflwynwyd i'r Adran Drafnidiaeth ym mis Mawrth yn pwysleisio bod angen ystyried effaith trydaneiddio yng Ngogledd Lloegr ar lwybrau'r rheilffyrdd yng Nghymru.

Mae lledaenu band eang cyflym iawn wedi mynd rhagddo drwy Gymru. Croesawodd Gweinidogion Swyddfa Cymru'r cyhoeddiad bod 1 filiwn eiddo yng Nghymru erbyn hyn yn gallu cysylltu â band eang cyflym iawn, ar ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig fuddsoddi £69 miliwn. Ar ôl i Gaerdydd a Chasnewydd ddod yn ddinasoedd uwch-gysylltiedig, cydnabu Swyddfa Cymru'r ddadl o blaid rhagor o ehangu ac yng Nghyllideb 2015, cadarnhawyd y bydd y cynllun yn estyn ymhellach ar draws De Cymru. Bydd hyn yn helpu rhagor o fusnesau i elwa o'r cynllun talebau. Mae'r buddsoddi hwn wedi cael ei ategu gan Gyfnewidfa Rhyngrwyd Caerdydd, sy'n lletya traffig yn hytrach na'i anfon i Lundain. Mae hyn yn golygu bod y rhyngrwyd yn gyflymach o lawer. Wrth siarad yn ei agoriad, nododd Gweinidogion Swyddfa Cymru arwyddocâd datblygiadau fel hyn i fusnesau drwy Dde Cymru.

Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio hefyd gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd i sicrhau buddsoddiad preifat, gan gynnwys trafodaethau cam cyntaf *y Contractau Gwahaniaeth* ar gyfer prosiect llanw Abertawe, a chydag Infrastructure UK yn eu trafodaethau parhaus gyda Hitachi ar Warant Seilwaith y Deyrnas Unedig ar gyfer eu buddsoddiad fydd yn werth biliynau lawer yn Wylfa Newydd.

### *Cael pobl yn ôl i'r Gwaith*

Gwelwyd y farchnad lafur yn gwella yng Nghymru yn y deuddeng mis diwethaf gydag 8,000 o bobl yn llai'n ddi-waith. Mae nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith wedi gostwng yn barhaus yng Nghymru o fis i fis, yn y ddwy flynedd diwethaf.

Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi cynnal nifer o ymweliadau i gael gwybod am hynt y farchnad lafur yng Nghymru, y swyddi sy'n cael eu cynnig a safon uchel y prentisiaethau a gynigir.

Mae Swyddfa Cymru hefyd wedi hyrwyddo canlyniadau Rhaglen Waith Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru, gyda bron 19,000 o'r bobl hynny oedd bellaf oddi wrth y farchnad lafur yn dechrau gweithio.

## *Amcan 2: Goruchwylio a chynnal y setliad datganoli a hwyluso cydweithio rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r sefydliadau datganoledig yng Nghymru*

### *Deddf Cymru 2014*

Cafodd Deddf Cymru 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr. Mae'r Ddeddf yn rhoi ar waith y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaeth Comisiwn Silk yn ei adroddiad cyntaf[1]. Mae'n datganoli i'r Cynulliad gymhwysedd ym maes y Dreth Dirlenwi a Threth Dir y Dreth Stamp, gan roi'r gallu iddi ddyfeisio system dreth ar waredu i safleoedd tirlenwi a thrafodion tir sy'n benodol i anghenion Cymru ac mae'n rhoi pwerau benthyca newydd i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn seilwaith cyfalaf yng Nghymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer datganoli cyfran o'r dreth incwm i Gymru a bwrw bod refferendwm yn cael ei sbarduno gan y Cynulliad, ac ar gyfer newid trefniadau etholiadol i'r Cynulliad yr ymgynghorodd Swyddfa Cymru yn ei gylch yn ein Papur Gwyrdd yn 2012.

Rheolodd Swyddfa Cymru hynt y ddeddfwriaeth yn llwyddiannus drwy'r senedd, gan gydweithio'n glos ag Adrannau eraill y Llywodraeth, yn enwedig Trysorlys EM a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Bu Swyddfa Cymru'n cydweithio'n glos hefyd â Thrysorlys EM i sefydlu Cydbwyllgor Gweinidogol y Trysorlys i gydlynu datganoli ariannol i Gymru a'i roi ar waith. Cyfarfu am y tro cyntaf ar 20 Hydref ac roedd Ysgrifennydd Gwladol, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Ysgrifennydd Ariannol y Trysorlys a Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru'n bresennol. Cytunodd y Pwyllgor i ddatganoli ardrethi busnes yn llawn ar 1 Ebrill 2015 ac ar fecanwaith i ddatblygu'r ddadl fusnes i alluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi bondiau. Disgwylir i drethi datganoledig newydd ddisodli'r Dreth Dirlenwi a Threth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru erbyn mis Ebrill 2018.

### *Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi*

Ar 27 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y Papur Gorchymyn *Pwerau at Bwrpas: Tuag at Setliad Datganoli sy'n Para i Gymru.* Roedd yn cynnwys cynlluniau'r Llywodraeth ar ddyfodol datganoli yng Nghymru, ar ôl proses drawsbleidiol dan arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau consensws gwleidyddol ynghylch rhagor o ddatganoli i Gymru. Mae hyn yn cynnwys newid sail setliad datganoli Cymru a sefydlu model pwerau a gedwir yn ôl er mwyn gwneud y setliad yn eglurach ac er mwyn ei ddiffinio'n well.

Ar ôl ei roi ar waith, bydd y cynigion yn y Papur Gorchymyn yn rhoi pwerau pwysig newydd i'r Cynulliad dros ganiatadau ar gyfer seilwaith ynni, porthladdoedd, terfynau cyflymder, a thrwyddedu archwilio olew a nwy ar y tir.

1 *Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau Deddfwriaethol i Gryfhau Cymru https://www.gov.uk/government/publications/empowerment-and-responsibility-legislative-powers-to-strengthen-wales.cy*

Bydd y Cynulliad hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros faterion sy'n berthnasol i Aelodau'r Cynulliad a sut mae'n cynnal ei fusnes, gan gynnwys ei enw a'i faint. Bydd y cyfrifoldeb am etholiadau'r Cynulliad a Llywodraeth leol yn cael ei ddatganoli hefyd.

Cytunodd y Llywodraeth hefyd i gyflwyno lefel gyllido waelodol gymharol ar gyfer yr arian y mae'n ei roi i Lywodraeth Cymru gan ddisgwyl y bydd Llywodraeth Cymru'n galw refferendwm ar dreth incwm yn y Senedd newydd. Cytunir ar union lefel y cyllido gwaelodol, a'r mecanwaith ar gyfer rhoi hyn ar waith ochr yn ochr â'r Adolygiad o Wariant nesaf.

Mae'r Papur Gorchymyn yn sail gadarn ar gyfer Bil Cymru newydd yn y Senedd newydd ac rydym yn disgwyl iddo fod yn elfen allweddol o raglen waith Swyddfa Cymru yn y deuddeg mis nesaf.

***Cynghori ar y rhyngwyneb rhwng polisïau a deddfwriaeth sydd wedi ac sydd heb eu datganoli.***

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Swyddfa Cymru wedi gweithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y terfyn datganoli'n cael ei barchu wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru.

Mae hyn wedi cynnwys gwaith ar ystod eang o Filiau seneddol, gan gynnwys rheoli rhywogaethau ymledol yn Neddf Seilwaith 2015 a darpariaethau ynghylch myfyrwyr mewn colegau preifat yn gallu manteisio ar wasanaeth Swyddfa'r Dyfarnydd Annibynnol yn Neddf Hawliau Defnyddwyr 2015.

Mae hefyd wedi cynnwys cael cydsyniad y Cynulliad pan fydd gofyn ar gyfer darpariaethau penodol mewn Biliau eraill, gan gynnwys ar gyfer Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth a Bil Cymru. Sicrhawyd bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfleu neges gyson mewn achosion lle'r oedd Llywodraeth Cymru'n ceisio cydsyniad y Cynulliad ar gyfer darpariaethau ym Miliau'r Deyrnas Unedig lle'r oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn meddwl eu bod y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac felly'n ddiangen.

Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi tywys sawl Offeryn Statudol drwy'r Senedd. Roedd y rhain yn cynnwys Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Gwelliant) 2015, i ganiatáu i'r Cynulliad ddiwygio dyletswyddau Gweinidogion Cymru o ran datblygu cynaliadwy, a Gorchymyn (Darpariaeth Ddilyniannol) Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, i sicrhau y gallai organau a roddir o dan y cynllun "cydsynio tybiedig" yng Nghymru ddal i gael eu defnyddio mewn trawsblaniadau yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon.

***Helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n ddi-fwlch i bobl Cymru.***

Mae pobl yng Nghymru'n haeddu'r gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl, ni waeth a yw'r gwasanaethau hynny'n cael eu datganoli ynteu'n cael eu cadw yn ôl. Mae Swyddfa Cymru wedi gweithio'n galed i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell, mwy cydlynol yng Nghymru. Dyma bedair enghraifft i ddangos y math o waith rydym wedi bod yn ei wneud:

- Hwyluswyd trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Iechyd ar ddiwygiadau i'r Protocol Iechyd Trawsffiniol, i sicrhau nad yw pobl sy'n byw yng Nghymru ond sy'n defnyddio'r ddarpariaeth gofal iechyd yn Lloegr, a'r gwrthwyneb, o dan anfantais oherwydd eu lleoliad daearyddol;
- Ymgysylltwyd hefyd â'r Adran Iechyd a Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynigion i ddiwygio deddfwriaeth traffig y ffyrdd yn Neddf Dadreoleiddio 2015, i ddiweddaru'r diffiniad o "ambiwlans" er mwyn i ambiwlansiau ceir a beiciau modur y GIG allu osgoi'n gyfreithlon y cyfyngiadau cyflymder sy'n berthnasol i gerbydau eraill y ffyrdd;
- Dygwyd ynghyd Lywodraeth Cymru, yr Adran Addysg a'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar ôl cyhoeddi Papur Gwyn Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2014 i sicrhau na fyddai gwahaniaethau rhwng polisïau'r ddwy weinyddiaeth yn rhoi plant a allai orfod symud rhwng Cymru a Lloegr, er enghraifft plant aelodau'r Lluoedd Arfog, o dan anfantais; ac
- Ar ôl pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Llywodraeth Cymru, buom yn cydweithio'n glos â Llywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod y rheoliadau dilynol yn darparu dull cydgysylltiedig o ddiogelu cyrff yng Nghymru, sy'n dwyn ynghyd gyrff datganoledig megis byrddau iechyd a chyrff sydd heb eu datganoli megis yr heddlu.

## *Amcan 3: Cynrychioli buddiannau Cymru yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a hyrwyddo dealltwriaeth ehangach o bolisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru*

### *Datganiad yr Hydref a'r Gyllideb*

Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru wedi bod yn awyddus i sicrhau bod Datganiadau'r Hydref a'r Gyllideb o fudd i Gymru. Yn sgil Cyllideb 2015, cafwyd rhagor o gynnydd yn y lwfans bersonol a fydd yn golygu bod 167,000 o bobl yn cael eu tynnu'n gyfan gwbl o'r drefn talu treth incwm erbyn 2017-18.

Roedd buddsoddi mewn seilwaith a chefnogi busnesau'n thema allweddol yng Nghyllideb 2015 a Datganiad yr Hydref 2014. Ar ôl llawer o drafodaethau rhwng Swyddfa Cymru a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, dygwyd y cynllun Iawndal Diwydiannau Ynni-Ddwys ymlaen yng Nghyllideb 2015 cyn gynted a phosibl ar ôl clirio cymorth gwladol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Fel rhan o Gyllideb 2015, roedd Swyddfa Cymru'n gweld cyfle i dawelu meddwl defnyddwyr y ffyrdd am ymrwymiad y Llywodraeth i leihau tollau Pontydd Hafren ar ôl i'r consesiwn presennol ddod i ben. Drwy gyfrwng Gweithgor Seilwaith Swyddfa Cymru a chyfarfodydd eraill â busnesau a Phwyllgor Materion Cymreig, cyfeiriwyd yn aml at y ffaith bod lefel y doll yn her amlwg i economi De Cymru. Felly, mae Gweinidogion Swyddfa Cymru yn deall bod ymrwymo i ostwng y doll yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

Bydd Pontydd Hafren yn dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus yn 2018 (ar sail yr hyn a welir ar hyn o bryd), gan gynnig cyfle i ddiwygio trefniadau'r tollau sydd ar waith yn awr. Ar ôl y trafodaethau â Swyddfa Cymru ar gyfer Cyllideb 2015, ymrwymodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ostwng y doll gymaint â TAW fan leiaf yn 2018, a dileu'r doll Categori 2 ar gyfer faniau a bysiau bach, er mwyn i'r cerbydau hynny dalu'r un faint â cheir. Bydd Swyddfa Cymru yn dal i weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth wrth i ragor o fanylion a chynllun tymor hir gael eu datblygu ar gyfer y Pontydd.

Cyhoeddwyd yng Nghyllideb 2015 hefyd y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dechrau trafod â Chyngor Caerdydd i ddatblygu Cytundeb Dinesig. Roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi dadlau yn y Llywodraeth o blaid Cytundeb Dinesig i Gaerdydd, fel ffordd o adeiladu ar gryfderau presennol y ddinas a mynd i'r afael â'r pethau penodol sy'n rhwystro twf.

Cadarnhaodd Datganiad Hydref 2014 a Chyllideb 2015 hefyd ymrwymiad y Llywodraeth i weithio gyda datblygwyr cynllun Llanw Abertawe drwy ymrwymo i drafod y *Contractau Gwahaniaeth*.

### *Cynrychioli buddiannau Cymru mewn meysydd polisi sydd heb eu datganoli.*

Yn 2014-15, sicrhaodd Swyddfa Cymru fod buddiannau Cymru wedi'u hystyried yn llwyr wrth ddatblygu polisïau mewn meysydd sydd heb eu datganoli.

Ym mis Tachwedd, ymwelodd Gweinidogion Swyddfa Cymru â Shotton yn Sir y Fflint, y Ganolfan Waith gyntaf yng Nghymru i ledaenu'r Credyd Cynhwysol, i weld sut yr oedd y rhaglen yn helpu ceiswyr swyddi i ymgysylltu â'r farchnad lafur a dod o hyd i waith.

Cyfarfuont hefyd yn rheolaidd â Phrif Gwnstablau'r pedwar heddlu yng Nghymru, yn ogystal â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardaloedd hyn, i drafod materion gweithredol yr heddlu a pholisïau'r Llywodraeth yng Nghymru.

Ymwelodd Gweinidogion Swyddfa Cymru â safle carchar newydd gogledd Cymru yn Wrecsam i weld sut yr oedd y gwaith yn mynd rhagddo, gan annerch Symposiwm Cyflogaeth a Sgiliau ym Mhrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam. Daeth y digwyddiad ag awdurdodau lleol a darparwyr gwaith ac addysg ynghyd o bob rhan o Ogledd Cymru a siroedd cyffiniol yn Lloegr i drafod sut i gyflawni ymrwymiadau sy'n berthnasol i brentisiaethau, lleoliadau gwaith a chyflogaeth leol mewn ffordd gydlynol a hygyrch.

Ym mis Gorffennaf 2014, cynhaliodd Swyddfa Cymru fwrdd crwn i'r Lluoedd Arfog lle'r oedd Swyddfa Cymru, y Weinyddiaeth Amddiffyn a Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Hire a Hero, Y Lleng Brydeinig Frenhinol a Chydffederasiwn Elusennau'r Gwasanaethau, i drafod y cymorth sydd ar gael i gymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Ar ôl y cyfarfod hwn, ym mis Tachwedd, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cefnogi ac yn hybu'r cynllun Gostyngiadau i'r Gwasanaethau Amddiffyn yng Nghymru. Dangosodd Gweinidogion Swyddfa Cymru eu cefnogaeth hefyd drwy fod yn bresennol yn nigwyddiadau Diwrnod y Lluoedd Arfog yn Wrecsam a Chaerdydd ym mis Mehefin 2014.

***Arwain yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.***

Swyddfa Cymru yw'r adran yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n arwain ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â Chomisiynydd y Gymraeg i drafod materion cyfredol sy'n berthnasol i'r iaith, gan gynnwys darpariaeth gwasanaethau Cymraeg Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Rhwng Mawrth 2014 a Chwefror 2015, bydd Swyddfa Cymru'n arwain adolygiad o'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Llywodraeth drwyddi draw, gan asesu gallu adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflawni safonau arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

Ar y cyd â Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, ym mis Tachwedd 2014, comisiynodd Swyddfa Cymru brosiect ymchwil annibynnol i brofiadau siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio gwasanaethau digidol y llywodraeth. Bydd y data a geir yn sgil yr ymchwil yn amhrisiadwy fel sail i wella darpariaeth Gymraeg y gwasanaethau hynny, gan gynnwys ar GOV.UK.

Ym mis Chwefror 2015, rhoddodd un o Weinidogion Swyddfa Cymru araith wadd ym Mhrifysgol Caerdydd gan ategu ymrwymiad y Llywodraeth i'r Gymraeg.

# Datblygu Cynaliadwy

Paratowyd yr adroddiad datblygu cynaliadwy hwn yn unol â chanllawiau Trysorlys EM yn 'Public Sector Annual Reports: Sustainability Reporting' a gyhoeddwyd yn www.hm-treasury.gov.uk/frem_sustainability.htm. Canolbwyntir ar gyflawni targedau'r llywodraeth, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, a gostwng costau. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys lleihau allyriadau carbon, lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi.

Yn Nhŷ Gwydyr yn Llundain y mae Swyddfa Cymru. Ni chynhwysir adeiladau a ddefnyddir ar y cyd oherwydd anawsterau gwahanu data dibynadwy am gynaliadwyedd o'r taliadau am wasanaethau a gyflenwir gan landlordiaid.

### *Llywodraethu, cyfrifoldebau a sicrwydd mewnol*

Monitrwyd perfformiad amgylcheddol gan Bwyllgor Rheoli Swyddfa Cymru ym mhob un o'i gyfarfodydd yn 2014-15.

### *Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth*

Mae Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth a lansiwyd ar 1 Ebrill 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Adrannau gymryd camau i leihau'r effaith amgylcheddol yn sylweddol erbyn 2014-15 (o'i chymharu â llinell sylfaen 2009-10). Mae'r ymrwymiadau hyn i'w gweld yn: http://sd.defra.gov.uk/gov/green-government/commitments.

### *Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd a Chamau Lliniaru*

Bydd Swyddfa Cymru'n cael ei chynghori gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder am gamau angenrheidiol er mwyn ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

### *Ymrwymiad i Leihau Carbon*

Rheolir yr Ymrwymiad i Leihau Carbon gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd drwy wneud y canlynol:

- Annog defnyddio cynadledda fideo, yn hytrach na theithio i gyfarfodydd;
- Defnyddio papur wedi'i ailgylchu; ac
- Defnyddio cludiant cyhoeddus yn hytrach na cheir wrth deithio i gyfarfodydd.

| Tunelli Allyriadau C02 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 |
| Teithio ar Awyren | 0.37 | 2.49 | 21.46 | 19.8 | 0.63 |
| Teithio ar Drên | 15.9 | 15 | 13.73 | 8.66 | 10.07 |
| Milltiroedd mewn Ceir | 1.78 | 2.05 | 2.08 | 2.15 | 1.91 |
| Gwresogi Nwy | 14.64 | 13.86 | 17.59 | 16.35 | 10.76 |
| Trydan | 33.19 | 35.04 | 33.90 | 32.35 | 31.63 |
| Gwastraff | 1.27 | 0.86 | 0.85 | 0.83 | 0.87 |
| Cyfanswm Tunelli C02 | 67.15 | 69.30 | 89.61 | 80.14 | 55.87 |
| Defnyddio dŵr Metrau Ciwbig* | 320 | 474 | 361 | 869 | 2224 |

* Mae mwy o ddŵr wedi'i ddefnyddio yn 2014-15 oherwydd prosiect gwaith cyfalaf mawr yn swyddfeydd Llundain a dŵr yn gollwng.

Lle bydd Swyddfa Cymru'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu o dan gontract iddi, bydd ein cyfraniad at ymrwymiadau'r Llywodraeth o ran yr effaith ar yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn cael ei gyflawni o fewn y fframweithiau ehangach hynny. Mae gan Swyddfa Cymru raglen waith barhaus i leihau ei heffaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys:

- cynyddu ystod yr eitemau y gellir eu casglu i'w hailgylchu yn ein dau adeilad;
- annog defnyddio cynadledda fideo, yn hytrach na theithio i gyfarfodydd; a
- defnyddio mathau ynni-effeithlon o beiriannau argraffu yn lle'r rhai presennol.

# Adolygiad Ariannol

Yn 2014–15 gwariodd Swyddfa Cymru £13.6 biliwn o fewn Amcangyfrifon Cyflenwi'r Senedd (Amcangyfrif Atodol y Gwanwyn), yn bennaf ar ffurf grant i Gronfa Gyfunol Cymru.

### *Perfformiad Ariannol*

Bydd y Senedd yn pleidleisio arian i Adrannau ar ddau achlysur yn y flwyddyn drwy gyfrwng *Prif Amcangyfrif* ar ddechrau'r flwyddyn ac *Amcangyfrif Atodol Unigol* ym mis Chwefror.

### *Symudiadau yn narpariaeth yr Amcangyfrif yn ystod 2014–15*

Ar ddechrau'r flwyddyn, pleidleisiwyd £13,382 biliwn i Swyddfa Cymru yn y Prif Amcangyfrif. Erbyn yr Amcangyfrif Atodol Unigol terfynol, roedd hyn wedi cynyddu i £13,697 a hynny'n bennaf oherwydd cynnydd o £315,171,000 ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru.

### Esboniad am yr amrywiadau rhwng yr Amcangyfrif a'r Adnodd Net *Alldro*

### *Swyddfa Cymru – Adnodd*

| Gwariant yn Nherfynau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwario)/ Tanwario £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 4,323 | 4,799 | 476 | 10 |

Mae'r tanwariant o £476k yn erbyn yr Amcangyfrif i'w briodoli'n bennaf i'r Adran yn cario swyddi gweigion am gyfnod yn ystod y flwyddyn, arbedion effeithlonrwydd, cyllideb anariannol heb ei defnyddio ac arian wrth gefn heb ei ddefnyddio.

### *Swyddfa Cymru – Cyfalaf*

| Gwariant yn Nherfynau Gwariant yr Adran | | Alldro £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwario)/ Tanwario £000 | Canran o'r amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Swyddfa Cymru | 117 | 135 | 18 | 13 |

Gellir priodoli'r tanwariant i gronfeydd wrth gefn sydd heb eu defnyddio.

### *Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru*

| Gwariant yn Nherfynau Gwariant yr Adran | | Alldrao £000 | Amcangyfrif £000 | (Gorwario)/ Tanwario £000 | Canran yr amcangyfrif % |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cronfa Gyfunol Cymru | 13,547,659 | 13,692,029 | 144,370 | 1 |

Cysoni'r gwariant adnodd net rhwng Amcangyfrifon, cyllidebau a chyfrifon

| | 2014-15<br>£000 | 2013-14<br>Total<br>£000 |
|---|---|---|
| **Alldro Adnodd Net (Amcangyfrifon)** | 13,552,000 | 13,486,890 |
| Addasiadau i ddileu eitemau anghyllidebol | | |
| Grant yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | (13,547,659) | (13,482,462) |
| Arall | | |
| **Cyfanswm Alldro Adnodd y Gyllideb** | 4,341 | 4,428 |
| Ac o hyn | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol | 4,323 | 4,449 |
| Terfyn Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)* | 18 | (21) |
| Mae'r addasiadau'n cynnwys | | |
| Grantiau i weinyddiaethau datganoledig – Cymru | 13, 547,659 | 13,482,462 |
| Derbynebau Ychwanegol y Gronfa Gyfunol yn yr OCS | | (1)^ |
| **Cost Gweithredu Net (Cyfrifon)** | 13,552,000 | 13,486,889 |

* Mae AME yn berthnasol i ddefnyddio darpariaeth ymddeol yn gynnar a chreu darpariaeth newydd ar gyfer dadfeilion Gweler Nodyn 13. Yn 2013–14, roedd alldro'r AME, sef £21,277 (wedi'i dalgrynnu i £21k) £723 yn is na darpariaeth yr AME a arweiniodd at dorri terfyn Cyflenwi'r Senedd ar gyfer AME.

^ Mae'r £ (1) k yn berthnasol i incwm gweithredu y tu allan i gylch yr Amcangyfrif ac nid yw'n mynd drwy Nodyn SOPS2. Gweler Nodyn SOPS5.

## Edrych ymlaen at 2015-16

Mae'r Llywodraeth newydd yn cynnig cyfle unigryw i adeiladu ar lwyddiannau'r pum mlynedd diwethaf: gwneud Cymru'n llusern llwyddiant economaidd ac ail-lunio datganoli yng Nghymru fel rhan o'r diwygio cyfansoddiadol ehangach i sicrhau dyfodol y Deyrnas Unedig.

Bydd yr adran yn parhau i ganolbwyntio ar dyfu economi Cymru, gweithio i adnewyddu a chryfhau seilwaith Cymru – o'r ffordd a'r rheilffordd i fand eang – i gefnogi busnesau a denu mewnfuddsoddi a swyddi da drwy Gymru gyfan a helpu rhagor o bobl i ddychwelyd i'r gwaith.

Bydd yr adran yn gwireddu ymrwymiad y Llywodraeth i roi Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi ar waith. Byddwn yn cyflwyno Bil Cymru yn sesiwn ddeddfwriaethol gyntaf y Senedd i'w gwneud hi'n eglurach ymhle y mae'r terfyn datganoli drwy newid sail datganoli yng Nghymru a sefydlu model "pwerau a gedwir yn ôl". Bydd y Bil yn cryfhau datganoli Cymru drwy ddatganoli pwerau i'r Cynulliad mewn meysydd megis porthladdoedd, terfynau cyflymder, gwasanaethau carthffosiaeth, trwyddedau ffracio ac etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol. Bydd yn rhoi rheolaeth i'r Cynulliad dros ei faterion ei hun, er mwyn i'r Cynulliad ei hun allu penderfynu ar ei enw a pha mor fawr y dylai fod.

Byddwn yn gweithio'n glos â Thrysorlys EM i gyflwyno lefel gyllido waelodol. Ymrwymodd y Llywodraeth yng Nghytundeb Dydd Gŵyl Dewi i gytuno ar y lefel honno, a'r mecanwaith i'w gwireddu, ochr yn ochr â'r Adolygiad o wariant nesaf. Cafodd yr ymrwymiad ei wneud gan ddisgwyl y bydd Llywodraeth Cymru'n galw refferendwm ar ddatganoli treth incwm yn y Senedd hon.

Byddwn yn adeiladu ar welliannau ac arbedion effeithlonrwydd yr adran yn y blynyddoedd diwethaf, gan barhau i dorri gwastraff a dod o hyd i ffyrdd mwy effeithlon o weithio. Rydym wrthi'n adolygu ein cynllun Busnes i ganolbwyntio ar wireddu ymrwymiadau maniffesto'r Llywodraeth o fewn cyllidebau tynnach. Rydym wrthi'n frwd yn archwilio gydag Adrannau eraill y Llywodraeth i weld sut y gallwn rannu'r adnoddau sydd gennym yn well i wireddu'r Cynllun Busnes mewn ffordd fwy effeithlon a syml.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**24 Mehefin 2015**

# 4 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Gweinidogion a Chyfarwyddwyr Swyddfa Cymru

Dangosir Gweinidogion a Chyfarwyddwyr Swyddfa Cymru yn ystod 2014-15 yn y tabl isod:-

| Gweinidogion/Cyfarwyddwyr Swyddfa Cymru |
| --- |
| **Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS,** Ysgrifennydd Gwladol Cymru er Gorffennaf 15. Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru tan 14 Gorffennaf |
| **Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS** – Ysgrifennydd Gwladol Cymru hyd at 14 Gorffennaf |
| **Y Farwnes Randerson*** – Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru |
| **Alun Cairns AS** * Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru er 15 Gorffennaf |
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr a Swyddog Cyfrifyddu |
| **Siân Oborne –** Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat er 1 Hydref<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat a Chyfathrebu hyd at 30 Medi<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi hyd at 14 Gorffennaf |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr Cyfansoddiad a Pholisi er 15 Gorfennaf, Dirprwy Gyfarwyddwr y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol hyd at 14 Gorffennaf |
| **Allan Ross –** Dirprwy Gyfarwyddwr y Wasg a Chyfathrebu er 1 Hydref |
| **Stephen Hillcoat** – Dirprwy Gyfarwyddwr Swyddfa Breifat a Chyfathrebu hyd at 14 Gorffennaf |

* Ar ôl Etholiad Cyffredinol 2015, ailbenodwyd y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS ac Alun Cairns AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru, yn y drefn honno. Penodwyd yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth yn Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru.

Roedd gan Swyddfa Cymru ddau aelod anweithredol o'r bwrdd hefyd – David Crawley (aelod anweithredol arweiniol) ac Ian Summers (Aelod anweithredol). Rhoddodd David Crawley y gorau i'w swydd ar 31 Mawrth 2015 ond yn ystod y flwyddyn, bu'n cadeirio Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Swyddfa Cymru ac bu'n Ddirprwy Gadeirydd y Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Rheoli Roedd Ian Summers yn aelod o bob un o'r tri phwyllgor ac fe ysgwyddodd swyddogaethau David Crawley ar 1 Ebrill 2015. Rhestrir manylion holl bwyllgorau Swyddfa Cymru a'u haelodau ym mhennod 6, "Datganiad Llywodraethu".

# Ein Perfformiad Corfforaethol

Yn sail i gyflawni'r tri amcan a restrwyd ym Mhennod 3, mae chwech egwyddor effeithlonrwydd a llywodraethu corfforaethol da. Sef:-

- **rhoi gwerth am arian a rheoli'r costau'n effeithiol.** Byddwn yn adolygu pob Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag adrannau eraill sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Cymru er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithlon ac yn ddarbodus;
- **sicrhau rheolaeth ariannol dda**, gyda dulliau rheoli ariannol effeithiol ar waith;
- **ymateb yn gywir ac yn brydlon** i ohebiaeth gyhoeddus, Cwestiynau Seneddol, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ymholiadau Seneddol ac ymholiadau'r Cynulliad;
- **cynnal gweithlu cymwys, cryf ei gymhelliant** a fydd yn gallu cyfrannu at rediad a chyfeiriad Swyddfa Cymru yn y dyfodol;
- **rheoli gwybodaeth yn effeithiol**, sicrhau bod y wybodaeth a gedwir gan Swyddfa Cymru'n cael ei rheoli a'i gwarchod yn iawn i ddiogelu buddiannau'r Llywodraeth ac aelodau unigol y cyhoedd; a
- **chreu amgylchedd gweithio pleserus** i bob aelod o'r staff yn adeiladau Swyddfa Cymru.

Byddwn yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith wrth gyflawni ein prif weithgareddau corfforaethol.

### *Cyllid*

O blith setliad Cymru o £13,697 biliwn, dyraniad Swyddfa Cymru ar gyfer 2014–15 oedd tua £5 miliwn, a gwariwyd hwnnw'n bennaf ar staff a swyddfeydd Swyddfa Cymru a chyfrifoldebau eraill Swyddfa Cymru megis taliadau i Arglwydd Raglawiaid Cymru. Gweddill y setliad (£13.6 biliwn) oedd y grant i Lywodraeth Cymru a Chronfa Gyfunol Cymru.

Bydd Swyddfa Cymru'n trefnu i drosglwyddo taliadau grant i Gronfa Gyfunol Cymru ond gwaith Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yw penderfynu sut i wario'r arian hwnnw ac ar beth. Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y ffordd y mae'n defnyddio adnoddau ac mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gyfrifol am archwilio'r adnoddau hynny.

### *Effeithlonrwydd*

Mae cyllideb Swyddfa Cymru wedi gostwng draean (33%) mewn termau real yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant (rhwng 2010–11 a 2014–15).

Er mwyn helpu i sicrhau'r gostyngiad hwn, adolygodd Swyddfa Cymru ei lefelau staffio ac mae wedi ad-drefnu ei thimau drwy'r Swyddfa. Costau staff yw oddeutu 60% o'r gwariant yn yr Adran ac fe lwyddwyd i sicrhau'r gostyngiadau

yn y maes hwn drwy wastraff naturiol, a chynnal cynllun ymadael yn gynnar yn wirfoddol yn 2011–12 a 2014–15. Hefyd, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol roi'r gorau i ddefnyddio'i gar Gweinidogol, sy'n golygu arbediad o oddeutu £81,000 y flwyddyn o 2015–16.

Proffesiynoldeb ein staff, a gwneud ein gwaith mewn ffordd fwyfwy effeithlon sy'n gyfrifol am sicrhau nad yw lleihau'r gweithlu wedi effeithio ar ansawdd ein gwasanaeth a gallu'r Swyddfa i wireddu ei hamcanion.

Mae'r Swyddfa'n ymroddedig i rannu gwasanaethau ac arbenigedd ag Adrannau eraill y Llywodraeth, lle bo modd i wthio costau i lawr ac i wella cydnerthedd. Yn 2014–15, ar ôl rhaglen beilot lwyddiannus i rannu gwasanaethau yng nghyswllt ceisiadau rhyddid gwybodaeth â Swyddfa Gogledd Iwerddon, mae'r broses hon yn awr wedi bwrw gwreiddiau yn y ddwy swyddfa.

Adran fechan yw Swyddfa Cymru ac mae wedi parhau i arddel ymagwedd gost effeithiol a phragmatig at ddarparu ein gwasanaethau corfforaethol mewnol, cynnal trefniadau a chontractau fframwaith presennol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, mewn meysydd megis diogelwch, rheoli cyfleusterau, TG a gwasanaethau ariannol. Mae'r trefniadau a'r contractau hyn yn sicrhau manteision sylweddol yn sgil arbedion maint ac arbenigedd i'r Adran. Mae gennym gytundebau lefel gwasanaeth ar waith gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder am y gwasanaethau hyn.

### *Cyfrifoldebau Pensiwn*

Datgelir manylion am sut yr ymdrinnir â chyfrifoldebau pensiwn yng nghyfrifon Swyddfa Cymru yn yr Adroddiad Taliadau a nodyn polisi Cyfrifyddu 1.9.

### *Tryloywder*

Mae tryloywder, atebolrwydd a bod yn agored wrth wraidd gwerthoedd craidd Swyddfa Cymru. Rydym wedi parhau i gyhoeddi swm sylweddol o wybodaeth ar ein gwefan, gan gynnwys:

- gwario dros £500, gan gynnwys Cardiau Caffael y Llywodraeth;
- ffigurau misol am y Gweithlu, gan gynnwys Costau Cyflogau;
- strwythur a chyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil;
- rhoddion a roddwyd ac a dderbyniwyd gan y Gweinidogion (a chan y Cynghorydd Arbenigol) sydd dros £140;
- teithiau Gweinidogion dramor;
- lletygarwch a gafodd Gweinidogion, y Cynghorydd Arbennig a'r Cyfarwyddwr; a
- chyfarfodydd â chyrff allanol, gan gynnwys y cyfryngau.

Yn ystod 2014–15 ymdriniwyd â dros 140 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth fel y'u nodir isod.

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---|
| Ceisiadau RhG a gafwyd,ac o blith y rhain; | 149 |
| Ymatebion o fewn 20 diwrnod waith neu o fewn cyfnod estynedig a ganiateir | 147 (99%) |
| Ceisiadau am Adolygiad Mewnol o'n hymateb | 0 |
| Atgyfeirio'r ymateb gan y ceisydd i'r Comisiynydd Gwybodaeth | 0 |

Crynhoir ein perfformiad Seneddol yn ystod 2014–15 isod:

| Targed | % |
|---|---|
| % o'r cwestiynau â dyddiad trafod a gyflawnwyd mewn pryd | 100% |
| % o'r cwestiynau ysgrifenedig cyffredin mewn pryd | 98% |

Ein perfformiad wrth ymdrin â gohebiaeth yn ystod 2014–15 oedd:

| Targed | % |
|---|---|
| Gohebiaeth yr ymdriniwyd â hi o fewn 15 diwrnod | 94% |

### *Swyddfeydd a Gwaith Cyfalaf*


Yn Nhŷ Gwydyr, ar Whitehall y mae prif swyddfa'r Adran. Yn wreiddiol tŷ tref o gyfnod y brenin George oedd hwn ac mae'n adeilad rhestredig Gradd II*. Byddwn yn cael ein cyngor a'n cymorth proffesiynol gan dîm ystadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a chan ein asiantau rheoli, i sicrhau ein bod yn cyflawni'r rheoliadau adeiladu statudol, a'n bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, treftadaeth a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae gennym raglen cynnal a chadw dreigl ar waith ar gyfer Tŷ Gwydyr sy'n cydnabod ei statws a'i ofynion arbennig, a byddwn yn barhaus yn ceisio darparu amgylchedd gweithio diogel i'n staff, ein Gweinidogion a'n hymwelwyr.

At hynny, bydd yr Adran hefyd yn rhentu swyddfeydd (ar gyfer tua 44% o'i staff) yng Nghymru, a'r rheini wedi'u lleoli ym Mae Caerdydd gerllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid allweddol. Mae'r ddwy swyddfa'n cyflawni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb.

### *Staff*


Nid yw Swyddfa Cymru'n gyflogwr yn ei rhinwedd ei hun ac felly, byddwn yn parhau i gael gwasanaethau cyflogaeth gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae ein Cynllun Pobl presennol yn canolbwyntio ar sawl llinyn allweddol ym maes Adnoddau'r Gweithlu: arweiniad; gwell rheoli perfformiad; cynllunio olyniaeth a rheoli talent yn effeithiol; diwylliant dysgu cryfach sy'n sail i'r safonau uchaf o ran gwerthoedd a dilysrwydd.

Roedd gan Swyddfa Cymru gorff o 53 o staff ar ddechrau 2014–15 ond mae'r siart isod yn dangos na lwyddwyd i sicrhau'r corff staff llawn mewn unrhyw fis:




Cyfanswm nifer y staff yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2015 oedd 46 (45.34 cyfwerth ag amser llawn), a oedd yn cynnwys dau weithiwr asiantaeth (dros dro) personél, un rheolwr dros dro, pedwar prentis ar gontractau tymor penodol, pedwar o staff ar fenthyciad gan Lywodraeth Cymru a phedwar ar fenthyciad gan Adrannau eraill y Llywodraeth. Roedd 44% o'n staff wedi'u lleoli yn ein swyddfa yng Nghaerdydd a 56% yn Nhŷ Gwydyr, Llundain.

Rhoddir manylion y staff yn ôl graddfeydd y gwasanaeth sifil fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2015 yn y siart isod;



### *Recriwtio*

Cynhaliwyd 11 o ymarferion recriwtio mewnol gan Swyddfa Cymru (sef mewnol i'r Gwasanaeth Sifil) yn ystod 2014–15. Ni chafwyd dim ceisiadau yn sgil dau o'r ymarferion hyn (ar gyfer staff cyfathrebu arbenigol) ac felly agorwyd y broses a chynnal ymgyrchoedd allanol.

### *Ymadawiadau, Ymddiswyddiadau ac Ymddeoliadau*

Dros y flwyddyn ddiwethaf, y prif resymau dros adael Swyddfa Cymru oedd bod staff ar fenthyg wedi dychwelyd i'w rhiant Adran; neu staff yn cael dyrchafiad o fewn Adrannau eraill y Llywodraeth neu'n cael swyddi eraill yn y gwasanaeth sifil ehangach. Ymddeolodd un aelod o'r staff yn ystod y flwyddyn a manteisiodd tri arall ar y Cynllun Ymadael yn Gynnar yn Wirfoddol.

### *Yr Uwch Wasanaeth Sifil*

Ar 31 Mawrth 2015 roedd 4 o swyddi i uwch weision sifil yn Swyddfa Cymru.

### *Cyfle Cyfartal*

| Staff mewn swyddi yn yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2015 | Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| Cyfran y menywod | 1 o blith 4 | 1 o blith 4 |
| Cyfran y menywod ar fand Cyflog 2 ac uwch | 0 o blith 4 | 0 o blith 4 |
| Cyfran pobl Dduon a rhai o Leiafrifoedd Ethnig | 0 o blith 4 | 0 o blith 4 |
| Cyfran y staff Anabl | 0 o blith 4 | 0 o blith 4 |

| Staff o Dan Lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil | Mawrth 2015 | Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| Menywod | 56% | 51% |
| Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 7% | 4% |
| Anabl | 2% | 0% |

### *Rheoli Perfformiad*

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i reoli perfformiad yn effeithiol. Roedd y system a gyflwynwyd drwy'r gwasanaeth sifil yn 2013–14 wedi bwrw gwreiddiau'n dda yn 2014–15 a phob adolygiad staff wedi'i gwblhau mewn pryd. Goruchwyliwyd gwiriadau cysondeb a chyfarfodydd dilysu gan Bartner Busnes Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Cyfiawnder i gadarnhau ein bod yn cydymffurfio'n effeithiol â'r broses ac i gynnig safbwynt annibynnol.

### *Arolwg Ymgysylltu â Staff*

Bydd Swyddfa Cymru'n cymryd rhan yn yr arolwg blynyddol drwy'r gwasanaeth sifil. Yn Hydref 2014, ein mynegai ymgysylltu cyffredinol â staff oedd 61%, sgôr uchaf erioed Swyddfa Cymru, a chynnydd o 6% ers y flwyddyn flaenorol. Trefnir cwestiynau'r holiadur o dan naw thema. Roedd y tair prif thema a

gafodd y sgoriau cadarnhaol uchaf yr un fath ag yn 2013: Amcanion a Phwrpas Trefniadaethol (85%); Fy Nhîm (81%) ac Adnoddau a'r Gweithlu (74%).

Roedd ein sgoriau cadarnhaol uchaf yn berthnasol i staff, sef:

- meddu ar y sgiliau angenrheidiol i wneud eu swyddi'n effeithiol (89%);
- meddu ar ddealltwriaeth glir o bwrpas y Swyddfa, ei hamcanion a sut mae eu gwaith hwy'n cyfrannu at y rheini (85 – 87% cadarnhaol); a
- theimlo â diddordeb yn eu gwaith (85% cadarnhaol).

Roedd ymddiriedaeth y staff yn yr Arweinyddiaeth a Rheoli Newid yn amlwg o ran lefelau'r sgoriau cadarnhaol yn uwch na rhai'r Unedau sy'n Perfformio'n Dda, h.y. chwartel uchaf Gwasanaeth Sifil y Deyrnas Unedig. Roedd hyn yn cynnwys bod y staff yn cytuno ynghylch y canlynol:

- 76% yn ymddiried ym mhenderfyniadau Uwch Reolwyr Swyddfa Cymru (27% yn uwch na'r Unedau sy'n Perfformio'n Dda:
- 80% yn credu bod Uwch Reolwyr yn Swyddfa Cymru'n ddigon gweladwy (20% yn uwch na'r Unedau sy'n Perfformio'n Dda); a
- 74% yn credu bod gan y Bwrdd Rheoli weledigaeth glir ar gyfer dyfodol y Swyddfa (23% yn uwch na'r Unedau sy'n Perfformio'n Dda)

Mae'r gweithgor wedi 'i sefydlu i ystyried pa gamau y gall y swyddfa eu cymryd i wella'r ymgysylltu eto.

### *Dysgu a Datblygu*

Mae staff Swyddfa Cymru Gyfan wedi parhau i gyflawni ymrwymiad y Gwasanaeth Sifil i bum niwrnod Dysgu a Datblygu bob blwyddyn fan leiaf.

### *Gwirfoddoli*

Yn ystod y flwyddyn, ymgymerwyd ag ystod eang o gyfleoedd i wirfoddoli, gan gynnwys cefnogaeth i Uwchgynhadledd NATO. Manteisiodd naw o'r staff ar gyfleoedd i gefnogi Ymddiriedolaeth y Tywysog gyda'u digwyddiadau Heaven's Kitchen, ysgrifennu CVs a Pharti Nadolig. Rhoddodd staff Swyddfa Cymru hefyd 27 o roddion i ddigwyddiad i Bobl Ifanc.

### *Cyflogi pobl anabl.*

Bydd Swyddfa Cymru'n dilyn Polisi Anabledd y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac mae wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i'w holl staff anabl. Byddwn yn hyrwyddo diwylliant sy'n galluogi staff anabl i gymryd rhan lawn ym myd gwaith, a darperir canllawiau ynghylch sut i gefnogi staff anabl drwy gyfrwng Llawlyfr Gallu'r Adran. Bydd Swyddfa Cymru'n cymryd rhan yn y Cynllun Gwarantu Cyfweliad i ymgeiswyr ag anabledd. Ym mis Rhagfyr 2014, cynhaliodd y swyddfa gyfarfod Rhwydwaith Anabledd y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

### *Data am absenoldeb oherwydd salwch*

Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd yn y flwyddyn galendr ar ddiwedd 2014 oherwydd salwch staff oedd 3.6 o'i gymharu â 12.9 diwrnod ar ddiwedd 2013. Mae hyn unwaith eto dipyn yn is na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil

### *Iechyd a Diogelwch*

Torrwyd un rheol iechyd a diogelwch yn ystod y flwyddyn. Digwyddodd hyn oherwydd bod contractwyr a oedd yn gweithio yn Nhŷ Gwydyr heb roi arwydd "Peidiwch â Dod i Mewn" ar yr ystafell lle'r oeddent yn gweithio. Felly, aeth swyddog diogelwch y nos i mewn i'r ystafell ac fe gafodd ddamwain fach. Riportiwyd y digwyddiad hwn i dîm Iechyd a Diogelwch y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac mae adroddiad wedi'i gyflwyno i'r contractwyr er mwyn iddynt gymryd camau.

### *Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Ni fydd Swyddfa Cymru'n ymdrin â swmp mawr o ddata sensitif neu bersonol, ond wedi dweud hynny, mae'n ymroddedig i sicrhau bod y wybodaeth y mae'n ei chadw'n cael ei thrin a'i gwarchod yn iawn a'n bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol.

Nodir asedau a risgiau ym maes gwybodaeth ac mae camau ar waith i reoli sut y maent yn cael eu defnyddio. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddwn yn defnyddio pecyn hyfforddi a ddarperir drwy gyfrwng Cynllun Dysgu'r Gwasanaeth Sifil i hyfforddi pob aelod o'r staff bob blwyddyn ym maes sicrwydd gwybodaeth a thrin data.

Riportiwyd tri digwyddiad diogelwch yn ystod 2014-15. Roedd a wnelo dau o'r rhain â diogelwch gwybodaeth a'r llall â cholli tocyn amgryptio i liniadur. Archwiliwyd y digwyddiadau'n llawn a chymerwyd camau priodol. Roedd Swyddog Diogelwch yr Adran yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd tîm yr is-adran er mwyn atgoffa'r staff am eu cyfrifoldebau gyda golwg ar ddiogelwch gwybodaeth.

### *Y Gymraeg*

Mae gan Swyddfa Cymru ei Chynllun Iaith Gymraeg ei hun a bydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg am ei pherfformiad o'i gymharu â'r targedau a bennwyd yn y Cynllun. Rhoddodd Swyddfa Cymru le i secondai o Gomisiwn y Gymraeg yn ystod 2014-15 gan sicrhau bod cyfran resymol o'r staff yn cael eu recriwtio sy'n meddu ar allu dwyieithog. Mae'r staff hyn yn gallu ymateb i ymholiadau dros y ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg, pan fydd gofyn.

Sylweddolwn bwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith bob dydd, a byddwn yn hyfforddi'r staff ac yn rhoi canllawiau iddynt yn unol â hyn.

Cynhelir archwiliad sgiliau ymhlith staff Swyddfa Cymru bob blwyddyn a bydd canlyniadau hyn yn sylfaen ar gyfer ein gweithlu a chynllunio olyniaeth. Roedd 11% o'r staff a gyflogid yn gwbl ddwyieithog ddiwedd 2014–15.

### *Archwiliad*

Archwilir y datganiadau ariannol gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, a benodir o dan statud ac a fydd yn adrodd i'r Senedd ynghylch yr archwiliad. Datgelir y taliadau i'r archwilwyr yn Nodyn 3 i'r cyfrifon. Yn ystod y flwyddyn adrodd, ni thalwyd dim i'r archwilwyr am waith nad oedd a wnelo â'r archwiliad (2013–14: £dim).

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu a'r Cyfarwyddwr, nid oes dim gwybodaeth archwilio perthnasol nad yw archwilwyr Swyddfa Cymru'n ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd i'w wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr Swyddfa Cymru'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**24 Mehefin 2015**

# 5 Adroddiad Taliadau

## Adrannau Archwiliadwy

Yn unol â gofynion Atodlen 7A i Ddeddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd) dim ond rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd wedi cael eu harchwilio'n allanol yn llawn. Mae'r rhain yn cynnwys yr adrannau am gyflogau a hawliau pensiwn.

## Polisi Taliadau

Pennir taliadau i uwch weision sifil gan Brif Weinidog y Deyrnas Unedig ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff sy'n Adolygu Uwch Gyflogau.

Bydd y Corff Adolygu hefyd yn cynghori'r Prif Weinidog o bryd i'w gilydd am gyflogau a phensiynau Aelodau Seneddol (ASau) a'u lwfansau; am lwfansau'r Arglwyddi; ac am gyflogau, pensiynau a lwfansau Gweinidogion ac eraill y pennir eu tâl gan Ddeddf Cyflogau Gweinidogion a Chyflogau Eraill 1975.

Wrth lunio'i argymhellion, bydd y Corff Adolygu'n rhoi sylw i'r ystyriaethau a ganlyn:

- bod angen recriwtio, cadw a chymell pobl alluog a chymwysedig addas roi eu gwahanol gyfrifoldebau ar waith;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff;
- polisïau'r llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gofyniad i Adrannau gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer cyflawni gwasanaethau Adrannol;
- yr arian sydd ar gael i Adrannau, fel y'i pennir yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Bydd y Corff Adolygu'n ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a pha mor fforddiadwy yw ei argymhellion.

Mae rhagor o wybodaeth am waith y Corff Adolygu yn www.ome.uk.com

## Taliadau i aelodau'r Bwrdd ac uwch weision sifil

Pennir cyflogau uwch Weision Sifil yn unol â pholisi Gwobrwyo Uwch Wasanaeth Sifil Swyddfa'r Cabinet.

Nid yw Swyddfa Cymru'n gyflogwr ei hun Mae'r staff i gyd naill ai'n gweithio i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder neu ar fenthyciad gan Adrannau eraill y Llywodraeth. Pwyllgor Taliadau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n pennu taliadau cysylltiedig â pherfformiad heb eu cyfuno i Uwch Weision Sifil ar sail eu perfformiad.

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol penodi i'r Gwasanaeth Sifil ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu o dan ba amgylchiadau y ceir gwneud penodiadau drwy ddilyn trefn arall.

Oni nodir fel arall isod, bydd y swyddogion y mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio atynt yn dal penodiadau penagored. Byddai terfynu'n gynnar, heblaw am oherwydd camymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael iawndal fel y'i pennir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

## Cyflogau gweinidogion a hawliau pensiwn

Dangosir cyflogau, buddion trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn i Weinidogion yn y tablau isod. Mae ffigurau'r cyflogau'n cynnwys pob lwfans sy'n daladwy gan Swyddfa Cymru. Bydd pob swm cyfatebol blwyddyn-lawn yn cael ei gyfrifo net o lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia.

Gyda golwg ar Weinidogion Tŷ'r Cyffredin, dim ond cost y taliadau gweinidogol ychwanegol a ysgwyddir gan yr Adrannau, bydd y cyflog ar gyfer gwasanaethu fel AS (£65,738 ar 1 Ebrill 2010), a'r amrywiol lwfansau y bydd ganddynt yr hawl iddynt yn cael eu hysgwyddo'n ganolog.

## Taliadau (cyflog, buddion mewn nwyddau a phensiynau)

| CYFANSWM UNIGOL Y TALIADAU | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ministers | Cyflog (£) | | Buddion mewn nwyddau (at y £100 agosaf) | | Buddion pensiwn (at y £1000 agosaf)[1] | | Cyfanswm (at y £1,000 agosaf) | |
| | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 |
| Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Ysgrifennydd Gwladol (er 15 Gorffennaf 2014)* | 48,088 | nil | nil | nil | 15,000 | nil | 63,000 | nil |
| Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, Ysgrifennydd Gwladol (hyd at 14 Gorffennaf 2014)** | 36,292 | 68,169 | nil | nil | 6,000 | 25,000 | 42,000 | 93,000 |
| Alun Cairns AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Er 15 Gorffennaf 2014) | dim | dim | dim | dim | dim | dim | dim | dim |
| Y Farwnes Randerson, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol *** | dim | dim | dim | dim | dim | dim | dim | dim |

**Nodiadau am y tabl:**

1. Cyfrifir gwerth buddion pensiwn cronnus yn ystod y flwyddyn fel hyn: (y gwir gynnydd yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

* Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru oedd Stephen Crabb MP AS hyd at 14 Gorffennaf a daeth yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru bryd hynny. Mae ei gyflog ar gyfer 2014-15 yn adlewyrchu ei benodiad yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru er 15 Gorffennaf. Swm cyfatebol amser llawn ei gyflog yw £67,505.

** Mae'n cynnwys taliad o £16,876 i David Jones AS am golli swydd pan ddaeth ei gyfnod fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ben. Swm cyfatebol amser llawn ei gyflog, gan gynnwys y taliad am golli swydd yw £75,670.

*** Ar ôl ad-drefnu'r cabinet ym mis Gorffennaf 2014, penodwyd Alun Cairns AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ar 15 Gorffennaf 2014. Penodwyd y Farwnes Randerson yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ym mis Medi 2012. Y Gronfa Gyfunol a Thŷ'r Arglwyddi, yn y drefn honno sy'n ysgwyddo costau talu i'r ddau Weinidog.

| BUDDION PENSIWN | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinidogion | Pensiwn Cronnus yn 65 oed ar 31 Mawrth 2015 | Cynnydd Gwirioneddol yn y pensiwn yn 65 oed | CETV ar 31 Mawrth 2015 | CETV ar 31 Mawrth 2014 | Gwir gynnydd/ gostyngiad mewn CETV £000 |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (er Gorffennaf 15 2014) | 3480 | 0-2.5 | 36 | amh | 4 |
| Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (hyd at 14 Gorffennaf 2014) | 4835 | 0-2.5 | 87 | 78 | 5 |
| Alun Cairns AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (er 15 Gorffennaf 2014)* | amh | amh | amh | amh | amh |
| Y Farwnes Randseron, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol* | amh | amh | amh | amh | amh |

**Nodiadau am y tabl:**

Datgenir pensiwn cronnus 2014-15 ar ffurf swm gwirioneddol, nid wedi'u grwpio'n fandiau fel mewn blynyddoedd blaenorol. Nid yw ffigurau 2013-14 wedi'u hailddatgan. Cyfrifwyd y CETV ar 31 Mawrth 2015 (cyhoeddedig) drwy ddefnyddio tybiaethau actiwaraidd a oedd yn berthnasol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r CETV ar 31 Mawrth 2015 (wedi'i ail-gyfrifo) yn adlewyrchu'r sefyllfa go iawn ar sail crisialu'r tybiaethau hynny am arenillion.

* Ar ôl ad-drefnu'r cabinet ym mis Gorffennaf 2014, penodwyd Alun Cairns AS yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ar 15 Gorffennaf 2014. Penodwyd y Farwnes Randerson yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ym mis Medi 2012. y Gronfa Gyfunol a Thŷ'r Arglwyddi, yn y drefn honno sy'n ysgwyddo costau talu i'r ddau Weinidog. amh: mae hyn yn dangos nad oes dim gwybodaeth flaenorol wedi'i chyhoeddi.

## Pensiynau Gweinidogion

Darperir buddion pensiwn Gweinidogion drwy'r Gronfa Bensiwn Gyfrannol Seneddol (PCPF). Gwneir y cynllun dan statud (mae'r rheoliadau wedi'u pennu yn Offeryn Statudol SI 1993 Rhif 3253, fel y'i diwygiwyd).

Caiff y Gweinidogion hynny sy'n Aelodau Seneddol hefyd gronni pensiwn AS o dan y PCPF (nid yw manylion y rheini yn yr adroddiad hwn). Y gyfradd gronni er 15 Gorffennaf 2002 (neu 5 Gorffennaf 2001 ar gyfer y rheini a ddewisodd ôl-ddyddio'r newid) yw 1/40fed, ond caiff Gweinidogion, fel y caiff pob aelod arall o'r PCPF, ddewis cyfradd gronni sy'n 1/50fed a chyfradd gyfrannu is gan yr aelod. Cyflwynwyd opsiwn ychwanegol ar gyfer y gyfradd gronni, sef 1/60fed er 1 Ionawr 2010 (wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2008).

Mae'r buddion i Weinidogion yn daladwy yr un pryd ag y bydd y buddion yn dod yn daladwy i ASau o dan y PCPF, neu i'r rheini nad ydynt yn ASau, pan fyddant yn ymddeol o'u swydd fel Gweinidog o 65 oed ymlaen. Bydd pensiynau'n cael eu hailbrisio bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth ynghylch Cynyddu Pensiynau. O 1 Ebrill 2014 ymlaen, bu'r aelodau'n talu cyfraniadau rhwng 8.4% ac 17.9% a dibynnu ar lefel eu swydd a'r gyfradd gronni a ddewiswyd ganddynt.

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan y Gweinidog yr hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd 65 oed, neu ar unwaith pan fydd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os bydd eisoes yn 65.

Yn unol â'r diwygiadau i gynlluniau pensiwn eraill y gwasanaethau cyhoeddus, bwriedir diwygio'r cynllun Pensiwn i Weinidogion yn 2015. Cynllun pensiwn seiliedig ar y Cyflog Cyfartalog fydd y cynllun newydd, a bydd y gyfradd gronni'n 1.775%, a'r ailbrisio'n seiliedig ar y newid mewn prisiau, oedran Pensiwn Arferol sy'n cyfateb i oedran Pensiwn y Wladwriaeth a chyfradd gyfrannu gan yr aelodau o 11.1%.

## Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth buddion y cynllun pensiwn wedi'i gyfalafu ar sail asesiad actiwarïaid yw hwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Buddion cronnus yr aelod yw'r buddion a brisir ynghyd ag unrhyw bensiwn dilynol i'r cymar sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall pan fydd yr aelod yn ymadael â chynllun neu'n dewis trosglwyddo buddion y pensiwn y maent wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae ffigurau'r pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni yn sgil cyfanswm eu gwasanaeth Gweinidogol, nid dim ond yn ystod eu swydd gyfredol fel Gweinidog. Bydd CETVs yn cael eu cyfrifo'n unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac ni fyddant yn ystyried unrhyw wir neu ddarpar ostyngiad i fuddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan godir buddion pensiwn.

## Y gwir gynnydd yng ngwerth y CETV

Dyma'r elfen o'r cynnydd yn y pensiwn cronnus y mae'r Trysorlys yn ei hariannu. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y Gweinidog. Mae'n cael ei chyfrifo drwy ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Cyflogau a hawliau pensiwn Uwch Reolwyr

Mae ffigurau'r cyflogau'n cynnwys pob lwfans sy'n daladwy gan Swyddfa Cymru. Bydd pob swm cyfatebol blwyddyn-lawn yn cael ei gyfrifo net o lwfansau, bonysau a thaliadau ex gratia. Telir bonysau ar sail lefelau perfformiad ac fel rhan o'r broses arfarnu. Mae'r bonysau yr adroddwyd yn eu cylch yn 2014-15 yn berthnasol i berfformiad yn 2013-14 ac mae'r bonysau cymharol yr adroddwyd yn eu cylch ar gyfer 2013-14 yn berthnasol i berfformiad yn 2012-13.

Cefnogwyd yr Uwch Reolwyr gan y Prif Gyfrifydd a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n mynd i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth, y Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Dangosir cyflogau, buddion trethadwy mewn nwyddau a hawliau pensiwn i Weinidogion yn y tablau isod.

| Cyfanswm unigol y taliadau | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddogion | Cyflog (£'000) | | Taliadau bonws (£,000) | | Buddion mewn nwyddau (at y £100 agosaf) | | Buddion Pensiwn (£'000)[1] | | Cyfanswm (£'000) | |
| | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 |
| Glynne Jones, Cyfarwyddwr | 80-85 | 80-85 | dim | 5-10 | dim | dim | 39,000 | 43,000 | 120-125 | 130-135 |
| Siân Oborne, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat† | 85-90 | 70-75 | dim | dim | 15,900 | 8,400 | 98,000 | 10,000 | 200-205 | 90-95 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Pholisi†† | 65-70 | 65-70 | dim | 0-5 | dim | dim | 19,000 | 9,000 | 85-90 | 75-80 |
| Allan Ross, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu er 1 Hydref 2014††† | 35-40 | n/a | dim | n/a | dim | n/a | 40,000 | n/a | 75-80 | n/a |
| Stephen Hillcoat, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat a Chyfathrebu tan 15 Gorffennaf †††† | 20-25 | 70-75 | dim | dim | dim | dim | 8,000 | 16,000 | 30-35 | 85-90 |

**Nodiadau am y tabl:**

1. Cyfrifir gwerth buddion pensiwn sy'n cronni yn ystod y flwyddyn fel hyn: (y gwir gynnydd yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r gwir gynnydd yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

† Mae Siân Oborne ar fenthyciad gan Lywodraeth Cymru; talodd Swyddfa Cymru am gost ei llety tra'i bod yn gweithio yn Llundain. Cyn cael ei phenodi'n Ddirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Breifat, roedd Siân yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Polisi hyd at 14 Gorffennaf 2014 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwyr y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu tan 30 Medi 2014. Mae ei budduion pensiwn ggngddu yn 2015 o ganlyniad i iwfansau uwch.

++ Penodwyd Geth Williams yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Cyfansoddiad a Pholisi ar 15 Gorffennaf 2014. Cyn y penodiad hwn, roedd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol.

+++ Mae Allan Ross ar fenthyciad gan Swyddfa'r Cabinet. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Wasg a Chyfathrebu ar 1 Hydref 2014. Mae swm cyfatebol amser llawn ei gyflog o fewn yr ystod £70-75k

†††† TMae swm cyfatebol amser llawn cyflog Stephen Hillcoat o fewn yr ystod £75-80k. Gadawodd Stephen Hillcoat y Swydd o dan delerau Ymadael yn Wirfoddol ar 31 Mawrth 2015. Talwyd iawndal o £133,000 iddo. Nid yw'r taliad hwn wedi'i ddatgelu yn y tabl uchod ond mae'n cael ei ddangos yn y tabl isod, Adrodd am gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill - pecynnau ymadael

## Cyfarwyddwyr Anweithredol

| Taliadau | Cyflog heb gynnwys bonysau (gan gynnwys lwfansau (£'000) | | Buddion mewn nwyddau (at y £100 agosaf) | | Cyfanswm (£'000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 | 2014-15 | 2013-14 |
| David Crawley, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli a Chyfarwyddwr Anweithredol, Swyddfa Cymru | 10–15 | 10–15 | dim | dim | 10–15 | 10–15 |
| Ian Summers Cyfarwyddwr Anweithredol, Swyddfa Cymru | 5–10 | 5–10 | dim | dim | 5–10 | 5–10 |

## Lluosyddion Cyflog

Mae gofyn i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill fwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r corff.

Band tâl y cyfarwyddwr a oedd yn ennill fwyaf yn Swyddfa Cymru ym mlwyddyn ariannol 2014–15 oedd £85–90k (2013–14, £80 – 85k). Roedd hyn 2.9 gwaith (2013–14, 2/8 gwaith) tâl canolrif y gweithlu, sef £29,495 (2013–14, £29,800)

Yn 2014–15, ni chafodd yr un gweithiwr (2013–14, dim) dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr a enillodd fwyaf. Roedd y tâl yn amrywio o £8,300 i £85,000 (2013–14, £8,300 i £71,200).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau'r cyflogwr at bensiynau na gwerth trosglwyddo pensiynau sydd gyfwerth ag arian parod.

| Taliadau | 2014-15 | | 2013-14 | |
|---|---|---|---|---|
| Canolrif Staff | Nifer | £'000 | Nifer | £'000 |
| Cyfanswm Taliadau i Staff Parhaol (heb gynnwys y Cyfarwyddwr sy'n ennill fwyaf) | | 1,549 | | 1,590 |
| Cyfanswm Staff Parhaol (heb gynnwys y Cyfarwyddwr sy'n ennill fwyaf) | *41 | | *41 | |
| | | | | |
| Canolrif Cyflog Staff Parhaol | | 29.5 | | 29.8 |
| | | | | |
| Canolrif band Cyflog y Cyfarwyddwr sy'n Ennill Fwyaf (gan gynnwys Buddion mewn Nwyddau) | | 102 | | 82.5 |
| | | | | |
| Fel lluosrif o Ganolrif Cyflog Staff Parhaol | | 2.9 | | 2.8 |

* Nodyn am y tabl: Nifer y staff ar y gyflogres, ac eithrio'r Cyfarwyddwr sy'n ennill fwyaf, ar 31 Mawrth

## Contractau Gwasanaeth

| Uwch Reolwyr | Dyddiad Dechrau'r Contract | Cyfnod heb ddod i ben (blynyddoedd) | Cyfnod rhybudd (misoedd) |
|---|---|---|---|
| Glynne Jones, Cyfarwyddwr | 16 Ionawr 1989 | 18 | 3 |
| Sian Oborne, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat† | 7 Chwefror 2000 | 31 | 3 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Pholisi †† | 2 Tachwedd 1992 | 15 | 3 |
| Allan Ross, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu er 1 Hydref 2014 ††† | 10 Mehefin 2002 | 29 | 3 |
| Stephen Hillcoat, Dirprwy Gyfarwyddwr a Phrif Ysgrifennydd Preifat tan 15 Gorffennaf | 26 Tachwedd 1986 | 19 | 3 |

**Nodiadau am y tabl:**

Ni chyhoeddwyd contractau ar gyfer Uwch Weision Sifil tan 1996; mae'r tabl yn dangos dyddiad ymuno unrhyw rai a ymunodd cyn y contractau hyn.

Cyfnod sydd heb ddod i ben yw naill ai gweddill cyfnod y contract ar gontractau cyfnod penodol neu pan fydd unigolyn yn cyrraedd oed pensiwn.

† Mae Siân Oborne ar fenthyciad gan Lywodraeth Cymru; Cyn cael ei phenodi'n Ddirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Breifat, roedd Siân yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Polisi hyd at 14 Gorffennaf 2014 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwyr y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu tan 30 Medi 2014.

†† Penodwyd Geth Williams yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Cyfansoddiad a Pholisi ar 15 Gorffennaf 2014. Cyn y penodiad hwn, roedd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol.

††† Mae Allan Ross ar fenthyciad gan Swyddfa'r Cabinet. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Wasg a Chyfathrebu ar 1 Hydref 2014.

## Buddion Pensiwn

| Uwch Reolwyr | Pensiwn cronnus a'r cyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2015 £000 | Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2014. £000 | CETV ar 31 Mawrth 2015 £000 | CETV ar 31 Mawrth 2014 £000 | Gwir gynnydd/ gostyngiad mewn CETV £000 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Glynne Jones, Cyfarwyddwr | 25–30 ynghyd â chyfandaliad 80–85 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad 5–7.5 | 454 | 406 | 26 |
| Siân Oborne, Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat † | 15–20 ynghyd â chyfandaliad 50–55 | 2.5–5 ynghyd â chyfandaliad 12.5–15 | 210 | 152 | 47 |
| Geth Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Pholisi †† | 15–20 ynghyd â chyfandaliad 55–60 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad 2.5–5 | 334 | 303 | 13 |
| Allan Ross, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu er 1 Hydref 2014 ††† | 10–15 ynghyd â chyfandaliad 30–35 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad 5–7.5 | 130 | 104 | 20 |
| Stephen Hillcoat, Dirprwy Gyfarwyddwr a Phrif Ysgrifennydd Preifat tan 15 Gorffennaf | 25–30 ynghyd â chyfandaliad 75–80 | 0–2.5 ynghyd â chyfandaliad 0–2.5 | 395 | 376 | 5 |

**Nodiadau am y tabl:**

Mae 'dim' yn golygu nad oes gwybodaeth flaenorol wedi'i chyhoeddi.

† Mae Siân Oborne ar fenthyciad gan Lywodraeth Cymru; Cyn cael ei phenodi'n Ddirprwy Gyfarwyddwr y Swyddfa Breifat, roedd Siân yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Polisi hyd at 14 Gorffennaf 2014 ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwyr y Swyddfa Breifat a Chyfathrebu tan 30 Medi 2014.

†† Penodwyd Geth Williams yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Cyfansoddiad a Pholisi ar 15 Gorffennaf 2014. Cyn y penodiad hwn, roedd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol.

††† Mae Allan Ross ar fenthyciad gan Swyddfa'r Cabinet. Fe'i penodwyd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Wasg a Chyfathrebu ar 1 Hydref 2014.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; tâl perfformiad neu fonysau; goramser; hawliau cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei bod yn agored i'w threthu yn y Deyrnas Unedig. Seilir yr adroddiad hwn ar daliadau cronnus gan Swyddfa Cymru ac fe'u cofnodir felly yn y cyfrifon hyn.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn eu trin yn enillion trethadwy. Mae Siân Oborne ar fenthyciad gan Lywodraeth Cymru; talodd Swyddfa Cymru am gost ei llety tra'i bod yn gweithio yn Llundain.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Er 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig; naill ai cynllun cyflog terfynol (**clasurol**, **premiwm** neu **glasurol a mwy**); neu gynllun gyrfa gyfan (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu a bydd cost y buddion yn cael ei thalu wrth i'r Senedd bleidleisio i roi arian ar eu cyfer bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y trefniant **clasurol, premiwm**, **clasurol a mwy** a **nuvos** yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Caiff aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac maent yn amrywio o 1.5% i 6.85% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun **clasurol** a rhwng 3.5% ac 8.85% ar gyfer y cynllun **premiwm**, **clasurol a mwy** a **nuvos**. Bydd buddion y cynllun **clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, bydd cyfandaliad sydd gyfwerth â thair blynedd o'r pensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd rhywun yn ymddeol. Ar gyfer y cynllun **premiwm** bydd y buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun **clasurol**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Cynllun cyfun yn ei hanfod yw'r cynllun **clasurol a mwy** ac mae'r buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y'u cyfrifir ar gyfer y cynllun **clasurol** a'r buddion ar gyfer gwasanaeth ar ôl Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y'u cyfrifir yn y cynllun **premiwm**. Yn y cynllun **nuvos** bydd aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) bydd y cyfrif pensiwn y mae'r aelod wedi'i ennill yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, caiff aelodau ddewis ildio'u pensiwn a chael cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir yn Neddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn i randdeiliaid. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% (a dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o blith panel o

ddarparwyr. Nid oes yn rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond, os bydd yn dewis cyfrannu, bydd y cyflogwr yn talu'r un swm hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Caiff y cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant risg buddion a delir yn ganolog (ar gyfer marwolaeth yn y swydd neu ymddeol o ganlyniad i afiechyd).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd gan yr aelod hawl i'w godi pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd neu wedi mynd heibio oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 oed yn achos aelodau'r cynllun **clasurol**, **premiwm** a **chlasurol** a mwy a 65 oed i aelodau cynllun **nuvos**.

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn y wefan yn www.civilservice.gov.uk/pensions

Bydd trefniadau pensiwn Cyfartaledd Cyflog newydd yn cael eu cyflwyno ar 1 Ebrill 2015 a bydd y rhan fwyaf o aelodau'r cynllun **clasurol, premiwm, clasurol a mwy** a **nuvos** yn ymuno â'r cynllun newydd. Mae rhagor o fanylion am y cynllun newydd hwn ar gael yn <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk/members/the-new-pension-scheme-alpha/>

## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafu'r buddion y mae'r aelod wedi'u cronni yn y cynllun pensiwn ar adeg benodol ar sail asesiad actiwaraidd. Y buddion a gaiff eu prisio yw'r buddion y mae'r aelod wedi'u cronni ac unrhyw bensiwn wrth gefn sy'n daladwy i briod allan o'r cynllun. Mae CETV yn daliad gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun gan ddewis trosglwyddo'r buddion y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i holl gyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid ei gyfnod yn y swydd uwch y mae'r datgeliad yn ymwneud â hi yn unig. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'u cronni o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV

Dyma'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd o ganlyniad i chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall. Caiff ei gyfrifo drwy ddefnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Iawndal am golli swydd

Gadawodd 3 o dan delerau Ymadael yn Wirfoddol ar 31 Mawrth 2015. Talwyd iawndal rhwng £10,000 – £135,000 iddynt.

## Adrodd am gynlluniau'r Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael

| Adran Graidd | | | |
|---|---|---|---|
| Band cost pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
| <£10,000 | dim | dim | dim |
| £10,000 – £25,000 | dim | 1 | 1 |
| £25,000 – £50,000 | dim | dim | dim |
| £50,000 – £100,000 | dim | 1 | 1 |
| £100,000 – £150,000 | dim | 1 | 1 |
| £150,000 – £200,000 | dim | dim | dim |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | dim | 3 | 3 |
| Cyfanswm y gost / £ | dim | 211,500 | |

Mae costau diswyddiadau a chostau ymadael eraill wedi'u talu'n unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaethpwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrifyddu'n llawn yn y flwyddyn ymadael. Lle bydd yr adran wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr adran ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeol oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y tabl.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

24 Mehefin 2015

# 6 Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad hwn yn egluro ar ba sail y sefydlwyd Swyddfa Cymru; sut mae'n cael ei llywodraethu a'i rheoli; a sut mae'n atebol am ei waith. I Bwriedir iddi roi datganiad cynhwysfawr wedi'i theilwra o'r sail a ddefnyddir gan y Swyddog Cyfrifyddu i roi sicrwydd bod y Swyddfa'n gweithredu'n briodol ac am y ffordd y mae'n stiwardio cronfeydd cyhoeddus.

## Statws a rôl Swyddfa Cymru

Sefydlwyd Swyddfa Cymru ar yr un pryd ag y sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Ei phrif bwrpas yw cynorthwyo Ysgrifennydd Gwladol Cymru i hyrwyddo buddiannau gorau Cymru yn y Deyrnas Unedig a sicrhau bod y setliad datganoli yng Nghymru'n gweithio'n rhwydd. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod arian sydd wedi'i ddyfarnu i Gronfa Gyfunol Cymru gan y Senedd (Grant Bloc Cymru) yn cael ei dalu'n brydlon. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, ac yn yr un modd â'r holl Adrannau Gwladol eraill, mae Swyddfa Cymru yn gyfrifol am wneud trefniadau cadarn ar gyfer llywodraethu a rheoli risg.

Mae ei Chyfarwyddwr wedi'i ddynodi'n Swyddog Cyfrifyddu.

## Diben y fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, y mae Swyddfa Cymru yn cael ei chyfarwyddo a'i rheoli drwyddynt, a'r modd y mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n cynnwys y broses a ddefnyddir gan Weinidogion ac uwch reolwyr i fonitro'r gwaith o gyflawni ei hamcanion a barnu a yw gweithgareddau'r Swyddfa wedi arwain at ganlyniadau priodol a chost effeithiol. Mae'r fframwaith yn ymgorffori system gadarn i ganfod a rheoli risgiau.

## Y fframwaith llywodraethu

Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rhoi cyfarwyddyd gwleidyddol i Swyddfa Cymru ac mae'n atebol i'r Senedd. Mae'n cael ei gynorthwyo gan ddau Is-ysgrifennydd Seneddol dros Gymru; un yn Nhŷ'r Cyffredin ac un yn Nhŷ'r Arglwyddi, a chan dîm bach o weision sifil o dan arweiniad Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru.

## Y Bwrdd Strategaeth

Mae Bwrdd Strategaeth Swyddfa Cymru yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau polisi'r Adran ac am gytuno ar amcanion busnes. Mae'n cynorthwyo'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflawni ei gyfrifoldebau i'r Senedd, ond yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n atebol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y tîm Gweinidogol, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn gadeirydd; dau aelod bwrdd anweithredol a Chyfarwyddwr, a Dirprwy Gyfarwyddwyr yr Adran. Bydd y Prif Gyfrifydd a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol yn mynd I holl gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd Strategaeth er mwyn cynnig cyngor ar faterion ariannol a llywodraethol. Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Bwrdd Strategaeth ym mis Gorffennaf 2014 ac yn mis Tachwedd 2014, o dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn 2014-15, bu'r Bwrdd Strategaeth yn adolygu ac yn cytuno ar ddiweddariad i Gynllun Busnes a Chofrestr Risg Strategol yr Adran. Mae'r Cynllun Busnes a'r Gofrestr Risg a ddiweddarwyd yn parhau i ddangos blaenoriaethau, amcanion a phrif weithgareddau'r Adran.

Cynhaliwyd adolygiad o weithdrefnau llywodraethu'r Adran gan yr aelod arweiniol anweithredol y bwrdd yn ei rôl fel dirprwy gadeirydd y Bwrdd Strategaeth yng ngwanwyn 2014. Cyflwynwyd canlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd Strategaeth yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, a'r casgliad oedd nad oedd rheswm dros newid strwythurau llywodraethu'r swyddfa.

Hefyd, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog wythnosol â'r Cyfarwyddwr i drafod polisïau, strategaeth a materion Adrannol. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cadeirio cyfarfodydd wythnosol â'r tîm Gweinidogol ac uwch reolwyr llawn a oedd yn cydlynu ac yn trafod busnes Adrannol a Gweinidogol arfaethedig.

## Pwyllgorau sy'n Adrodd i'r Bwrdd Strategaeth

Mae'r Bwrdd Strategaeth yn cael ei gynorthwyo gan ddau bwyllgor:-

I **Y Pwyllgor Rheoli** - Caiff y pwyllgor hwn ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr ac mae'n cynnwys tri dirprwy gadeirydd yr Adran a dau aelod bwrdd anweithredol. Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Rheoli'n cynnwys:-

- rhoi cydarweiniad gweithredol effeithiol i'r Swyddfa, o dan arweiniad a chyfarwyddyd Bwrdd Strategaeth Swyddfa Cymru;
- goruchwylio'r gwaith o gyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Gweinidogion, fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes Swyddfa Cymru, a rheoli'r prif risgiau cysylltiedig;
- Sicrhau bod asedau ac adnoddau ariannol Swyddfa Cymru yn cael eu rheoli'n ddarbodus ac effeithiol.

Drwy gydol 2014-15, roedd y gwaith o gyflawni polisïau a pherfformiad yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Rheoli.

II **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC)** - Mae'r ARAC yn cael ei gadeirio gan yr aelod bwrdd anweithredol arweiniol, ac mae'n cynnwys un aelod bwrdd anweithredol arall ac aelod annibynnol arall. Mae un o'r aelodau anweithredol yn gyfrifydd cymwysedig. Gadawodd yr aelod anweithredol arweiniol ar 31 Mawrth 2015 ar ôl bron 10 mlynedd yn ei swydd. Ysgwyddwyd ei "ddyletswyddau arwain" gan yr aelod anweithredol arall sydd wedi bod yn ei swydd ers 8 mlynedd. Penodwyd aelod anweithredol newydd I'r bwrdd ar 1 Ebrill 2015. Mae'r aelod annibynnol wedi bod yn ei swydd ers blwyddyn. Mae'r Pwyllgor hwn yn gweithredu'n unol â Llawlyfr y Trysorlys i Bwyllgorau Archwilio ac mae'n cwrdd bob chwarter. Cynhaliodd y Pwyllgor werthusiad llawn o'i effeithiolrwydd ei hun ym mis Medi 2014, gan ofyn am farn archwilwyr mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn gweithredu'n effeithiol.

Dyma fanylion presenoldeb yn y Bwrdd Strategaeth, y Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod y flwyddyn ariannol:

## Bwrdd Strategaeth

| Aelodau | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **Y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS*** – Cadeirydd<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru er 15 Gorffennaf<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru tan 14 Gorffennaf | 2 o 2 |
| **Y Gwir Anrhydeddus David Jones AS** – Cadeirydd<br>Ysgrifennydd Gwladol Cymru tan 14 Gorffennaf | 1 o 2 |
| **Y Farwnes Randeron***<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru | 2 o 2 |
| **Alun Cairns AS***<br>Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru er 15 Gorffennaf | 1 o 2 |
| **David Crawley** – Aelod Anweithredol Arweiniol o'r Bwrdd a Dirprwy Gadeirydd | 2 o 2 |
| **Ian Summers**– Aelod Anweithredol o'r Bwrdd | 2 o 2 |
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr | 2 o 2 |
| **Sian Oborne** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat er 1 Hydref<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat a Chyfathrebu tan 30 Medi<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi tan 14 Gorffennaf | 2 o 2 |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Pholisi er 15 Gorffennaf<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol tan 14 Gorffennaf | 2 o 2 |
| **Allan Ross –** Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu er 1 Hydref | 1 o 2 |
| **Stephen Hillcoat –** Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat a Chyfathrebu<br>tan 15 Gorffennaf | 1 o 2 |

* Ar ôl Etholiad Cyffredinol 2015, ailbenodwyd y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS ac Alun Cairns AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru, yn y drefn honno. Penodwyd yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth yn Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru.

## Pwyllgor Rheoli

| Aelodau / yn bresennol | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **Glynne Jones** – Cyfarwyddwr, Cadeirydd | 5 o 6 |
| **David Crawley** – Aelod Anweithredol Arweiniol o'r Bwrdd a Dirprwy Gadeirydd | 6 o 6 |
| **Ian Summers**– Aelod Anweithredol o'r Bwrdd | 6 o 6 |
| **Sian Oborne** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat er 1 Hydref<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat a Chyfathrebu tan 30 Medi<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi tan 14 Gorffennaf | 4 o 6 |
| **Geth Williams** – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Pholisi er 15 Gorffennaf<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Gwasanaethau Corfforaethol tan 14 Gorffennaf | 5 o 6 |
| **Allan Ross – Dirprwy Gyfarwyddwr, y Wasg a Chyfathrebu er 1 Hydref** | 2 o 6 |
| **Stephen Hillcoat – Dirprwy Gyfarwyddwr, Swyddfa Breifat a Chyfathrebu<br>tan 15 Gorffennaf** | 2 o 6 |

Bydd y Prif Gyfrifydd a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth a'r Pwyllgor Rheoli i'w cynghori ar faterion ariannol a llywodraethu.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

| Members | Nifer y Cyfarfodydd a Fynychwyd |
|---|---|
| **David Crawley** – Aelod Anweithredol Arweiniol o'r Bwrdd a Dirprwy Gadeirydd | 3 o 4 |
| **Ian Summers**– Aelod Anweithredol o'r Bwrdd | 4 o 4 |
| **Chris Southworth**[1] – Aelod Annibynnol | 4 o 4 |

**Troednodiadau**

**Nodyn 1:** Chris Southworth yw Ddirprwy Gyfarwyddwr, Grŵp Economi Swyddfa Gogledd Iwerddon. Fe'i penodwyd yn aelod o'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2014

## Pwyllgor Arall

Mae gan Swyddfa Cymru Bwyllgor Iechyd a Diogelwch hefyd a'i gylch gorchwyl yw:

- cynghori'r Pwyllgor Rheoli am sicrhau bod Swyddfa Cymru'n darparu amgylchedd gwaith iach a diogel i'w staff, ei Gweinidogion a'i hymwelwyr;
- rheoli risgiau Iechyd a Diogelwch a nodwyd a monitro'r cynnydd o'i gymharu â'r Cynllun Corfforaethol Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol; a
- gwella eto'r perfformiad a'r safonau ym maes Iechyd a Diogelwch, ac ymdrechu i ragori ar yr holl safonau statudol y codau ymarfer, y rheoliadau a'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Cyfarfu'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, dan gadeiryddiaeth Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol, ddwywaith yn ystod 2014-15. Ystyriwyd amrywiaeth o faterion, gan gynnwys ystadegau damweiniau yn y gwaith a hyfforddiant i staff fel wardeniaid tân a phobl cymorth cyntaf.

## Rôl y Swyddog Cyfrifyddu

Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yw ei Swyddog Cyfrifyddu (SC) Yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo yn ei lythyr penodi, ac fel yr amlinellir yn Managing Public Money, ef sy'n gyfrifol am lywodraethu Swyddfa Cymru.

Disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu ymgymryd â chyfrifoldeb personol am y canlynol:-

- rheoleidd-dra a phriodoldeb, gan gynnwys gofyn am gymeradwyaeth Trysorlys EM am unrhyw wariant y tu allan i ddirprwyaethau arferol;
- fforddiadwyedd a chynaliadwyedd, parchu cyllidebau y cytunwyd arnynt ac osgoi ymrwymiadau tymor hir anfforddiadwy;
- asesiadau gwerth am arian;
- bod yn atebol i'r Senedd drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC).

Disgwylir i'r Swyddog Cyfrifyddu sicrhau bod yr Adran yn gweithredu'n effeithiol, yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ac yn arddangos safon uchel o uniondeb. Nod Swyddfa Cymru yw:

## Llywodraethu

- bod â strwythur llywodraethu sy'n cyfleu, yn dirprwyo, yn gweithredu ac yn gorfodi penderfyniadau;
- bod â mesurau rheoli mewnol dibynadwy i ddiogelu, sianelu a chofnodi'r defnydd gorau o adnoddau yn ôl y bwriad;
- gweithredu'n briodol gan roi sylw i'r angen am gynnal busnes cyhoeddus yn briodol;
- trin ei gyflenwyr a'i gymheiriaid busnes yn deg a gonest;
- darparu cofnodion amserol, tryloyw a realistig o'i fusnes.

## Penderfynu

- cynorthwyo ei Weinidogion drwy roi cymorth clir, rhesymedig, amserol a diduedd;
- gwneud ei holl benderfyniadau'n unol â strategaeth, nodau ac amcanion y sefydliad fel yr amlinellwyd gan Weinidogion a/neu mewn deddfwriaeth;
- cwrdd â gofynion y Trysorlys ynghylch terfynau ar ddefnydd o adnoddau cyhoeddus;
- rheoli ei staff yn deg, gyda pholisïau cynhwysol sydd â'r nod o hybu ac integreiddio amrywiaeth;
- cyfleu ei benderfyniadau mewn ffordd agored a thryloyw.

## Rheoli ariannol

- sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd a phriodol;
- defnyddio ei adnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac effeithiol, gan osgoi gwastraff ac afradlondeb;
- arfarnu caffael a phrosiectau mewn ffordd wrthrychol a theg, gan ymdrechu i sicrhau gwerth da i'r sector cyhoeddus cyfan;
- defnyddio systemau gwybodaeth rheoli i gael sicrwydd ynghylch gwerth am arian ac ansawdd cyflenwi er mwyn gwneud addasiadau amserol;
- osgoi gorfanylu a gosod costau gormodol am gydymffurfio, ar ei staff ei hun neu ei gwsmeriaid a rhanddeiliaid;
- bod a threfniadau ysgrifenedig ymarferol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill;
- defnyddio gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol i wella ei reolaeth ariannol, ei fesurau rheoli mewnol a'i berfformiad.

## Penderfynu a rheoli busnes

Mae Swyddfa Cymru wedi'i threfnu'n bedair is-adran i gyflawni ei swyddogaethau:

1. Polisi a'r Cyfansoddiad;
2. Y Swyddfa Breifat
3. Y Wasg a Chyfathrebu;
4. Gwasanaethau Corfforaethol.

Mae uwch aelod o'r staff yn ben ar bob un o'r rhain a bydd yn adrodd i'r Cyfarwyddwr. Cafodd cyllidebau ffurfiol eu dirprwyo gan y Cyfarwyddwr i bob Dirprwy Gyfarwyddwr yn eu rolau fel pennaeth is-adran.

Roedd cyllidebau is-adrannol yn cael eu monitro'n fisol gan yr uwch dîm ac roedd y Pwyllgor Rheoli'n adolygu ac yn trafod adroddiadau ariannol bob deufis. Roedd yr uwch dîm rheoli'n cwrdd yn rheolaidd i oruchwylio a chydlynu busnes o ddydd i ddydd, materion rheoli, a materion cyllidebol.

Mae gan yr Adran Gytundebau Lefel Gwasanaeth â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer y rhan fwyaf o'i hanghenion caffael ac ar gyfer pob math o wasanaethau ar gyfer staffio, adeiladau a materion ariannol. Weithiau, ond yn anaml, bydd yn cynnal prosesau caffael bach unigol drosti ei hun, o dan reolau caffael y Llywodraeth.

## Perfformiad

Cafwyd adolygiadau Archwilio Mewnol ar y canlynol yn ystod y flwyddyn: cardiau caffael y llywodraeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid, adroddiad dilyn hynt rheoli'r gyllideb ac arbedion effeithlonrwydd; Memorandwm Dealltwriaeth Adnoddau Dynol â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder; a llywodraethu corfforaethol.

Wrth gynnal Archwiliad Mewnol, gwelwyd bod lefel dda o reolaeth ac ni welwyd dim problemau rheoli sylweddol yn yr adolygiadau. Gellid cynnig lefel gymedrol o sicrwydd bod fframwaith risg, rheoli a llywodraethu cyffredinol yr Adran yn ddigonol iddi gyflawni ei hamcanion a bod y prif risgiau i'r Adran yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Dyma enghreifftiau o'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Rheoli yn ystod y flwyddyn:

- cynnydd o'i gymharu â Chynllun Busnes yr adran;
- risgiau strategol a Llywodraethu;
- Perfformiad yr Adran;
- y Strategaeth Gyfathrebu;
- bwrw ymlaen â datganoli yng Nghymru

Dyma rai o'r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC):

- cofrestrau risg yr Adran a'i phrosesau llywodraethu;
- Yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon;
- Cyfrifon y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol;
- Adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol

## Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Rhoddodd Swyddfa Cymru ystyriaeth lawn i ganllawiau Trysorlys EM ar Lywodraethu Corfforaethol yn Adrannau Llywodraeth Ganolog (Gorffennaf 2011) wrth addasu a chryfhau ei phrosesau i adlewyrchu ei statws fel Adran annibynnol ond yn unol â'i maint, ei chyllideb a'i swyddogaeth (i ddarparu cymorth a chyngor ar bolisïau i Weinidogion Swyddfa Cymru yn hytrach na chyflenwi rhaglenni neu wasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd). Yr unig feysydd lle nad yw'r Adran yn llwyr gydymffurfio â'r canllawiau yw:

- Nifer yr Aelodau Anweithredol ar y Bwrdd. Ar ôl ystyriaeth ddyladwy gan y Cyfarwyddwr, y Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ac yn dilyn trafodaethau ag Archwilwyr Mewnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol penderfynodd yr Adran beidio â chynyddu nifer yr Aelodau Anweithredol. Y farn oedd bod yr aelodaeth bresennol yn gymesur â maint yr Adran (tua 46 o staff). Roedd y ddau Aelod Anweithredol o'r Bwrdd yn 2014-15 yn cynnig sgiliau a phrofiad eithriadol o werthfawr sy'n arbennig o berthnasol i Swyddfa Cymru. Mae'r Aelod Anweithredol Aarweiniol yn meddu ar brofiad helaeth o gyllid cyhoeddus gan ei fod yn gyn-Swyddog Cyfrifyddu ac mae ganddo brofiad cyfredol eang o fod yn aelod Bwrdd ar lefel uwch mewn sefydliadau cyhoeddus ac elusennol pwysig. Mae gan yr ail Aelod Anweithredol – cyfrifydd cymwysedig – brofiad helaeth o gyfrifyddu cyhoeddus ac archwilio ar lefel uwch yn ogystal â gweithredu yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae'r Adran, mewn ymgynghoriad â Swyddfa'r Cabinet, wedi cytuno i ymestyn telerau'r Aelodau Anweithredol presennol i sicrhau eu bod yn cael cyfle i fanteisio ymhellach ar eu profiad wrth agosáu at Etholiad Cyffredinol 2015 ac wedyn. Gadawodd yr Aelod Anweithredol arweiniol ei swydd ar 31 Mawrth ac ysgwyddwyd ei "ddyletswyddau arwain " gan yr Aelod Anweithredol arall. Penodwyd Aelod Anweithredol newydd ar 1 Ebrill 2015.
- Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnwys o leiaf dri aelod penodwyd swyddog o Swyddfa Gogledd Iwerddon yn aelod annibynnol ym mis Mawrth 2014. Bu'r penodiad hwn yn fodd o gryfhau annibyniaeth y pwyllgor eto.
- Nid yw Aelodaeth Bwrdd Swyddfa Cymru yn cynnwys rhywun â chymwysterau ariannol. Oherwydd ei maint, mae gan Swyddfa Cymru un gweithiwr proffesiynol â chymwysterau ariannol sy'n mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli a'r Bwrdd Strategaeth er mwyn cynnig cyngor.
- Yn dilyn yr adolygiad diwethaf, penderfynodd y Bwrdd Strategaeth, oherwydd natur y busnes a maint yr Adran, nad oedd rheswm dros gynnal pedwar cyfarfod y flwyddyn, ac y byddai dau neu dri yn ddigon gan amlaf. Cyfarfu'r Bwrdd ddwywaith yn 2014-15.

## Canfod a rheoli risg

Diben system rheolaeth fewnol Swyddfa Cymru yw canfod risgiau i'r busnes a'u rheoli ar lefel resymol. Mae'n seiliedig ar broses barhaus sydd â'r nod o ganfod a blaenoriaethu risgiau er mwyn cyflawni amcanion Swyddfa Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'u heffaith bosibl, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae cadernid y system hon i'w weld o hyd yn y ffordd y mae'r Adran yn rheoli ei phrif risgiau strategol. Yn 2014-15, mae'r rhain wedi cynnwys darprau'r Papur Gorchymyn '*Pwerau at Bwrpas: Tuag at Setliad Datganoli sy'n para i Gymru*' erbyn Dydd Gŵyl Dewi 2015. Sefydlodd Swyddfa Cymru Gynllun Prosiect a Bwrdd Rhaglen a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Adrannau allweddol y Llywodraeth I oruchwylio'r gwaith. Bu swyddogion Swyddfa Cymru'n gweithio gyda swyddogion eraill mewn Adrannau allweddol ar lefel polisi ac ar lefel gyfreithiol er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael eu chyflawni'n llwyddiannus erbyn Dydd Gŵyl Dewi. Cafodd y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn eu hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd Rheoli'r Adran, gan helpu i sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r gwaith a'i fod yn cadw o fewn yr amserlen yn ystod y flwyddyn.

Y brif risg weithredol a ganfuwyd oedd methu â sicrhau taliad i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd yr Adran yn lliniaru'r risg hon drwy ddefnyddio cytundebau lefel gwasanaeth sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer tynnu cyllid i lawr a chynlluniau wrth gefn.

## Y gallu i ddelio â risg

Cafodd risgiau eu canfod a'u cyfleu ar lefel strategol ac ar lefel weithredol gan y Pwyllgor Rheoli ac ar lefel weithio gan y timau yn y pedair is-adran. Roedd cofrestrau risg y canghennau'n ategu ac yn cyfrannu at y Gofrestr Risg Adrannol gyffredinol a oedd yn cael ei hadolygu bob deufis gan y Pwyllgor Rheoli ac ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Strategaeth. Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn craffu ar y modd yr ymdriniwyd â'r prif risgiau yn ei gyfarfodydd chwarterol ac roedd yn edrych yn fwy manwl ar risgiau penodol a'r ffordd yr oeddent yn cael eu rheoli.

## Fframwaith risg a rheoli

Roedd gan Swyddfa Cymru Strategaeth a Fframwaith Polisi ar gyfer Rheoli Risg, a oedd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Rheoli, ac a oedd yn seiliedig ar gyngor y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Y prif elfennau oedd:

- proses ffurfiol i ganfod, gwerthuso, rheoli a rhoi gwybod am risgiau;
- system ddadansoddi a chofnodi sy'n pennu risgiau i amcanion, effaith a thebygolrwydd risgiau, camau lliniaru cyfredol ac arfaethedig a pherchnogion risgiau unigol;
- rhaglen ffurfiol sy'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg;
- hyfforddiant blynyddol a gweithdai i godi ymwybyddiaeth o reoli risg.

Cafodd effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg eu hategu gan waith yr archwilwyr mewnol, yr uwch reolwyr a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r argymhellion a wnaethpwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ei llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

Roedd yr holl fesurau rheoli allweddol, a bennwyd ar ôl asesu'r prif risgiau busnes a'r meysydd ariannol allweddol canlynol wedi eu rhoi ar waith. Yn benodol roedd y rhain yn rhoi cryn sicrwydd:

- bod gwariant/incwm yn cael ei gofnodi a'i wario a'i dderbyn yn briodol o safbwynt priodoldeb a rheoleidd-dra;
- bod y gwariant/incwm a oedd wedi'i wario a'i dderbyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau, gan gynnwys y rhai sy'n gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithgareddau Swyddfa Cymru;
- bod gwariant wedi'i gategoreiddio'n briodol a bod gwariant wedi'i drosglwyddo rhwng dosbarthiadau gwariant yn unol â'r Llawlyfr Cyllid;
- nad oedd rheolau ar ddirprwyo awdurdod ariannol wedi'u torri;
- bod cyllidebau wedi'u monitro'n rheolaidd, bod gwariant gwirioneddol wedi'i gymharu â rhagolygon, a bod y Pwyllgor Rheoli wedi'i hysbysu am unrhyw amrywiannau;
- bod mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod asedau Swyddfa Cymru wedi'u diogelu rhag eu defnyddio neu eu gwaredu heb awdurdod;
- bod gweithdrefnau rheoli ar waith i atal twyll;
- bod asedau gwybodaeth wedi'u monitro a bod risgiau wedi'u hasesu a'u cofnodi'n briodol a bod ansawdd wedi'i adolygu (gweler yr adran ar sicrhau gwybodaeth isod);
- bod gweithdrefnau rheoli ar waith ar gyfer yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol am Wybodaeth i ddiogelu rhag bygythiadau i ddiogelwch gwybodaeth;
- nad oedd y polisi ar letygarwch a rhoddion wedi'i dorri.

### *Diogelwch a diogelwch gwybodaeth*

Trafodir hyn yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr Gweler tudalen 26.

## Risg a Sicrwydd Gwybodaeth

### *Asedau Gwybodaeth*

Nid yw Swyddfa Cymru yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd ac nid yw'n cadw cronfeydd data mawr o ddata personol. Mae ychydig o ddata personol yn cael ei ddal ar ffurf cofnodion personol a chyllid, a gohebiaeth gan y cyhoedd ac Aelodau Seneddol (ASau), Aelodau Cynulliad (ACau) ac Arglwyddi. Mae gwybodaeth arall a gedwir gan yr Adran yn cynnwys papurau corfforaethol a pholisi, a phapurau Pwyllgorau Cabinet.

### *Risgiau a Rheoli Risgiau*

Mae Swyddfa Cymru wedi nodi'r risgiau canlynol i wybodaeth:

1. colli gwybodaeth, yn enwedig pan fydd staff yn teithio;
2. peryglu gwybodaeth drwy fynediad heb ei awdurdodi;
3. colli neu lygru gwybodaeth oherwydd methiant mewn systemau technegol;
4. colli gwybodaeth o ganlyniad i ladrad.

Gan mai ychydig yn unig o ddata sensitif sy'n cael ei ddal gan Swyddfa Cymru, nid yw graddfa'r risg mor fawr fel bod angen am strategaethau rheoli arbennig neu gynhwysfawr.

### *Rheoli risgiau*

Risg 1: Colli gwybodaeth, yn enwedig pan fydd staff yn teithio

- mae'r staff wedi cael canllawiau ynghylch trafod gwybodaeth sy'n benodol i'r Adran, ac sy'n rhestru eu cyfrifoldebau. Bydd staff yn cael eu hatgoffa o bryd i'w gilydd am y rheolau i ddiogelu gwybodaeth pan fyddant yn teithio;
- mae gan yr Adran bolisi desg glir ar gyfer ein dwy swyddfa sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei storio'n briodol;
- mae'r staff wedi'u hysbysu am weithdrefnau i roi gwybod os oes gwybodaeth sensitif ac eitemau fel ffonau clyfar yn cael eu colli.

Risg 2: Peryglu gwybodaeth drwy fynediad heb ei awdurdodi

- mae system rheoli mynediad ar waith ar gyfer rheoli cofnodion sy'n cyfyngu ar y ffeiliau y gall defnyddwyr eu gweld. Bydd hawliau mynediad yn cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- mae ffeiliau adnoddau dynol yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinetau dan glo mewn ystafell y gellir ei chloi.

Risg 3: Colli neu lygru gwybodaeth oherwydd methiant mewn systemau technegol

Rydym wedi cael sicrwydd gan gyflenwyr TG y Weinyddiaeth Cyfiawnder, o dan gytundeb lefel gwasanaeth, bod gwybodaeth yn ddiogel, bod copïau wrth gefn o ddata'n cael eu gwneud yn rheolaidd a bod modd eu defnyddio i adfer data os bydd angen; a bod ffeiliau a data hen a darfodedig yn cael eu dinistrio'n ddiogel.

Risg 4: Colli gwybodaeth o ganlyniad i ladrad

- mae'n ofynnol bod staff yn cadw pob dogfen gyfrinachol mewn cabinetau dan glo. Bydd gwiriad yn cael ei gynnal bob dydd i sicrhau bod pob cabinet wedi'i gloi;
- diben y polisi desg glir yw atal dogfennau rhag cael eu gadael yn anniogel, ac mae nifer o hapwiriadau wedi dangos bod y polisi'n cael ei ddilyn.

***Canlyniadau yn ystod 2014-15***

Ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod 2014–15. Roedd yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu gwybodaeth erbyn diwedd Mawrth 2015.

## Adroddiad cryno gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor Archwilio a Risg

Rhoddodd y Pwyllgor sylw manwl drwy gydol y flwyddyn i faterion cyllid a chyfrifyddu, llywodraethu a rheoli risg Swyddfa Cymru. O ganlyniad i'w waith yn ystod y cyfnod adrodd, gall y Pwyllgor roi lefel uchel o sicrwydd ar ddigonoldeb y trefniadau archwilio ar gyfer Swyddfa Cymru (mewnol ac allanol) ac ar y sicrwydd a roddwyd i'r Swyddog Cyfrifyddu o ran y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli sydd ar waith yn yr Adran.

## Asesiad o'r system reolaeth fewnol

Ar sail yr adolygiad hwn, gallaf roi sicrwydd bod y system reolaeth fewnol yn Swyddfa Cymru yn ddigonol i gyflawni amcanion Swyddfa Cymru. Rhoddir y sicrwydd hwn ar y sail bod camau wedi'u cymryd i leihau neu ddileu'r risg, lle pennwyd bod Swyddfa Cymru yn agored i risg, neu fod natur y risg wedi'i deall yn llawn a'i derbyn.

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**24 Mehefin 2015**

# 7 Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Swyddfa Cymru i baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fydd yn rhestru'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu yn ystod y flwyddyn a'r defnydd ar adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o'r sefyllfa yn Swyddfa Cymru ac o'i halldro adnoddau net, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol bod y Swyddog Cyfrifyddu yn cydymffurfio â gofynion y *Government Financial Reporting Manual* a'i fod yn benodol:

- Yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion perthnasol ynghylch cyfrifyddu a datgelu, ac yn cymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Yn barnu ac yn amcangyfrif ar sail resymol;
- Yn datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwysadwy a geir yn llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn datgelu ac yn egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- Yn paratoi'r cyfrifon ar sail busnes byw.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Cyfarwyddwr Swyddfa Cymru yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Cymru. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am warchod asedau Swyddfa Cymru, wedi'u nodi yn *Managing Public Money* a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

# 8 Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol tŷ'r Cyffredin

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian, Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau hyn wedi'u paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau y dywedir yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esboniwyd yn fwy manwl yn y Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn gywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd yn eu cylch yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

## Cwmpas archwilio'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael gafael ar ddigon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol er mwyn cael sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau sylweddol ynddynt, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol ar gyfer amgylchiadau'r Adran ac wedi cael eu rhoi ar waith yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu perthnasol gan y Swyddog Cyfrifyddu; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. At hynny, darllenais yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i nodi unrhyw anghysonderau perthnasol yn y datganiadau ariannol a nodi unrhyw wybodaeth sydd i bob golwg yn berthnasol anghywir, neu'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad. Os caf wybod am unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Mae gofyn imi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Sylweddol yn cyflwyno'r alldro'n briodol o'i gymharu â'r cyfansymiau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd ac nad yw trothwy'r cyfansymiau hyn wedi'i groesi. Y cyfansymiau rheoli a bleidleisiwyd gan y

Senedd yw'r Terfynau Gwariant Adrannol (Adnodd a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnodd a Chyfalaf), y Gofyniad Anghyllidebol (Adnodd) ac Arian Parod Net. Mae gofyn hefyd imi gael tystiolaeth sy'n ddigon i'm sicrhau'n rhesymol bod y gwariant a'r incwm sydd wedi'i gofnodi yn y datganiadau ariannol wedi'u rhoi ar waith at y pwrpas a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ynghylch rheoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt perthnasol:

- mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro o'i gymharu â'r cyfansymiau rheoli a bleidleisiwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ac mae'n dangos nad yw trothwy'r cyfansymiau hyn wedi'u croesi; a
- bod y gwariant a'r incwm sydd wedi'i gofnodi yn y datganiadau ariannol wedi'u rhoi ar waith at y pwrpas a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi barn gywir a theg am gyflwr materion yr Adran ar 31 Mawrth 2015 ac am ei chost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dani.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaethpwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr adrannau hynny o'r Adroddiad Blynyddol a elwir yn Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd yn eu cylch drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am y materion a ganlyn y byddaf yn adrodd amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu nad oes datganiadau digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â hwy, neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn imi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM

## Adroddiad

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**25 Mehefin 2015**

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# 9 Cyfrifon

## Datganiad o Gyflenwad Seneddol

Yn ogystal â'r datganiadau sylfaenol a baratowyd o dan IFRS, mae'r Government Financial Reporting Manual (FReM) yn disgwyl i Swyddfa Cymru baratoi Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a nodiadau ategol i ddangos alldro adnoddau yn erbyn yr Amcan ar gyfer y Cyflenwad a gyflwynwyd i'r Senedd, ar gyfer pob terfyn rheolaeth gyllidebol.

## Crynodeb o'r Alldro Adnoddau a Chyfalaf 2014–15

| | | 2014-15 Amcan | | | 2014-15 Alldro | | | 2014-15 Pleidleisiwyd | 2013-14 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Pleidleisiwyd | Ni Phleidleisiwyd | Cyfanswm | Pleidleisiwyd | Ni Phleidleisiwyd | Cyfanswm | Alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad / (dros ben) | Cyfanswm |
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | | | | | | |
| – Adnodd | SOPS2.1 | 4,799 | – | 4,799 | 4,323 | – | 4,323 | 476 | 4,449 |
| – Cyfalaf | SOPS2.2 | 135 | – | 135 | 117 | – | 117 | 18 | 564 |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** | | | | | | | | | |
| – Adnodd | SOPS2.1 | 20 | – | 20 | 18 | – | 18 | 2 | (21) |
| – Cyfalaf | SOPS2.2 | – | – | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | | **4,954** | – | **4,954** | **4,458** | – | **4,458** | **496** | **4,992** |
| **Di-gyllideb** | | | | | | | | | |
| – Adnodd | SOPS2.1 | 13,692,029 | – | 13,692,029 | 13,547,659 | – | 13,547,659 | 144,370 | 13,482,462 |
| **Cyfanswm** | | **13,696,983** | – | **13,696,983** | **13,552,117** | – | **13,552,117** | **144,866** | **13,487,454** |
| Cyfanswm Adnodd | | 13,696,848 | – | 13,696,848 | 13,552,000 | – | 13,552,000 | 144,848 | 13,486,890 |
| Cyfanswm Cyfalaf | | 135 | – | 135 | 117 | – | 117 | 18 | 564 |
| **Cyfanswm** | | **13,696,983** | – | **13,696,983** | **13,552,117** | – | **13,552,117** | **144,866** | **13,487,454** |

**Gofyniad Arian Parod Net 2014-15**

| | | 2014-15 | | | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | Amcan | Alldro | Alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif: arbediad / (dros ben) | Alldro |
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gofyniad arian parod net | SOPS4 | 13,696,743 | 13,552,401 | 144,342 | 13,486,820 |

**Costau gweinyddol 2014-15**

| | 2013-14 Amcan | 2013-14 Alldro | 2012-13 Alldro |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| SOPS3 | 4,739 | 4,298 | 4,384 |

Mae'r ffigurau mewn print trwm yn gyfansymiau a bleidleisiwyd o dan reolaeth Seneddol. Hefyd, er nad yw'n derfyn a bleidleisiwyd ar wahân, bydd gorwario'r gyllideb weinyddu hefyd yn arwain at bleidlais weddilliol.

Eglurir yr amrywiadau rhwng Amcan ac Alldro yn Nodyn 2.2 SOPs ac yn yr ADroddiad Strategol ar dudalennau 16 i 17

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau ynghylch y Cyfrifon Adnoddau Ariannol (Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol)

### SOPS1. Datganiad ynghylch polisïau cyfrifyddu

Mae'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol a'r nodiadau ategol wedi'u paratoi'n unol â Government Financial Reporting Manual (FReM) 2014-15 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae polisïau cyfrifyddu'r Datganiad o Gyflenwad Seneddol sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn gydnaws â'r gofynion a bennwyd yn Consolidated Budgeting Guidance and Supply Estimates Guidance Manual 2014-15.

### SOPS1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig wedi'u cyflwyno mewn modd sy'n gydnaws â rheolaeth gyllidebol ac Amcanion Cyflenwi'r Trysorlys. Mae cyfanredau ar draws y llywodraeth yn cael eu mesur drwy ddefnyddio Cyfrifon Cenedlaethol, a baratowyd yn unol â fframwaith y cytunwyd arno'n rhyngwladol, sef yr 'European System of Accounts' (ESA95). Mae ESA95 yn ei dro'n gydnaws â'r System of National Accounts (SNA93), a baratoir o dan fantell y Cenhedloedd Unedig.

Mae amcanion y system gyllidebu, a chyflwyno'r Amcanion Cyflenwi a'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol wedi hynny a'r nodiadau cysylltiedig yn wahanol i gyfrifon sy'n seiliedig ar IFRS. Mae'r system yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd macro-economaidd drwy sicrhau bod gwariant cyhoeddus yn cael ei reoli, dan awdurdod Seneddol perthnasol, i ategu fframwaith cyllidol y Llywodraeth. Mae'r system hon yn cynnig cymhellion i adrannau i reoli eu gwariant yn dda er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus o safon sy'n cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae amcanion y Llywodraeth ar gyfer y polisi cyllidol i'w gweld yn y Siartre ar gyfer Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bwriad y rhain yw:

- sicrhau cyllid cyhoeddus cynaliadwy sy'n hybu ymddiriedaeth yn yr economi, yn hyrwyddo tegwch rhwng y cenedlaethau, ac yn sicrhau bod polisïau ehangach y llywodraeth yn effeithiol;
- cefnogi a gwella effeithiolrwydd polisïau ariannol i sefydlogi andwadalwch economaidd.

### SOPS1.2 Cymharu â chyfrifon sy'n seiliedig ar IFRS

Bydd llawer o drafodion yn cael eu trin yn yr un ffordd dan y drefn Cyfrifon Cenedlalethol a chyfrifon sy'n seiliedig ar IFRS, ond mae nifer o wahaniaethau hefyd. Cysonir alldro'r adran fel y'i cofnodir yn y SoPS o'i gymharu â'r SoCNE seiliedig ar IFRS yn SoPS nodyn 3.2.

## SOPS1.2 Darpariaethau – Gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni

Ni fydd darpariaethau sy'n cael eu cydnabod mewn cyfrifon sy'n seiliedig ar IFRS yn cael eu cydnabod yn wariant at ddibenion cyfrifon cenedlaethol nes bod y taliad arian parod gwirioneddol (neu'r ddyled gronnus) yn cael ei gydnabod. Er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu adnodd a chyfrifon cenedlaethol, gwneir cofnodion data ychwanegol yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol ar draws cyfansymiau rheoli AME a DEL, ac nid yw'r rhain yn effeithio ar y Datganiad ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr. Oherwydd bod y cyfanswm rheoli gweinyddu'n un o is-gategorïau DEL, mae'r gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn wahanol i'r hyn yr adroddir yn ei gylch yn y cyfrifon sy'n seiliedig ar IFRS. Fe'u cysonir yn SoPS nodyn 3.2.

# SOPS2 Alldro net

## SOPS2.1 Dadansoddiad o'r alldro adnodd net fesul adran

| | Administration | | | Programme | | | 2014-15 Alldro | 2014-15 Amcan | | | 2013-14 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Crynswth | Incwm | Cyfanswm Net | Crynswth | Incwm | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net o'i gymharu â'r Amcan | Cyfanswm Net o'i gymharu â'r Amcan wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | | |
| **Pleidleisiwyd** | | | | | | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 4,331 | (51) | 4,280 | 43 | - | 43 | 4,323 | 4,799 | 476 | 476 | 3,936 |
| B Y Comisiwn ar Ddatganoli* | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 513 |
| **Cyfanswm y gwariant a bleidleisiwyd yn DEL** | **4,331** | **(51)** | **4,280** | **43** | **-** | **43** | **4,323** | **4,799** | **476** | **476** | **4,449** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME** | | | | | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | | | | | |
| C Darpariaethau | 18 | - | 18 | - | - | - | 18 | 20 | 2 | 2 | (21) |
| **Cyfanswm; Gwariant a bleidleisiwyd yn AME** | **18** | **-** | **18** | **-** | **-** | **-** | **18** | **20** | **2** | **2** | **(21)** |
| **Gwariant Di-gyllideb** | | | | | | | | | | | |
| D Grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | - | - | - | 13,547,659 | - | 13,547,659 | 13,547,659 | 13,692,029 | 144,370 | 144,370 | 13,482,462 |
| **Cyfanswm yr Amcangyfrif:** | - | - | - | 13,547,659 | - | 13,547,659 | 13,547,659 | 13,692,029 | 144,370 | 144,370 | 13,482,462 |
| **Cyfanswm yr Amgangyfrif a bleidleisiwyd** | **4,349** | **(51)** | **4,298** | **13,547,702** | **-** | **13,547,702** | **13,552,000** | **13,696,848** | **144,848** | **144,848** | **13,486,890** |

*Cwblhaodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ei waith ar 31 Mawrth 2014.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## SOPS2.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf net yn ôl adran

| | 2014-15 Alldro | | | 2014-15 Estimate | | | 2013-14 Alldro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Crynswth | Incwm | Net | Cyfanswm Net | Cyfanswm Net Alldro o'i gymharu â'r Amcan | Cyfanswm Net o'i gymharu â'r Amcan wedi'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau | Net |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Gwariant Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | |
| **Gwariant a bleidleisiwyd** | | | | | | | |
| A Swyddfa Cymru | 117 | – | 117 | 135 | 18 | 18 | 564 |
| **Cyfanswm y gwariant a bleidleisiwyd yn DEL** | 117 | – | 117 | 135 | 18 | 18 | 564 |
| **Cyfanswm yr Amcangyfrif:** | **117** | **–** | **117** | **135** | **18** | **18** | **564** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## SOPS3. Cysoni'r alldro â'r costau gweithredu net a'r Gyllideb Weinyddu

## SOPS3.1 Cysoni'r alldro adnodd net â'r costau gweithredu net

| | Nodyn | 2014-15 Alldro £000 | 2013-14 Alldro £000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm alldro adnodd yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol** | | | |
| Cyllideb | SOPS2.1 | 4,341 | 4,428 |
| Di-gyllideb | SOPS2.1 | 13,547,659 | 13,482,462 |
| | | **13,552,000** | **13,486,890** |
| **Ychwanegu:** | | | |
| Grantiau cyfalaf (net o gyfraniadau gan yr UE) | | - | - |
| Arall | | - | - |
| | | - | - |
| **Llai:** | | | |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfuno Cymru | | - | (1) |
| Arall | | | |
| | | - | **(1)** |
| **Costau Gweithredu Net yn y Datganiad Cyfunol ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr** | | **13,552,000** | **13,486,889** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## SOPS3. Cysoni'r alldro â'r costau gweithredu net a'r Gyllideb Weinyddu

### SOPS3.2 Alldro o'i gymharu â'r gyllideb Weinyddu derfynol a chostau gweithredu net Gweinyddu

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Terfyn Costau Gweinyddu – Amcan | 4,739 | 5,160 |
| Alldro – Costau Gweinyddu Crynswth | 4,349 | 4,415 |
| Alldro – Incwm Crynswth sy'n gysylltiedig â Chostau Gweinyddu | (51) | (30) |
| Alldro – Costau Gweinyddu Net | 4,298 | 4,385 |
| Cysoni â'r costau gweithredu: | | |
| Llai :darpariaethau a ddefnyddiwyd (trosglwydd o'r Rhaglen) | – | – |
| Llai: Arall | – | (1) |
| **Costau Gweithredu Net Gweinyddu** | **4,298** | **4,384** |

Mae rheolaeth Seneddol dros gostau gweinyddu'n berthnasol i adrannau'n unol â Phennod 11 yr FReM.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## SOPS4. Cysoni Alldro Adnodd Net â'r Gofyniad Arian Parod Net

| | Nodyn | Amcan | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r Amcan: arbediad / (dros ben) |
|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 |
| **Alldro Adnodd** | **SOPS2.1** | **13,696,848** | **13,552,000** | **144,848** |
| **Alldro Cyfalaf** | **SOPS2.2** | **135** | **117** | **18** |
| **Addasiad croniadau'n arian parod** | | | | |
| *Addasiadau i ddileu eitemau heb fod yn arian parod:* | | | | |
| Dibrisio | | (140) | (131) | (9) |
| Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | | (40) | (40) | – |
| Darpariaeth Adrannol heb ei Dyrannu | | | | |
| Gwariant cyfalaf a gefnogir (refeniw) | | | | |
| Addasiadau Cyfnod Blaenorol | | | | |
| Eitemau eraill heb fod yn arian parod | | (80) | (29) | (51) |
| *Addasiadau ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Anadrannol:* | | | | |
| Dileu adnoddau a chyfalaf a bleidleisiwyd | | | | |
| Ychwanegu cymorth grant arian parod | | | | |
| *Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:* | | | | |
| Croniadau cyfalaf | | | 539 | (539) |
| Cynyddu/(lleihau)'r stoc | | | | |
| Cynyddu/(lleihau) derbynadwyon | | | 62 | (62) |
| Cynyddu/(lleihau) taladwyon | | | (139) | 139 |
| Defnyddio darpariaethau | | 20 | 22 | (2) |
| **Dileu eitemau cyllideb nas pleidleisiwyd** | | | | |
| Gwasanaethau Sefydlog y Gronfa Gyfunol | | | | |
| Addasiadau eraill | | | | |
| **Gofyniad arian parod** | | **13,696,743** | **13,552,401** | **144,342** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## SOPS5. Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

## SOPS5.1 Dadansoddiad o'r Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

Yn ogystal ag incwm a gedwir gan yr adran, mae'r incwm canlynol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol (dangosir derbyniadau arian parod mewn teip italig).

| | | Alldro 2014-15 | | Alldro 2013-14 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Incwm | *Derbyniadau* | Incwm | *Derbyniadau* |
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Incwm Gweithredu y tu allan i gwmpas yr Amcangyfrif – Ernesau a gollwyd yn Etholiad y Cynulliad | 5 | – | – | 1 | 1 |
| Incwm Dros Ben | 5 | – | – | – | – |
| **Incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | **–** | **–** | **1** | **1** |

## 5.2 Incwm y Gronfa Gyfunol

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn nodyn 5 .1 yn cynnwys dim symiau a gasglwyd gan Swyddfa Cymru lle'r oedd yn asiant ar ran y Gronfa Gyfunol yn hytrach nag yn brif gorff. Y symiau a gasglwyd fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol (sydd wedi'u heithrio o'r datganiadau ariannol hyn fel arall) oedd:

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Incwm a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | *18,358* | *25,315* |
| | **18,358** | **25,315** |
| Swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | **18,358** | **25,315** |
| Balans ar ddechrau'r flwyddyn | – | – |
| Taliadau i'r Gronfa Gyfunol | 18,358 | 25,315 |
| Balans mewn ymddiriedaeth ar ddiwedd y flwyddyn | – | – |

Mae'r incwm ar gyfer 2014–15 yn codi o ad-dalu Benthyciadau Myfyrwyr £18,348,000, Tai Cymru £8,000 a Llog Banc £2,000.

**Cyfanswm yr incwm a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol ar 31 Mawrth 2015:**

| | 2014-15 | 2013-14 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| | 18,358 | 25,316 |
| | **18,358** | **25,316** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad ynghylch y Gwariant Net Cynhwysfawr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm cynhwysfawr arall sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill nad oes modd eu cydnabod eto'n incwm neu'n wariant.

| | Nodyn | 2014-15 Adran Graidd £000 | 2013-14 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau Gweinyddu** | | | |
| Costau Staff | 2.1 | 2,695 | 2,761 |
| Costau eraill | 3 | 1,654 | 1,654 |
| Incwm | 5 | (51) | (31) |
| **Gwariant ar Raglenni** | | | |
| Costau Staff | 2.1 | – | – |
| Costau eraill | 4 | 13,547,702 | 13,482,505 |
| Llog taladwy NLF | | 1,677 | 1,686 |
| Llog derbyniadwy NLF | | (1,677) | (1,686) |
| **Cost Gweithredu Net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015** | | **13,552,000** | **13,486,889** |
| Cyfanswm y Gwariant | | 13,552,051 | 13,486,920 |
| Cyfanswm yr Incwm | | (51) | (31) |
| **Cost Gweithredu Net ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015** | | **13,552,000** | **13,486,889** |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr arall** | | | |
| **Cost Gweithredu Net** | | 13,552,000 | 13,486,889 |
| **Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i'r costau gweithredu net** | | | |
| (Enillion) / colledion net ar ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | | 81 | (385) |
| **Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr net ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015** | | **13,552,081** | **13,486,504** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad ynghylch y Sefyllfa Ariannol
# Ar 31 Mawrth 2015

Mae'r datganiad hwn yn dangos sefyllfa ariannol Swyddfa Cymru. Mae'n cynnwys tair prif elfen: asedau sy'n eiddo neu'n cael eu rheoli; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, gwerth gweddilliol yr endid.

| | Note | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 6 | 4,749 | 4,844 |
| Asedau ariannol | 10 | 11,419 | 11,487 |
| Derbyniadwyon sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 11.1 | 33 | 29 |
| ***Cyfanswm asedau anghyfredol:*** | | 16,201 | 16,360 |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Derbyniadwyon masnachol ac eraill | 11.1 | 284 | 226 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 9 | 49 | 181 |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | 333 | 407 |
| **Cyfanswm Asedau** | | 16,534 | 16,767 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 12.1 | (1,098) | (1,630) |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | (1,098) | (1,630) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol net** | | **15,436** | **15,137** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 13 | (86) | (68) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 12.1 | (11,419) | (11,487) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | (11,505) | (11,555) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **3,931** | **3,582** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 1,124 | 607 |
| Cronfa ailbrisio | | 2,807 | 2,975 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **3,931** | **3,582** |

**Glynne Jones**
**Swyddog Cyfrifyddu**

**24 Mehefin 2015**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Llif Arian
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod Swyddfa Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae Swyddfa Cymru yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod drwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n codi o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol ar gyfer costau gwasanaethau ac i ba raddau y mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu hariannu drwy incwm gan dderbynwyr gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli i ba raddau y mae llifau arian parod i mewn ac allan wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau y bwriadwyd iddynt gyfrannu at y gwasanaethau cyhoeddus y mae'r Adran yn bwriadu eu darparu yn y dyfodol. Mae'r llif arian sy'n codi yn sgil gweithgareddu ariannu'n cynnwys Cyflenwad Seneddol a ffynonellau llif arian eraill, gan gynnwys benthyca.

| | Nodyn | 2014-15 £000 | 2013-14 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Cost Gweithredu Net | SOCNE | (13,552,000) | (13,486,889) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | 3 | 200 | 128 |
| (Cynnydd/(Lleihad) derbynadwyon masnach ac eraill | 11.1 | (62) | (19) |
| *Llai: Symudiadau mewn derbyniadwyon sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr1* | | | 7 |
| Cynnydd/(Lleihad) taladwyon masnach ac eraill | 12.1 | (600) | 266 |
| *Llai: Symudiadau mewn taladwyon sy'n berthnasol i eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr*[1] | | 739 | (273) |
| Defnyddio darpariaethau | 13 | (22) | (21) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(13,551,745)** | **(13,486,801)** |
| **Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | | (656) | (19) |
| (Ad-dalu benthyciadau) gan gyrff eraill | | 67 | 59 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(589)** | **40** |
| **Llif arian o weithgareddu ariannu** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwead) - Blwyddyn Gyfredol [2] | | 13,552,269 | 13,486,612 |
| Ad-dalu benthyciadau gan yr NLF | | (67) | (59) |
| **Ariannu net** | | **13,552,202** | **13,486,553** |
| **Cynnydd / (leihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | (132) | (208) |
| Derbyniadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol sydd y tu allan i gwmpas gweithgarteddau'r Adran | SOPS5 | 18,358 | 25,316 |
| Taliadau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol[4] | SOPS5 | (18,358) | (25,316) |
| **Cynnydd / (leihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 9 | **(132)** | **(208)** |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod** | 9 | **181** | **389** |
| **Arian a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod** | 9 | **49** | **181** |

1. Mae symudiadau'n cynnwys: balansau adrannol gyda'r Gronfa Gyfunol: a thaliadwyon sy'n gysylltiedig ag ariannu - benthyciadau NLF (prif a llog), dyledwyr cyfalaf, lesiau cyllid a PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill
2. Dyma'r swm a dderbynnir o'r Gronfa Gyfunol gyda golwg ar y flwyddyn gyfredol.
3. Mae hyn yn cynnwys benthyciadau a ad-delir gan endidau i'w trosglwyddo ymlaen i'r NLF a'r llog a geir gan endidau am drosglwyddiadau i'r NLF.
4. Arian parod a delir i'r Gronfa Gyfunol o dan unrhyw gategori.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad ynghylch Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan Swyddfa Cymru, wedi'u dadansoddi ar ffurf cronfeydd wrth gefn cyffredinol' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n dangos cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae ariannu a'r balans yn sgil darparu gwasanaethau wedi'u cofnodi yma. Mae'r Gronfa Ailbrisio'n dangos newid yng ngwerthoedd yr asedau sydd heb gael eu cydnabod in incwm neu'n wariant.

| | Nodyn | Y Gronfa Gyffredinol £000 | Y Gronfa Ailbrisio £000 | Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | | 635 | 2,598 | 3,233 |
| Newidiadau yn y polisi cyfrifyddu | | - | - | - |
| **Balans ar 1 Ebrill 2013** | | **635** | **2,598** | **3,233** |
| **Cyllid Seneddol Net** | | | | |
| - Wedi'i dynnu i lawr | | 13,486,612 | - | 13,486,612 |
| - Tybiedig | | 389 | - | 389 |
| Cyflenwad heb ei wario wedi'i dynnu i lawr i'w ad-dalu i'r Gronfa Gyfunol | 12.1 | (181) | - | (181) |
| CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | | (1) | - | (1) |
| Gwariant Cynhwysfawr Net ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (13,486,889) | - | (13,486,889) |
| **Taliadau heb fod yn arian parod** | | | | |
| Tâl i'r archwilydd | 3 | 29 | - | 29 |
| **Symudiadau Eraill rhwng Cronfeydd** | | | | |
| - Eiddo, Peiriannau ac Offer | | - | 385 | 385 |
| - Arall | | 5 | - | 5 |
| **Symudiadau rhwng Cronfeydd** | | | | |
| - Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | | 8 | (8) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | **607** | **2,975** | **3,582** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2014** | | 607 | 2,975 | 3,582 |
| **Cyllid Seneddol Net** | | | | |
| - Wedi'i dynnu i lawr | SCF | 13,552,269 | - | 13,552,269 |
| - Tybiedig | 12.1 | 181 | - | 181 |
| Cyflenwad heb ei wario wedi'i dynnu i lawr i'w ad-dalu i'r Gronfa Gyfunol | 12.1 | (49) | - | (49) |
| CFERs sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 5 | - | - | - |
| Gwariant Cynhwysfawr Net ar gyfer y flwyddyn | SOCNE | (13,552,000) | - | (13,552,000) |
| **Taliadau heb fod yn arian parod** | | | | |
| - Tâl i'r archwilydd | 3 | 29 | - | 29 |
| **Symudiadau Eraill rhwng Cronfeydd** | | | | |
| - Eiddo, Peiriannau ac Offer | | - | (81) | (81) |
| - Arall | | - | - | - |
| **Symudiadau rhwng Cronfeydd** | | | | |
| - Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | | 87 | (87) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | | **1,124** | **2,807** | **3,931** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau am y Cyfrifon am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015

## 1a) Datganiad ynghylch polisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail y paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi'n unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2014-15 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y FReM yn dilyn Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRSS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bydd yr FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi y barnwyd ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Swyddfa Cymru at ddibenion rhoi golwg cywir a theg. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Swyddfa Cymru wedi'u disgrifio isod. Maent wedi cael eu rhoi ar waith yn gyson wrth ymdrin â'r eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon hyn.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r FReM hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Cymru baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau sy'n gefn iddo'n adrodd am yr alldro o'i gymharu â'r Amcangyfrif gyda golwg ar y gofyniad o ran adnoddau net a'r gofyniad o ran arian parod net.

Yr arian cyfred a ddefnyddir ac a gyflwynir gan Swyddfa Cymru yw Punt Sterling Prydain (£).

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r Cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol er mwyn rhoi cyfrif am ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer, a rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol penodola.

### 1.3 Segmentau gweithredu

Ysytrir bod Swyddfa Cymru yn darparu un swyddogaeth ac o ran adrodd o dan IFRS, fe'i hystyrir yn un segment gweithredu.

### 1.4 Eiddo, Peiriannau ac Offer

*Sail y prisio*

Caiff asedau eiddo, peiriannau a chyfarfar (PPE) eu datgan ar sail gwerth teg. Wrth eu cydnabod i ddechrau, caiff asedau PPE eu mesur ar sail cost gan gynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'w rhoi mewn cyflwr gweithio. uniongyrchol i'w rhoi mewn cyflwr gweithio.

*Y dull prisio*

Mae gan Swyddfa Cymru un ased eiddo – Tŷ Gwydyr – a gynhwysir ar sail ei werth teg, yn unol â dehongliad yr FReM, ar sail prisiad proffesiynol, a gynhelir o leiaf unwaith bob pum mlynedd

Bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn cwblhau prisiadau proffesiynol gan ddefnyddio Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), a elwir yn 'Llyfr Coch'.

Rhwng prisiadau proffesiynol, bydd y gwerthoedd ar bapur yn cael eu haddasu drwy ddefnyddio mynegeion neu drwy wneud prisiadau pen-desg.

Mae Tŷ Gwydyr yn cael ei gategoreiddio'n adeilad rhestredig gradd 2* ac fe'i prisir ar sail 'Defnydd Presennol' yn unol â'r Llyfr Coch, gan ystyried darfodedigrwydd swyddogaethol yr eiddo.

Caiff asedau di-eiddo'u cynnwys ar sail eu cost adeg eu prynu a'u hailddatgan bob dyddiad adrodd gan ddefnyddio'r Mynegrifau Pris ar gyfer Cyfrifyddu Costau Cyfredol (PINCCA) a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

*Ailbrisio*

Pan fydd gwerth ar bapur ased yn cynyddu ar ôl ailbrisio, bydd y cynnydd hwnnw'n cael ei gydnabod yn y Datganiad ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr, i'r graddau ei fod yn gwyrdroi'r lleihad wrth ailbrisio'r un ased a gydnabuwyd cyn hynny yn y Datganiad ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr. Bydd unrhyw gynnydd sy'n weddill yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Ailbrisio yn ecwiti'r Trethdalwyr.

Pan fydd gwerth ar bapur ased yn lleihau (ac eithrio o ganlyniad i leihad parhaol), caiff y lleihad hwnnw ei gydnabod yn y gronfa Ailbrisio i'r graddau bod balans yn bodoli yng nghyswllt yr ased honno. Bydd unrhyw leihad wedyn sy'n fwy na'r gweddill ailbrisio'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Bob blwyddyn, bydd y gwahaniaeth rhwng dibrisio ar sail gwerth ar bapur ased sydd wedi'i ailbrisio yn y Datganiad ynghylch Gwariant Net Cynhwysfawr a'r dibrisio sy'n seiliedig ar gost wreiddiol yr ased yn cael ei throsglwyddo o'r gronfa Ailbrisio i'r Gronfa Gyffredinol.

*Trothwy cyfalafu - asedau unigol*

Trothwy cyfalafu Swyddfa Cymru ar gyfer asedau unigol yw £1,000 (gan gynnwys TAW).

*Trothwy cyfalafu - asedau wedi'u grwpio*

Mae gan Swyddfa Cymru gronfa fach o asedau ar gyfer dodrefn a ffitiadau sydd wedi cael ei chyfalafu.

Bydd Swyddfa Cymru'n defnyddio trothwy cyfalafu ar gyfer asedau wedi'u grwpio sef £10,000 ( gan gynnwys TAW).

*Dibrisio*

Mae dibrisio'n cael ei gofnodi ar sail llinell syth ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau, llai eu hamcan-werth gweddilliol, a hynny'n gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol dybiedig neu, ar gyfer asedau dan brydles, dros oes y brydles neu'r cyfnod sydd ymhlyg yn y rhaglen ad-dalu,. Bydd oes ddefnyddiol asedau neu gategorïau o asedau'n cael eu hadolygu bob blwyddyn ac fe drafodir unrhyw newidiadau â'r awdurdodau perthnasol i sicrhau bod y goblygiadau cyllidebu wedi'u hystyried yn iawn. Os cytunir i newid oes ased, caiff yr ased ei ddibrisio ar sail llinell syth dros weddill ei oes dybiedig. Bydd y dibrisio'n dechrau yn y mis ar ôl caffael ased anghyfredol ar gyfer tir, adeiladau ac aneddiadau ac o fewn y mis ar gyfer pob ased anghyfredol arall.

Bydd oes ddefnyddiol dybedig asedau'n dod o fewn yr ystodau a ganlyn

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliad | Dim dibrisio |
| Adeiladau rhydd-ddaliad (gan gynnwys aneddiadau) | Dibrisio dros oes yr asedau (hyd at 60 mlynedd) |
| Asedau wedi'u grwpio | Amrywiol, a dibynnu ar y mathau o asedau unigol |
| Technoleg gwybodaeth | Gweddill cyfnod y brydles neu rhwng 3 a 15 mlynedd, pa un bynnag yw'r byrraf |
| Peiriannau ac offer | Gweddill cyfnod y brydles neu rhwng 3 ac 20 mlynedd, pa un bynnag yw'r byrraf |
| Dodrefn a ffitiadau | Gweddill cyfnod y brydles neu rhwng 5 ac 20 mlynedd, pa un bynnag yw'r byrraf |
| Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu | Dim dibrisio |

Bydd y gwerthoedd ar bapur yn cael eu hadolygu ar gyfer amhariad os bydd digwyddiadau neu newid yn yr amgylchiadau'n awgrymu na fyddai modd adennill y gwerth ar bapur. Os penderfynir bod amhariad ar ased, gostyngir gwerth yr ased ar unwaith i'r swm y gellir ei adfer.

*Gwaredu asedau anghyfredol*

Caiff enillion a cholledion wrth waredu asedau anghyfredol eu pennu drwy gymharu'r elw â'r gwerth ar bapur ac fe gaiff y rhain eu cydnabod o dan gostau Gweinyddu neu Raglenni, fel sy'n briodol, yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Pan gaiff asedau sydd wedi'u hailbrisio'u gwerthu, caiff y symiau a gynhwysir yn y gronfa Ailbrisio eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.5 Asedau wrthi'n cael eu hadeiladu

Caiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu prisio ar sail eu cost hanesyddol o dan eiddo, peiriannau ac offer ac ni chaiff asedau Anniriaethol eu dibrisio na'u hamorteiddio. Bydd ased yn peidio â chael ei gategoreiddio'n ased sydd wrthi'n cael ei adeiladu pan fydd yn barod i'w ddefnyddio. Wedyn, bydd ei werth ar bapur yn cael ei dynnu o'r asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu ac yn cael ei drosglwyddo i'r categori asedau perthnasol Wedyn bydd y drefn ddibrisio neu amorteiddio'n cael ei dilyn ar gyfer y asedu yn unol â'r polisi cyfrifyddu perthnasol.

Caiff y gwariant ei gyfalafu lle y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio. Os tybir nad yw'r gwariant yn briodoladwy i'r ased, fe'i priodolir i'r SOCNE.

## 1.6 Asedau Anniriaethol

Nid oes gan Swyddfa Cymru ddim asedau anniriaethol

## 1.7 Prydlesi

*Prydlesi ariannol*

Nid oes gan Swyddfa Cymru ddim prydlesi ariannol

*Prydlesi gweithredol*

Bydd prydlesi lle bydd yr holl risgiau a'r gwobrwyon, 'fwy neu lai' yn nwylo'r prydlesydd yn cael eu hystyried yn brydlesi gweithredol. Cofnodir rhenti prydlesi gweithredol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

*Trefniadau sy'n cynnwys prydles*

Wrth benderfynu a yw Swyddfa Cymru'n barti i brydles, bydd contractau nad ydynt ar ffurf gyfreithiol prydles ond sydd efallai'n cynnwys prydles o'u mewn, er enghraifft trefniadau contract allanol a chontractau cymryd-neu-dalu, yn cael eu hasesu'n unol â'r meini prawf a bennwyd gan IFRIC (Pwyllgor Dehongliadau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol) 4 'Determining Whether an Arrangement Contains a Lease'. Bydd y contract yn cael ei ystyried yn brydles os bydd cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio ased neu asedau penodol a bod y trefniant yn cyfleu hawl i ddefnyddio'r ased. Wedyn, bydd y trefniant yn cael ei asesu o dan IAS 17 er mwyn penderfynu a gaiff ei ddosbarthu'r brydles ariannu ynteu'n brydles weithredol.

## 1.8 Buddsoddiadau

*Y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (NLF)*

Bydd benthyciadau gan y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (NLF) yn cael eu trin yn fuddsoddiadau a'u datgelu ar sail cost hanesyddol. Mae'r balansau yn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau gan yr NLF sy'n cael eu benthyca ymlalen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a hynny'n wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Wedyn, fe'u trosglwyddwyd i Fwrdd Datblygu Gwledig Cymru yn yr 1980au; ac yna i Awdurdod Datblygu Cymru, pan ddiddymwyd y Bwrdd Datblygu Gwledig yn 1998. Ar ôl diddymu Awdurdod Datblygu Cymru

yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prif fenthyciad a'r llog ac mae'n cael ei briodoli i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru'n cael eu hildio i'r NLF. Bydd balansau benthyciadau sydd heb eu talu'n ôl yn cael eu cynnwys o fewn Taladwyon Masnach ac eraill a Rhwymedigaethau Ariannol.

## 1.9 Buddion Gweithwyr

*Croniadau gwyliau gweithwyr*

O dan IAS 19 *'Employee Benefits'* gwneir croniadau ar gyer gwyliau blynyddol heb eu cymryd a gwyliau hyblyg. Ni chaiff bonysau perfformiad eu cronni oherwydd nad yw'r broses arfarnu flynyddol sy'n pennu tâl am berfformiad wedi dod i ben adeg paratoi'r Cyfrifon hyn.

*Pensiynau*

Mae gweithwyr y gorffennol a'r presennol yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cynlluniau di-gyfraniad heb eu hariannu yw'r cynlluniau buddion diffiniedig ac eithrio yng nghyswllt buddion i ddibynyddion. Mae'r Adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod pan fydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr drwy dalu symiau i'r PCSPS sydd wedi'u cyfrifyddu ar sail gronnus. Mae'r rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei phriodoli i'r PCSPS. Gyda golwg ar y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, bydd yr adran yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn.

*Costau ymadael yn gynnar*

Nid yw Swyddfa Cymru'n gyflogwr uniongyrchol. Mae'r staff i gyd naill ai wedi'u cyflogi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu gan Lywodraeth Cymru a chyfrifoldeb yr adrannau hyn yw talu costau ychwanegol buddion y tu hwnt i PCSPS arferol staff sy'n ymddeol yn gynnar. O dan amgylchiadau penodol, lle bydd Swyddfa Cymru wedi cytuno i dalu'r costau, darperir costau ymadael yn gynnar yn llawn ar yr adeg y bydd y cytundeb yn gyfrwymol. Rhoddir disgownt i'r amcan lif arian wedi'i addasu ar gyfer risg gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EM, sef 1.3% (2013-14: 1.8%) mewn termau real os bydd yn berthnasol.

## 1.10 Incwm gweithredol

Mae incwm gweithredol yn cynnwys incwm a enillir gan yr Adran ac incwm sy'n cael ei ildio pan dderbynnnir ef i'r Gronfa Gyfunol fel Derbyniaidau Ychwanegol.

## 1.11 Derbyniadau Ychwanegol i'r Gronfa Gyfunol (CFERs)

Cyfrifyddir balansau CFER ar sail croniadau, oni nidor yn wahanol. Bydd y rhan yn berthnasol gan mwyaf i'r symiau a dderbyniwyd yn wreiddiol gan gyrff datganoledig penodol yng Nghymru sydd wedi cael eu dynodi gan y Trysorlys o dan Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd Gweinidogion Cymru'n talu'r symiau hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol a'u priodoli i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd Swyddfa Cymru hefyd yn derbyn symiau drwy adennill symiau a gollir yn etholiadau'r Cynulliad. Bydd Swyddfa Cymru yn talu'r symiau a dderbynnir i Gronfa Gyfunol y Deyrnas Unedig.

## 1.12 Gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni

Mae'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr Net yn cynnwys gwariant ar weinyddu ar gyfer costau cynnal Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghyd â gwariant ar raglenni ar gyfer treuliau'r Arglwydd-Raglawiaid a'r grant sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## 1.13 Costau heb fod yn arian parod

*Ffioedd Archwilio*

Mae costau sydd heb fod yn arian parod yn cynrychioli ffi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol.

## 1.14 Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan Swyddfa Cymru rwymedigaeth gyfreithiol neu atebolrwydd cyfredol, yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol, a'i bod yn debygol y bydd gofyn cael all-lif o fuddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth, a bod modd cynnig amcangyfrif dibynadwy ar gyfer swm y rhwymedigaeth.

Darpariaethau yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen er mwyn setlo'r rhwymedigaeth. Lle bydd effaith disgowntio'n berthnasol, mesurir y darpariaethau ar sail eu gwerth presennol gan ddefnyddio'r gyfradd wirioneddol a bennir gan Drysorlys EM, sef 2.2% ar hyn o bryd; er mwyn gallu cymharu, y cyfraddau yn 2013-14 oedd 2.2%.

## 1.15 Treth ar Werth (TAW)

Priodolir TAW anadferadwy i'r categori gwariant perthnasol neu fe'i cynhwysir yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu asedau anghyfredol. Lle bydd treth allbwn yn cael ei chodi neu lle bydd treth fewnbwn yn adferadwy, datgenir y symiau net o TAW.

## 1.16 Offerynnau Ariannol

Bydd asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sy'n codi yn sgil contractau i brynu a gwerthu eitemau anariannol (megis nwyddau neu wasanaethau), yn unol â gofynion prynu, gwerthu neu ddefnyddio arferol Swyddfa Cymru, yn cael eu cydnabod pan fydd y perfformiad yn digwydd, ac i'r graddau y bydd hynny'n digwydd. Bydd pob ased a rhwymedigaeth ariannol arall yn cael ei gydnabod pan fydd Swyddfa Cymru'n dod yn barti i'r darpariaethau contractaidd i dderbyn neu wneud taliadau arian parod. Bydd rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dadgydnabod pan fydd y contract sy'n eu creu'n cael ei setlo, ei werthu, ei ganslo neu'n dod i ben.

*Categoreiddio a mesur - asedau ariannol*

Yn ogystal ag Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod, mae gan Swyddfa Cymru ddau gategori o asedau ariannol:

*Benthyciadau a derbyniadwyon*

Mae benthyciadau a derbynadwyon yn cynnwys debynadwyon masnach, derbynadwyon a benthyciadau eraill sydd â thaliadau penodedig neu benadwy sydd heb ey dyfynnu mewn marchnad fyw. Bydd benthyciadau a derbynadwyon yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar sail gwerth teg ac fe'u mesurir wedyn ar sail cost amorteiddedig gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol net o unrhyw amhariad. Cydnabyddir y llog drwy ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol. Dull o gyfrifo cost amorteiddedig ased ariannol yw'r gyfradd llog aeffeithiol a dull o ddyrannu refeniw neu gost y llog dros y cyfnod perthnasol gan ddefnyddio amcan lifau arian y dyfodol

## 1.17 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod a gofnodir yn y Datganiad ynghylch y Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Llif Arian yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon a gedwir ar alwad gyda'r banciau, buddsoddiadau hylifol iawn tymor byr sy'n aeddfedu yn y lle cyntaf ymhen tri mis neu lai, a gorddrafftau banc.

## 1.18 Amcangyfrifon a thybiaethau cyfrifyddu arwyddocaol

Mae'r Cyfrifon yn adlewyrchu amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Yn ôl eu diffiniad, nid yw'r amcangyfrifon yn debygol o fod yr un fath â'r canlyniadau gwirioneddol. Bydd amcangyfrifon yn cael eu gwerthuso'n barhaus a'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys disgwyliadau ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Rhoddir sylw isod i'r amcangyfrifon a'r tybiaethau y mae risg sylweddol iddynt achosi addasiad o bwys i symiau ar bapur yr asedau a'r rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

*Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau*

Mae'r darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau yr adroddwyd yn eu cylch yn nodyn 13 yn adlewyrchu barn am y tebygolrwydd y bydd trosglwyddo buddion economaidd yn digwydd yn y dyfodol yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol. Lle y tybir ei bod yn debygol y bydd rhwymedigaeth yn codi a lle bydd modd mesur yr effaith yn rhesymol sicr, cydnabyddir darpariaeth. Lle y bernir ei bod yn bosibl i rwymedigaeth godi, datgelir rhwymedigaeth wrth gefn.

*Cyfrifyddu prydlesi*

Mae angen barnu wrth gategoreiddio prydlesi yn y lle cyntaf ai prydlesi gweithredol ynteu brydlesi ariannol ydynt.

Lle bydd prydles yn cael ei chodi ar gyfer tir ac adeiladau ynghyd, ceir cyfalafu elfen yr adeilad ac elfen y tir fel prydlesi ariannu ar wahân os byddnt yn bodloni meini prawf prydles ariannu. Os na chaiff taliadau prydles y contract eu rhannu rhwng tir ac adeiladau yng nghontract y brydles, rhennir ar sail gwerthoedd y tir a'r adeiladau ar y farchnad pan fydd y brydles yn cychwyn.

## 1.19 Safonau cyfrifyddu sydd newydd eu cyhoeddi ond heb eu rhoi ar waith eto

Gallai'r safonau, y dehongliadau a'r diwygiadau newydd a ganlyn, nad ydynt yn ar waith eto, effeithio ar gyfrifon Swyddfa Cymru yn y dyfodol:-

IAS 1 – Cynllun Datgelu (diwygiad). ar waith o 1 Ionawr 2016 ymlaen, (heb ei fabwysiadu gan yr UE eto).

Mae'r diwygiadau hyn yn annog pobl i ddefnyddio crebwyll proffesiynol wrth benderfynu pa wybodaeth i'w datgelu mewn datganiadau ariannol ac ymhle ac ym mha drefn y cyflwynir gwybodaeth yn y datgeliadau terfynol. Mae'r gwelliannau'n ei gwneud yn glir bod a wnelo perthnasedd â'r holl ddatganiadau ariannol ac y gall cynnwys gwybodaeth amherthnasol darfu ar ddefnyddioldeb y datgeliadau ariannol. Bydd Trysorlys EM yn adolygu goblygiadau'r diwygiaid hwn ac yn dilyn y broses ddyladwy yn nes at ddyddiad mabwysiadu'r cynllun gan yr UE.

IFRS 9 – Offerynnau Ariannol (effeithiol o 1 Ionawr 2018, heb eu mabwysiadu gan yr UE eto). Amcan y Safon hon yw rhoi gwybodaeth fwy defnyddiol i ddefnyddwyr am golledion disgwyliedig endid bob amser a diweddaru swm y colledion credyd a ddisgwylir a gydnabyddir ar bob dyddiad adrodd ar yr offerynnau ariannol. Roedd IFRS 9 yn cynnig un dull categoreiddio a mesur ar gyfer pob math o ased ariannol; naill ai fel costau wedi'u hamorteiddio neu werth teg naill ai drwy'r OCI neu'n weddilliol drwy Elw a Cholled. Mae IFRS 9 yn dwyn ymlaen heb eu newid bron bob un o'r gofynion cyfrifyddu yn IAS 39 ar gyfer rhwymedigaethau ariannol. Mae'r Safon hefyd yn cynnwys un model amhariad "colled ddisgwyliedig" sy'n edrych tua'r dyfodol a roddir ar waith ar gyfer pob offeryn ariannol, ac mae'n cyflwyno model diwygiedig ar gyfer cyfrifyddu rhagfantoli sydd yn y bôn yn cysoni'r driniaeth gyfrifyddu â gweithgareddau reoli risg. Bydd cyflwyno IFRS 9 yn dibynnu ar ddadansoddi ac adolygu gan Drysorlys EM.

IFRS 13 – Mesur Gwerth Teg (effeitiol o 1 Ionawr 2013). Mae'r safon hon wedi'i pharatoi i gynnig canllawiau cyson am fesur gwerthoedd teg ar gyfer pob balans a thrafodion perthnasol sy'n dod o dan AFRS ( ac eithrio lle bydd IFRS 13 yn dweud yn wahanol). Bydd IFRS 13 yn cael ei roi ar waith a dibynnu ar adolygiad pellach gan Drysorlys EM.

IAS 16 ac IAS 38 – Egluro'r dulliau derbyniol o ddibrisio ac amorteiddio (Diwygiad). 1 Ionawr 2016 Mae'r gwelliant hwn yn gwahardd dulliau dibriso seiliedig ar refeniw ac mae'n tybio'n gyffredinol bod dulliau o'r fath yn sail amhriodol ar gyfer amorteiddio asedau anniriaethol. Y rheswm dros hyn yw bod dull seiliedig ar refeniw'n adlewyrchu patrwm o gynhyrchu buddion economaidd o'r ased, yn hytrach na bod patrwm defnyddio disgwyliedig y buddion economaidd yn y dyfodol yn rhan o'r ased. Bydd Trysorlys EM yn adolygu goblygiadau'r diwygiaid hwn ac yn dilyn y broses ddyladwy yn nes at ddyddiad mabwysiadu'r cynllun gan yr UE.

IAS 17 – Prydlesi disodli (Cynllun ISAB yw cyhoeddi hyn erbyn diwedd 2015). Mae'r cynigion presennol yn cynnwys dileu'r categori presennol ar gyfer prydlesi gweithredol ar gyfer pob prydles fwy neu lai. Bydd asedau a rhwymedigaethau'n cael eu cydnabod ar sail "hawl defnyddio", ond rhagwelir dwy eithriad bosibl, un ar gyfer prydlesi byr (llai na blwyddyn) a'r ail ar gyfer asedau isel eu gwerth. Cyhoeddodd y Byrddau (ISAB ac FASB) 'Exposure Draft Leases' diwygiedig ym mis Mai 2013. Ar ôl cael ymateb i'w cynigion, cyhoeddwyd diweddariad i'r prosiect ym mis Chwefror a mis Mawrth 2015. Roedd y diweddariadau'n cadarnhau'r diffiniad o brydles o dan y Safon newydd. Mae'n pwysleisio nad oes gofyn cyfalafu contractau gwasanaeth ar y Datganiad ynghylch y Sefyllfa Ariannol ac y bydd y Safon newydd yn cynnwys canllawiau i helpu endidau i benderfynu a yw contract yn brydles (neu'n cynnwys prydles). Bydd Trysorlys EM yn adolygu'r goblygiadau ac yn dilyn y broses ddyladwy pan fydd safon derfynol ar gael.

Ni ddisgwylir y caiff y safonau uchod sydd i'w mabwysiadu effaith berthnasol ar Swyddfa Cymru

## 2. Nifer staff achostau cysylltiedig

## 2.1 Nifer staff a chostau cysylltiedig

| | Staff a Gyflogir yn Barhaol a Secondeion i mewn | Eraill | Gweinidogion | Cynghorwyr Arbennig | 31 Mawrth 2015 Cyfanswm | 31 Mawrth 2014 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 1,500 | 570 | 84 | 81 | 2,235 | 2,196 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 141 | – | 7 | 10 | 158 | 188 |
| Costau pensiwn eraill | 299 | – | – | 3 | 302 | 377 |
| **Is-gyfanswm** | 1,940 | 570 | 91 | 94 | 2,695 | 2,761 |
| Llai adenillion ar gyfer secondiadau allan | – | – | – | – | – | – |
| **Cyfanswm Costau Net** | **1,940** | **570** | **91** | **94** | **2,695** | **2,761** |
| Ac o hynny: | | | | | | |
| Priodolwyd i Gostau Gwein | 1,940 | 570 | 91 | 94 | 2,695 | 2,761 |
| Priodolwyd i Gostau Rhaglenni | – | – | – | – | – | – |
| | **1,940** | **570** | **91** | **94** | **2,695** | **2,761** |

**Cwblhaodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ei waith ar 31 Mawrth 2014. Costau'r staff i'w priodoli i'r i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yn 2013-14 oedd:**

| | |
|---|---|
| Cyflogau wythnosol a misol | 214 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 22 |
| Costau pensiwn eraill | 42 |
| **Is-gyfanswm** | **278** |
| Llai adenillion ar gyfer secondiadau allan | - |
| **Cyfanswm Costau Net** | **278** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 2.2 Nifer gyfartalog y staff a gylogwyd yn Swyddfa Cymru

Dangosir nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn y tabl isod.

| | | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|---|
| **Adran Graidd** | | | |
| | **Staff parhaol** | 43.0 | 46.0 |
| | **Eraill** | 6.0 | 4.0 |
| | **Gweinidogion** | 2.0 | 2.0 |
| | **Cynghorwyr Arbennig** | 1.0 | 1.0 |
| | **Cyfanswm** | **52.0** | **53.0** |
| **Cyfanswm Adran Graidd** | | **52.0** | **53.0** |

Mae nifer gyfartalog y staff yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2015 yn cynnwys wyth o staff a oedd ar fenthyciad gan adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr heb ei ariannu, ond ni all Swyddfa Cymru nodi ei chyfran hi o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2007 ac mae'r manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Civil Superannuation at www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2014-15, roedd cyfraniadau'r cyflogwr at bensiynau, gwerth £302k (2013-14: £377k) yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair gyfradd rhwng 16.7% a 24.3% (2013-14: rhwng 16.7% a 24.3%) o'r cyflog pensiynadwy, wedi'i seilio ar fandiau cyflog. Bydd actwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd ar ôl prisio'r cynllun llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan fydd y costau'n codi mewn gwirionedd, ac roeddent yn yn adlewyrchu'r profiad a gafwyd o'r cynllun yn y gorffennolreflected past experience of the scheme.

Caiff gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau gan y cyflogwr gwerth (2013-14: £0) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 3.0% i 12.5% ( 2013-14: 3.0% i 12.5%) o'r cyflog pensiynadwy. Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniadau sy'n cyfateb i gyfraniadau'r gweithwyr hyd at 3.0% o'r cyflog pensiynadwy.

At hynny, roedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr gyfwerth â 0.8% o'r cyflog pensiynadwy'n daladwy i'r PCSPS i dalu am gost darparu buddion cyfandaliadau yn y dyfodol pan fyddai gweithiwr sydd yn y cynllun PCSPS yn marw yn ystod ei wasanaeth neu'n ymddeol oherwydd afiechyd

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i bartneriaid darparwyr y pensiwn adeg dyddiad y cyfnod adrodd oedd £0 (2013-14: £0).

Nid ymddeolodd neb yn ystod 2014-15 (2013-14: Dim) oherwydd afiechyd.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 3. Costau Gweinyddu Eraill

| | Nodyn | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|---|
| Adeiladau, cynnal a chadw a chyfleustodau | | 482 | 518 |
| Cyfathrebu, cyflenwadau swyddfa a gwasanaethau | | 56 | 51 |
| Rhenti o dan brydlesi gweithredol: tir ac adeiladau | | 34 | 175 |
| Rhenti o dn brydlesi gweithredol: eraill (peiriannau, offer, cerbydau ac ati) | | 96 | 123 |
| Taliadau consesiwn gwasanaeth: Eiddo | | – | – |
| Taliadau consesiwn gwasanaeth: TG | | – | – |
| Taliadau consesiwn gwasanaeth: Arall | | 19 | 17 |
| Taliadau cyllid ar brydlesi a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | – | – |
| Gwasanaethau TG a thelathrebu (trefniadau consesiwn dim gwasanaeth) | | 51 | 65 |
| Gwasanaethau eraill sy'n cael eu trefnu dan gontract | | 14 | 17 |
| Ffioedd trawsgrifo | | – | – |
| Gwasanaethau proffesiynol | | 3 | 58 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 152 | 200 |
| Cynllun Ymadael yn Gynnar yn Wirfoddol | | 211 | – |
| Hyfforddiant a chostau eraill cysylltiedig â staff | | 13 | 36 |
| Ffioedd a thaliadau banc | | 2 | 2 |
| Gwariant ar ymchwil a datblygu | | – | 29 |
| Gwariant arall ar weinyddu | | 47 | 89 |
| Digwyddiadau a Chynadleddau | | 128 | – |
| Dyrannu gorbenion | | 146 | 146 |
| **Eitemau heb fod yn arian parod** | | | |
| Dibrisio | | 131 | 99 |
| Taliadau tybiannol | | – | – |
| Taliadau a threuliau archwilwyr | | 29 | 29 |
| Darpariaeth y darperir ar ei chyfer yn y flwyddyn | | 40 | – |
| **CYFANSWM** | | **1,654** | **1,654** |

***Cwblhaodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ei waith ar 31 Mawrth 2014. Y costau gweinyddu eraill i'w priodoli i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru yn 2013-14 oedd:***

| | 2015 | 2014 |
|---|---|---|
| Adeiladau, cynnal a chadw a chyfleustodau | – | 28 |
| Cyfathrebu, cyflenwadau swyddfa a gwasanaethau | – | 2 |
| Rhentu o dan brydlesi gweithredol: tir ac adeiladau | – | 69 |
| Rhentu o dn brydlesi gweithredol: eraill (peiriannau, offer, cerbydau ac ati) | – | – |
| Taliadau consesiwn gwasanaeth: TG | – | 1 |
| Teithio a chynhaliaeth | – | 46 |
| Hyfforddiant a chostau eraill cysylltiedig â staff | – | 7 |
| Ffioedd a thaliadau banc | – | – |
| Gwariant ar ymchwil a datblygu | – | 29 |
| Gwariant arall ar weinyddu | – | 53 |
| **CYFANSWM** | **–** | **235** |

Mae a wnelo'r nodyn hwn â gwariant Swyddfa Cymru. Bydd y cyfanswm fel rheol yn gyson â'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y costau Gweinyddu yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol. Gall gwahaniaethau godi oherwydd y ffordd y caiff darpariaethau eu trin.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 4. Costau Rhaglenni

| | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|
| ***Costau Rhaglenni - Swyddfa Cymru*** | | |
| Treuliau'r Arglwydd-Raglawiaid | 43 | 43 |
| Ariannu Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 13,547,659 | 13,482,462 |
| **Cyfanswm Costau Rhaglenni** | **13,547,702** | **13,482,505** |

## 5. Income

| | Note | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Incwm rhent | | 51 | 30 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | | **51** | **30** |
| **Taladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | | |
| Incwm Dros Ben | | - | - |
| Ernesau Etholiad y Cynulliad a Gollwyd | SOPS5.1 | - | 1 |
| **Cyfanswm taladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | **-** | **1** |
| **Uwch gyfanswm** | | **51** | **31** |
| Ac o hynny | | | |
| Incwm gweinyddu | | 51 | 31 |
| **Cyfanswm** | | **51** | **31** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 6. Eiddo, Peiriannau ac Offer

| | Tir | Adeiladau | Peiriannau ac Offer | Dodrefn a Ffitiadau | Taliadau ar Gyfrif ac Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2014–15** | | | | | | |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 2,764 | 1,690 | 157 | 259 | 545 | 5,415 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | – | 117 | 117 |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – | – |
| Ailbrisiadau | 2 | (508) | – | – | – | (506) |
| Ailddosbarthiadau | – | 662 | – | – | (662) | – |
| Ailddatganiadau | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **2,766** | **1,844** | **157** | **259** | **–** | **5,026** |
| **Dibrisio** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | – | (329) | (135) | (107) | – | (571) |
| Cofnodwyd yn y flwyddyn | – | (96) | (18) | (17) | – | (131) |
| Ailbrisiadau | – | 425 | – | – | – | 425 |
| Ailddosbarthiadau | – | – | – | – | – | – |
| Ailddatganiadau | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | **–** | **–** | **(153)** | **(124)** | **–** | **(277)** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2015** | **2,766** | **1,844** | **4** | **135** | **–** | **4,749** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2014** | **2,764** | **1,361** | **22** | **152** | **545** | **4,844** |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| **Dan berchnogaeth** | **2,766** | **1,844** | **4** | **135** | **–** | **4,749** |

Bydd tir ac eiddo, y cyfan yn berthnasol i Dŷ Gwydyr yn cael eu prisio'n broffesiynol gan syrfwyr siartredig cymwysedig o Asiantaeth y Swyddfa Brisio gan ddefnyddio Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), a elwir 'Y Llyfr Coch'. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2015. Rhwng y prisiadau proffesiynol, bydd pob eiddo, peiriant ac offer yn cael eu prisio ar sail mynegeion.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 6.a Eiddo, Peiriannau ac Offer

| | Tir | Adeiladau | Peiriannau ac Offer | Dodrefn a Ffitiadau | Taliadau ar Gyfrif ac Asedau sydd wrthi'n cael eu Hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **2013–14** | | | | | | |
| **Cost neu brisiad** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 2,560 | 1,512 | 152 | 237 | – | 4,461 |
| Ychwanegiadau | – | – | – | 19 | 545 | 564 |
| Ailbrisiadau | 204 | 178 | 5 | 3 | – | 390 |
| Ailddosbarthiadau | – | – | – | – | – | – |
| Ailddatganiadau | – | – | – | – | – | – |
| Trosglwyddiadau | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **2,764** | **1,690** | **157** | **259** | **545** | **5,415** |
| **Dibrisio** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | – | (272) | (105) | (90) | – | (467) |
| Cofnodwyd yn y flwyddyn | – | (57) | (26) | (16) | – | (99) |
| Ailbrisiadau | – | – | (4) | (1) | – | (5) |
| Ailddosbarthiadau | – | – | – | – | – | – |
| Ailddatganiadau | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **–** | **(329)** | **(135)** | **(107)** | **–** | **(571)** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2014** | **2,764** | **1,361** | **22** | **152** | **545** | **4,844** |
| **Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2013** | **2,560** | **1,240** | **47** | **147** | **–** | **3,994** |
| **Ariannu asedau:** | | | | | | |
| **Dan berchnogaeth** | **2,764** | **1,361** | **22** | **152** | **545** | **4,844** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 7. Cyfalaf ac Ymrwymiadau eraill

## 7.1 Ymrwymiadau o Dan Brydlesi

## 7.2 Prydlesi gweithredol

Rhoddir ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl blwyddyn y cyfrifon hyn yn y tabl isod, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod pan ddaw'r brydles i ben.

| | 31 Mawrth 2015 Adran Graidd £000 | 31 Mawrth 2014 Adran Graidd £000 |
|---|---|---|
| **Mae rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredol yn cynnwys:** | | |
| **Tir ac Adeiladau:** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 90 | 6 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 360 | 360 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 182 | 272 |
| **Cyfanswm** | 632 | 638 |
| **Arall:** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | – | 53 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | – | – |
| Hwyrach na phum mlynedd | – | – |
| **Cyfanswm** | – | 53 |
| **Uwch gyfanswm** | **632** | **691** |

Mae'r brydles tir ac adeiladu'n berthnasol i adeilad dan brydles ar gyfer Swyddfa Cymru yng Nghaerdydd. Yn 2012-13 ymgymerodd yr Adran â dwy brydles ar wahân ar gyfer gwahanol loriau yn adeilad Caerdydd y naill ar gyfer Swyddfa Cymru a'r llall ar gyfer y Comisiwn ar Ddatganoli.

Yn 2014-15, mae Swyddfa Cymru wedi ymgymryd â chyfnod rhent corn pupur ar gyfer y les ac ar ôl cwblhau eu hadolygiad, rhoddodd y Comisiwn ar Ddatganoli y gorau i'w prydles yn chwarter cyntaf 2014-15.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 8. Offerynnau Ariannol

### 8.1 Categorïau o Offerynnau Ariannol

| | Nodyn | 31 Mawrth 2015<br>£'000 | 31 Mawrth 2014<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau ariannol** | | | |
| Arian parod | 9 | 49 | 181 |
| ***Benthyciadau a Derbyniadwyon <1fl*** | | | |
| Derbyniadwyon eraill (crynswth) | 11.1 | 76 | 17 |
| Y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol – cyfalaf | 11.1 | 68 | 67 |
| ***Benthyciadau a Derbyniadwyon <1fl*** | | | |
| Y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol | 10 | 11,419 | 11,487 |
| **Swm ar Bapur yr Asedau Ariannol** | | **11,612** | **11,752** |
| **Rhwymedigaethau Ariannol** | | | |
| ***Rhwymedigaethau Ariannol ar sail cost wedi'i hamorteiddio*** | | | |
| Y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol – cyfalaf | 12.1 | (11,487) | (11,554) |
| **Swm ar bapur y Rhwymedigaethau Ariannol** | | **(11,487)** | **(11,554)** |

Oherwydd bod gofynion adran parod yr adran yn cael eu diwallu drwy'r broses Amcangyfrifon, bydd offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn berthnasol i gontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr Adran ac felly, ychydig o gredyd, hylifedd neu risg ar y farchnad y mae'r Adran yn agored iddo.

Bydd benthyciadau gan y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol (NLF) yn cael eu trin yn fuddsoddiadau a'u datgelu ar sail cost hanesyddol. Mae'r balansau yn y cyfrifon hyn yn cynrychioli benthyciadau gan yr NLF sy'n cael eu benthyca ymlalen gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a hynny'n wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Wedyn, fel'u trosglwyddwyd i Fwrdd Datblygu Gwledig Cymru yn yr 1980au; ac yna i Awdurdod Datblygu Cymru, pan ddiddymwyd y Bwrdd Datblygu Gwledig yn 1998. Ar ôl diddymu Awdurdod Datblygu Cymru yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prif fenthyciad a'r llog ac mae'n cael ei briodoli i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd symiau a dderbynnir gan Swyddfa Cymru'n cael eu hildio i'r NLF. Bydd balansau benthyciadau sydd heb eu talu'n ôl yn cael eu cynnwys o fewn Taladwyon Masnach ac eraill a Rhwymedigaethau Ariannol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 9. Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2015 | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2014 | 181 | 389 |
| Newid net yn yr arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | (132) | (208) |
| Balans ar 31 Mawrth 2015 | 49 | 181 |
| Cedwid y balansau a ganlyn yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 49 | 180 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | – | 1 |
| **Cyfanswm** | **49** | **181** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 10. Buddsoddiadau

| | 31 Mawrth 2015 |
|---|---|
| | Benthyciadau a ariannwyd o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol |
| | £000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | 11,487 |
| Trosglwyddiadau | (68) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **11,419** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 11. Derbyniadwyon Masnach ac asedau cyfredol eraill

### 11.1 Dadansoddiad yn ôl math

| | Nodyn | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | | |
| Derbyniadwyon masnach | | 43 | – |
| Derbyniadwyon TAW | | 20 | – |
| Adneuon a blaendaliadau | | 9 | 5 |
| Derbyniadwyon eraill | | 4 | 12 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | | 10 | 11 |
| Rhan gyfredol benthyciad NLF – llog derbyniadwy | | 130 | 131 |
| Rhan gyfredol benthyciad NLF – cyfalaf | | 68 | 67 |
| **Cyfanswm y derbyniadwyon** | | **284** | **226** |

| | Nodyn | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | | |
| Adneuon a blaendaliadau | | 8 | 4 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | | 25 | 25 |
| **Cyfanswm y derbyniadwyon** | | **33** | **29** |

### 11.2 Balansau Rhyng-Lywodraethol

| | Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 |
| Balansau gyda chyrff eraill llywodraeth ganolog | 264 | 210 | – | – |
| *Is-gyfanswm:* balansau rhyng–lywodraethol | 264 | 210 | – | – |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 20 | 16 | 33 | 29 |
| **Cyfanswm y derbyniadwyon** | **284** | **226** | **33** | **29** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 12. Taladwyon Masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

### 12.1 Dadansoddiad yn ôl math

| | Nodyn | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | | |
| TAW | | – | 2 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | | 58 | 58 |
| Taladwyon masnach | | 1 | 385 |
| Taladwyon eraill | | 178 | 40 |
| Croniadau | | 614 | 766 |
| Incwm gohiriedig | | – | – |
| Rhan gyfredol benthyciad NLF – cyfalaf | | 68 | 67 |
| Rhan gyfredol benthyciad NLF – llog taladwy | | 130 | 131 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer y cyflenwad ond heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn | | 49 | 181 |
| **Cyfanswm taladwyon** | | **1,098** | **1,630** |

| | Nodyn | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 |
|---|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | | |
| Benthyciadau NLF | 10 | 11,419 | 11,487 |
| **Cyfanswm taladwyon** | | **11,419** | **11,487** |

### 12.2 Balansau Rhyng-Lywodraethol

| | Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | | Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 | 31 Mawrth 2015 £000 | 31 Mawrth 2014 £000 |
| Balansau gyda chyrff eraill llywodraeth ganolog | 686 | 759 | 11,419 | 11,487 |
| Balansau gydag awdurdodau lleol | – | 5 | – | – |
| Balansau gydag Ymddiriedolaethau'r GIG | – | – | – | – |
| Balansau gyda chorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu | – | 2 | – | – |
| *Is-gyfanswm:* balansau rhyng-lywodraethol | 686 | 766 | 11,419 | 11,487 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 412 | 864 | – | – |
| **Cyfanswm taladwyon** | **1,098** | **1,630** | **11,419** | **11,487** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 13. Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau a Thaliadau

| | Costau Ymddeol yn Gynnar | Costau Dadfeilio Prydlesi | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2013 | 89 | - | 89 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | - | - |
| Darpariaethau diangen wedi'u hysgrifennu yn ôl | - | - | - |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (21) | - | (21) |
| Dad-ddirwyn disgownt | - | - | - |
| Balans ar 1 Ebrill 2014 | 68 | - | 68 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | 40 | 40 |
| Darpariaethau diangen wedi'u hysgrifennu yn ôl | - | - | - |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (22) | - | (22) |
| Dad-ddirwyn disgownt | - | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **46** | **40** | **86** |

Costau Ymddeol yn Gynnar yw'r symiau sy'n daladwy i gyn-aelodau'r staff pan ganiateir iddynt ymddeol yn gynnar o'r gwasanaeth sifil. Telir y symiau hyn naill ai'n fisol (taliadau ACP) nes iddynt gyrraedd 60 oed, ar ffurf cyfandaliadau, neu gyfuniad o'r ddau. Mae ein Darparwr Pensiynau (MyCSP) yn amcangyfrif y symiau a ddylai fod yn daladwy i'r unigolion hyn a gwneir darpariaeth ar gyfer y symiau hyn yn ein cyfrifon.

Costau dadfeilio prydlesi yw'r darpar symiau a fydd yn daladwy yn y dyfodol wrth roi'r gorau i brydles Swyddfa Caerdydd.

### 13.1 Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifau gostyngol

| | Ymddeol yn Gynnar 2014-15 | Dadfeilio Lesddaliad 2014-15 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 22 | - |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 24 | - |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | 40 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | **46** | **40** |

| | Ymddeol yn Gynnar 2013-14 |
|---|---|
| | £000 |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 21 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 47 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | **68** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 67 i 89 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## 14. Datgelir Rhwymedigaethau Wrth Gefn o dan IAS 37

Nid oes gan Swyddfa Cymru ddim rhwymedigaethau wrth gefn

## 15. Trafodion partïon cysylltiedig

### Adrannau Cysylltiedig a chyrff eraill y Llywodraeth ganolog

Bydd Swyddfa Cymru yn ariannu Llywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig y mae Swyddfa Cymru wedi cael gwahanol drafodion perthnasol â hwy yn ystod y flwyddyn.

Hefyd, mae Swyddfa Cymru wedi cynnal nifer o drafodion perthnasol ag adrannau eraill y llywodraeth, y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bennaf, a chyrff eraill y llywodraeth ganolog.

Nid oes dim trafodion eraill â phartïon cysylltiedig i sôn amdanynt.

*Mae'r holl iawndaliadau i uwch reolwyr wedi'u datgelu'n llawn yn yr Adroddiad Taliaidau.

## 16 Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 *'Digwyddiadau Ar Ôl y Cyfnod Adrodd',* ystyrir digwyddiadau ar ôl y Datganiad ynghylch y Sefyllfa Ariannol hyd at y dyddiad pan gaiff y Cyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu. Dehonglir hyn fel yr un dyddiad ag y caiff y Cyfrifon eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Ar ôl Etholiad Cyffredinol 2015, ailbenodwyd y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS ac Alun Cairns AS yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn Is-Ysgrifennydd Seneddol Cymru, yn y drefn honno. Penodwyd yr Arglwydd Bourne o Aberystwyth yn Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru.

## TABL 1

| Bloc Cymru 2010-11 to 2015-16 | 2010–11 alldro £'000 | 2011–12 alldro £'000 | 2012–13 alldro £'000 | 2013–14 alldro £'000 | 2014–15 cynlluniau £'000 | 2014–15 alldro (8) £'000 | 2015–16 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Swyddfa Cymru**(1) (2) | | | | | | | |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru**(3) | | | | | | | |
| Costau Gweinyddu Swyddfa Cymru | 5,074 | 5,099 | 5,501 | 4,406 | 4,739 | 4,280 | 4,347 |
| Swyddfa Cymru – costau eraill(3) | 43 | 34 | 57 | 43 | 60 | 43 | 60 |
| **Adnoddau Swyddfa Cymru**(3) | 5,117 | 5,133 | 5,558 | 4,449 | 4,799 | 4,323 | 4,407 |
| Cyfalaf Swyddfa Cymru | 130 | 185 | 319 | 564 | 135 | 117 | 25 |
| **TGA Adnoddau + Cyfalaf Swyddfa Cymru**(3) | **5,247** | **5,318** | **5,877** | **5,003** | **4,934** | **4,440** | **4,432** |
| *llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth* | *-227* | *-70* | *-72* | *-71* | *-140* | *-131* | *-70* |
| **TGA Swyddfa Cymru** (4) | **5,020** | **5,248** | **5,805** | **4,942** | **4,794** | **4,309** | **4,362** |

## TABL 1B

| TGA Llywodraeth Cymru a Chyfanswm Bloc Cymru | 2010–11 alldro £'000 | 2011–12 alldro £'000 | 2012–13 alldro £'000 | 2013–14 alldro £'000 | 2014–15 cynlluniau £'000 | 2014–15 alldro (8) £'000 | 2015–16 cynlluniau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru**(1) (2) (7) (8) | | | | | | | |
| Adnoddau Llywodraeth Cymru(3) | 13,788,840 | 13,659,943 | 13,653,771 | 14,466,418 | 14,393,975 | 14,202,686 | 13,525,478 |
| Cyfalaf Llywodraeth Cymru | 1,751,150 | 1,385,694 | 1,361,724 | 1,324,687 | 1,503,385 | 1,500,424 | 1,515,128 |
| **TGA Llywodraeth Cymru**(3) (7) | **15,539,990** | **15,045,637** | **15,015,495** | **15,791,105** | **15,897,360** | **15,703,110** | **15,040,606** |
| *llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth* | *-407,253* | *-427,664* | *-406,226* | *-757,100* | *-570,338* | *-445,490* | *-626,499* |
| **Cyfanswm Bloc Cymru**(4) (7) | **15,132,737** | **14,617,973** | **14,609,269** | **15,034,005** | **15,327,022** | **15,257,620** | **14,414,107** |
| **TGA Llywodraeth Cymru**(4) | **5,020** | **5,248** | **5,805** | **4,942** | **4,794** | **4,309** | **4,362** |
| **Cyfanswm Bloc Cymru**(4) (5) (6) | **15,137,757** | **14,623,221** | **14,615,074** | **15,038,947** | **15,331,816** | **15,261,929** | **14,418,469** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu.
(2) Mae'n cynnwys Newidiadau Cyllidebol o ganlyniad i Clear Line of Sight.
(3) Yn cynnwys dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(4) Adnoddau + cyfalaf – dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(5) Yn ôl confensiwn mae cyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (TGA) wedi'u mynegi ar ffurf adnoddau a chyfalaf llai dibrisiant a lleihad mewn gwerth. Felly ni fydd swm y rhifau am adnoddau a chyfalaf yn y tabl hwn yn cyfateb i'r Terfyn Gwariant Adrannol: y gwahaniaeth yw dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(6) TGA Swyddfa Cymru + TGA Llywodraeth Cymru ar ôl didynnu dibrisiant a lleihad mewn gwerth.
(7) Mae ffigurau TGA am flynyddoedd alldro wedi'u haddasu i adlewyrchu newidiadau mewn cyllidebu a gafwyd wedyn.
(8) Alldro Swyddfa Cymru y data yn cynrychioli alldro terfynol a bydd yn cyd-fynd â'r cyfrifon cyhoeddedig mewn man arall yn y ddogfen hon. Mae data Llywodraeth Cymru yn dangos canlyniad dros dro wrth i Lywodraeth Cymru i gwblhau eu cyfrifon eto

## TABL 2

## Newidiadau yn Nherfyn Gwariant Adrannol Llwodraeth Cymry rhwng 2011-12 a 2015-16 ers cyhoeddi Adroddiad Chyfrifon 2013-14

| | 2011-12 £m Alldro | 2012-13 £m Alldro | 2013-14 £m Alldro | 2014-15 £m Alldro Dros Dro | 2015-16 £m Cynlluniau |
|---|---|---|---|---|---|
| **TGA Cyfalaf a TGA Adnoddau: Mehefin 2014** | **15,288.680** | **15,254.604** | **15,792.603** | **15,675.983** | **15,814.771** |
| Trosglwyddo rhwng Adrannau | | | | | |
| o HO: Ardoll mudo Iechyd | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 5.936 |
| i'r DWP: Cronfa Byw'n Annibynnol | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | -6.600 |
| o DWP: Costau gweinyddu Cymorth Treth y Cyngor | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 4.770 |
| o DWP: Lwfansau hyfforddi | 0.000 | 0.000 | 0.000 | -1.000 | 0.000 |
| o DCMS: Band Eang UK | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 31.275 | 0.000 |
| o DECC: Cytundeb ynni | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 1.456 | 0.000 |
| i'r DWP: Gwrthdroi drosglwyddo Budd-dal Treth Gyngor | -243.043 | -239.109 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Polisi Gwariant | | | | | |
| Cyfnewid Cyllidebau | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 98.244 | 0.000 |
| Cronfa Cymunedau Arfordirol | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 1.550 | 0.000 |
| Lleihad yng ngwerth Benthyciadau Myfyrwyr | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Ad-daliad arian parod Rheolaeth | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.184 | 0.000 |
| TAW ar wasanaethau cyfreithiol | 0.000 | 0.000 | 0.000 | -0.106 | -0.325 |
| Ailddosbarthu o LIBOR ddirwyon i Blue Light Elusennau | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.481 | 0.000 |
| Cronfeydd Strwythurol - Gorllewin Cymru | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 3.807 | 0.000 |
| Trethi Busnes symiau canlyniadol Barnett a ddyfarnwyd yn Natganiad yr Hydref 2012 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 17.423 | 0.000 |
| Trethi Busnes symiau canlyniadol Barnett a ddyfarnwyd yn Natganiad yr Hydref 2013 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 37.778 |
| NATO Summit | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.900 | 0.000 |
| Lleihad yng ngwerth Benthyciadau Myfyrwyr | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 47.000 | 0.000 |
| Symiau Canlyniadol Barnett | | | | | |
| Datganiad yr Hydref 2014 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 1.344 | 122.077 |
| Cyllideb 2015 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 18.199 |
| 2014-15 Rhewi'r Dreth Gyngor | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 18.819 | 0.000 |
| Alldro Adrannol (tanwariant o'i gymharu â'r cynlluniau terfynol) | | | | | |
| Alldro Dros Dro 2013-14 | 0.000 | 0.000 | -16.354 | 0.000 | 0.000 |
| Alldro Terfynol 2013-14 | 0.000 | 0.000 | 14.856 | 0.000 | 0.000 |
| Amcangyfrif o'r Alldro 2014-15 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | -194.250 | 0.000 |
| Newidiadau Cyllidebu | | | | | |
| Ailddosbarthu gwariant o Incwm Trethi Busnes o TGA I Reolir yn Flynyddol | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | -956.000 |
| ***Is-gyfanswm*** | ***-243.043*** | ***-239.109*** | ***-1.498*** | ***27.127*** | ***-774.165*** |
| **TGA Cyfalaf a TGA Adnoddau: Mehefin 2015** | **15,045.637** | **15,015.495** | **15,791.105** | **15,703.110** | **15,040.606** |

(1) Mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'n adio'n union am fod ffigurau wedi'u talgrynnu..

## TABL 3

## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2013-14: Darpariaeth ac Alldro Terfynol

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Alldro Terfynol £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA | 15,491,805 | 15,934,418 | 15,791,105 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 317,132 | 402,883 | 305,452 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **15,808,937** | **16,337,301** | **16,096,557** |
| *Llai:* | | | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnoddau a Neilltuwyd nad ydynt yn arian | 482,341 | 809,944 | 757,100 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 102,146 | 180,303 | 133,636 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **679,365** | **1,085,125** | **985,614** |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **15,129,572** | **15,252,176** | **15,110,943** |
| | | | |
| Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -996,549 | -947,696 | -947,696 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -944,000 | -1,020,000 | -1,020,000 |
| **Cyfanswm** | **-1,940,549** | **-1,967,696** | **-1,967,696** |
| | | | |
| Addasiadau Amseru | 325 | 198,075 | 341,188 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 100 | 100 | 100 |
| Symudiadau mewn balansau ar Gronfa Gyfunol Cymru | | | -2,073 |
| | | | |
| **Grant Arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,189,448** | **13,482,655** | **13,482,462** |

## TABL 4

## Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2014-15: Darpariaeth ac Amcangyfrif o'r Alldro

| | Darpariaeth Wreiddiol £'000 | Darpariaeth Derfynol £'000 | Amcangyfrif o'r Alldro £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA | 15,675,983 | 15,897,360 | 15,703,110 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 443,069 | 595,479 | 404,754 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **16,119,052** | **16,492,839** | **16,107,864** |
| Llai: | | | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | | | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 88,800 | 88,800 | 88,800 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 | 6,078 | 6,078 |
| Adnoddau a Neilltuwyd nad ydynt yn arian | 506,394 | 570,338 | 445,490 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 153,259 | 259,895 | 98,684 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **754,531** | **925,111** | **639,052** |
| | | | |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **15,364,521** | **15,567,728** | **15,468,812** |
| | | | |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | -946,933 | -973,384 | -973,384 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -1,041,000 | -1,037,585 | -1,037,585 |
| **CYFANSWM** | **-1,987,933** | **-2,010,969** | **-2,010,969** |
| | | | |
| Addasiadau Amseru | 270 | 135,270 | 135,270 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | | | -45,454 |
| | | | |
| **Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,376,858** | **13,692,029** | **13,547,659** |

**TABL 5**
**Grant arian a dalwyd i Gronfa Gyfunol Cymru 2015-16**

| | Darpariaeth £'000 |
|---|---:|
| Gwariant a ddynodwyd yn TGA | 15,040,606 |
| Gwariant a ddynodwyd yn Wariant a Reolir yn Flynyddol | 647,476 |
| Trethi Annomestig | 956,000 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **16,644,082** |
| **Llai:** | |
| *Gwariant sydd heb ei ddyfarnu:* | |
| Cymeradwyaethau Credyd Awdurdodau Lleol | 88,800 |
| Gwariant arall sydd heb ei ddyfarnu | 6,078 |
| Adnoddau a Neilltuwyd nad ydynt yn arian | 626,499 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol nad yw'n arian | 201,635 |
| **CYFANSWM Y TGA NAS DYFARNWYD** | **923,012** |
| **CYFANSWM Y TGA A DDYFARNWYD** | **15,721,070** |
| Derbyniadau a ddyfarnwyd | -1,081,564 |
| Derbyniadau Ardrethi Annomestig | -956,000 |
| **Addasiadau Amseru** | |
| Cynnydd/lleihad mewn derbyniadwyon a taladwyon | 120 |
| Defnydd o Ddarpariaethau | 266 |
| **CYFANSWM Y GRANT I GRONFA GYFUNOL CYMRU** | **13,683,892** |

ISBN 978-1-4741-2253-5